Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 32/2026

Dyddiad cyhoeddi: 03/03/2026

# Adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-178-4

Adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)

Awduron: Nia Bryer, Heledd Bebb a Tanwen Grover

Adroddiad Ymchwil Llawn: [Bryer, N. et al (2026). Adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 32/2026.]

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-cynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Addysg a Sgiliau Ôl-16

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....4

Rhestr o ffigurau....5

Geirfa....7

1. Cyflwyniad a chefndir....10

2. Methodoleg....11

2.1. Dull gweithredu....11
2.2. Ystyriaethau methodolegol....11
2.2.1. Dadansoddiad o ddata gwybodaeth reoli ar ymgeiswyr y GDLIC (AB)....11
2.2.2. Arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB)....12
2.2.3. Ymgysylltu â Chanolfannau Dysgu....13

3. Y cyd-destun....14

3.1. Ynglŷn â'r GDLIC (AB)....14
3.1.1. Amcanion....14
3.1.2. Y cyllid sydd ar gael....14
3.1.3. Cymhwystra myfyrwyr....15
3.1.4. Cyrsiau cymwys....15
3.1.5. Y broses ymgeisio....16
3.1.6. Cytundebau Dysgu a monitro....17
3.2. Gwerthusiad blaenorol....17
3.3. Cyd-destun polisi a chyllido....18

4. Ceisiadau a dyfarniadau GDLIC (AB)....21

4.1. Trosolwg....21
4.2. Proffil o geisiadau a dyfarniadau a wnaed....22
4.2.1. Dull astudio....22
4.2.2. Rhyw....23
4.2.3. Oedran....23
4.2.4. Math o sefydliad....24
4.2.5. Awdurdodau lleol....24
4.2.6. Incwm aelwydydd....24
4.2.7. Anabledd ac ethnigrwydd....25
4.3. Y cyllid a ddyfarnwyd....25

5. Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg ....................27
5.1. Proffil o ymgeiswyr y GDLIC (AB) a ymatebodd i'r arolwg ....................27
5.2. Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg o staff Canolfannau Dysgu ....................32
6. Hyrwyddo'r GDLIC (AB) a'r broses ymgeisio ....................33
6.1. Amgylchiadau'r ymgeiswyr pan wnaethant gais am y grant ....................33
6.2. Pryderon ynglŷn â dechrau astudiaethau pellach neu barhau â nhw ....................36
6.3. Sut yr oedd pobl yn clywed am y GDLIC (AB) ....................38
6.4. Gwneud cais am y GDLIC (AB) ....................40
6.5. Rhwystrau i ymgeisio ....................42
6.6. Gwelliannau i'r broses ymgeisio ....................45
6.7. Canlyniad ceisiadau am grant ....................47
6.8. Newidiadau a welwyd ym mhroffil derbynyddion y GDLIC (AB) ....................48
7. Trefniadau gweinyddol, Cytundebau Dysgu a thaliadau ....................50
7.1. Sut y caiff y cynllun GDLIC (AB) ei weinyddu ....................50
7.2. Gofynion presenoldeb a dilyniant sy'n gysylltiedig â'r grant ....................51
7.3. Cytundebau Dysgu ....................53
7.4. Taliadau grant ....................55
8. Pwysigrwydd y GDLIC (AB) ....................57
8.1. Y defnydd o'r GDLIC (AB) ....................57
8.2. Pwysigrwydd y GDLIC (AB) ....................59
9. Effaith y GDLIC (AB) ....................62
9.1. Yr effaith ar benderfyniadau i gofrestru ar gwrs, presenoldeb ac ymgysylltu ....................62
9.2. Yr effaith ar gyfraddau cwblhau cyrsiau ....................64
10. Dilyniant ....................66
10.1. Beth wnaeth yr ymgeiswyr ar ôl cwblhau neu adael eu cwrs ....................66
10.2. Beth oedd y derbynyddion yn ei wneud adeg yr arolwg ....................68
11. Cymhwystra ar gyfer y GDLIC (AB) a gwerth y cymorth ....................70
11.1. Meini prawf cymhwystra y grant ....................70
11.1.1. Trothwy incwm aelwydydd ....................70
11.1.2. Lefelau cymwysterau ....................71
11.1.3. Dysgu o bell ....................72
11.1.4. Dysgwyr rhan-amser ....................72
11.2. Sut y mae'r GDLIC (AB) yn cyd-fynd â chymorth ariannol arall ....................73

11.3. Gwerth y grant ....73
11.4. Amlder y taliadau ....76
11.5. Newidiadau ehangach i'r grant....77
12. Casgliadau ....79
12.1. Nod ac amcanion polisi'r cynllun ....79
12.2. Effaith y GDLIC (AB) ar ddysgwyr ....79
12.3. Trefniadau gweinyddol y cynllun ....80
12.4. Cymhwystra ar gyfer y cynllun a gwerth y cymorth ....81
13. Argymhellion ....83
Atodiad A Cyfeiriadau ....85
Atodiad B Dull gwerthuso....87
Atodiad C Offerynnau ymchwil....89

# Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Mathau o gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer y cynllun GDLIC (AB) .............................16
Tabl 11.1: Nifer yr ymgeiswyr a awgrymodd bob uchafswm lwfans grant amgen ar gyfer dysgwyr llawnamser.........................................................................................75

# Rhestr o ffigurau


Ffigur 4.1: Nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau GDLIC (AB) fesul blwyddyn academaidd, 2002/03 i 2023/24 ..... 22
Ffigur 4.2: Proffil oedran ymgeiswyr llwyddiannus y GDLIC (AB) ..... 23
Ffigur 4.3: Bandiau incwm aelwydydd derbynyddion GDLIC (AB) ..... 25
Ffigur 5.1: Oedran y rhai a ymatebodd i'r arolwg o ymgeiswyr ..... 27
Ffigur 5.2: Grŵp ethnig neu genedligrwydd yr ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr ..... 28
Ffigur 5.3: Cymorth ariannol ychwanegol a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr ..... 29
Ffigur 5.4: Profiadau ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr o dlodi bwyd o fewn y 12 mis diwethaf ..... 30
Ffigur 5.5: Sgiliau Cymraeg ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr ..... 31
Ffigur 5.6: P'un a yw ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches ..... 31
Ffigur 6.1: Yr hyn yr oedd yr ymgeiswyr yn ei wneud pan wnaethant gais am y grant ..... 34
Ffigur 6.2: Cymhwyster uchaf yr ymgeiswyr pan wnaethant gais am y grant ..... 35
Ffigur 6.3: Y math o gwrs yr oedd ymgeiswyr yn bwriadu ei astudio pan wnaethant gais am y grant ..... 36
Ffigur 6.4: Pryderon ynghylch dechrau astudiaethau pellach neu barhau â nhw ..... 37
Ffigur 6.5: Sut y clywodd yr ymgeiswyr am y grant am y tro cyntaf ..... 38
Ffigur 6.6: Ym mha flwyddyn academaidd y gwnaeth ymgeiswyr gais am y grant am y tro cyntaf ..... 41
Ffigur 6.7: Barn ymgeiswyr ar hwylustod y broses ymgeisio ..... 42
Ffigur 7.1: Pa mor llym y dilynodd colegau neu ddarparwyr cyrsiau'r gofynion presenoldeb yn y Cytundebau Dysgu ..... 54
Ffigur 8.1: Ar beth mae derbynyddion yn gwario eu grant fel arfer ..... 58
Ffigur 8.2: Pethau yr oedd yn anodd i ymgeiswyr aflwyddiannus dalu amdanynt heb y grant ..... 59
Ffigur 8.3: Pwysigrwydd y grant i dderbynyddion ..... 60
Ffigur 9.1: Effaith y grant ar benderfyniadau cofrestru, presenoldeb a chyflawniad academaidd y derbynnydd ..... 63
Ffigur 9.2: Barn ymgeiswyr aflwyddiannus ar effaith bosibl y grant ar bresenoldeb a chyflawniad academaidd ..... 63

Ffigur 10.1: Cymwysterau pellach a astudiwyd gan dderbynyddion y grant a oedd wedi symud ymlaen i ddilyn cymhwyster pellach ers cwblhau neu adael cwrs a ariannwyd gan y GDLIC (AB)....67
Ffigur 10.2: Beth oedd derbynyddion y grant a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu a adawodd eu cwrs yn gynnar yn ei wneud adeg yr arolwg....69
Ffigur 11.1: Barn ymgeiswyr am swm y grant....74
Ffigur 11.2: Barn yr ymgeiswyr am amlder y taliadau grant....76

# Geirfa

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** (ADY)
Cymorth a ddarperir i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt oherwydd anawsterau dysgu, anableddau, neu anghenion addysgol eraill.

**Canolfannau Dysgu**
Colegau, ysgolion a darparwyr hyfforddiant a gydnabyddir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fel sefydliad addysg sy'n gallu gweinyddu'r cynllun GDLIC (AB).

**City and Guilds**
Sefydliad addysg alwedigaethol sy'n cynnig cymwysterau a thystysgrifau ar draws ystod eang o ddiwydiannau.

**Cronfa Ariannol Wrth Gefn**
Cronfa a ddarperir drwy sefydliadau addysg bellach i gefnogi dysgwyr ag anghenion ariannol brys neu annisgwyl, fel gofal plant neu gostau teithio.

**Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr** (SLC)
Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol sy'n darparu benthyciadau i fyfyrwyr ac yn rheoli cymorth ariannol cysylltiedig i ddysgwyr addysg uwch ac addysg bellach yn y DU.

**Cyfrifon Dysgu Personol**
Cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n oedolion ar gyfer cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio.

**Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg** (BTEC)
Cymwysterau galwedigaethol a gynigir ar wahanol lefelau, sy'n cael eu cydnabod yn y meysydd addysg bellach ac uwch.

**Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi** (CThEF)
Adran o lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gasglu trethi, yswiriant gwladol, a rheoli budd-daliadau sy'n berthnasol i gymorth ariannol i fyfyrwyr.

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
Y gwasanaeth cyllido a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i ariannu myfyrwyr cymwys o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion a cholegau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Cymhwyster Galwedigaethol** (VRQ)
Cymwysterau sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau ymarferol mewn meysydd galwedigaethol penodol, a gynigir yn aml ochr yn ochr â NVQs neu BTECs.

**Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol** (NVQ)
Cymwysterau seiliedig ar waith sy'n asesu cymhwysedd dysgwyr mewn rôl neu sector penodol.

**Cynllun Adsefydlu Dinasyddion** (CRS)
Cynllun sy'n darparu cymorth adleoli ac adsefydlu i grwpiau penodol o ffoaduriaid neu unigolion sydd wedi'u dadleoli.

**Cytundeb Dysgu**
Cytundeb ffurfiol sy'n amlinellu cwrs astudio a chyfrifoldebau dysgwr, a ddefnyddir yn aml i brofi cymhwystra am grant neu gymorth ariannol.

**Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru** (FfCChC)

Fframwaith dysgu yw hwn sy'n nodi'r holl lefelau dysgu o'r camau cyntaf (Mynediad 1, 2 a 3) i'r rhai ar y lefel uchaf (Lefel 8).

**Grant Dysgu Llywodraeth Cymru AB** (GDLlC AB)
Grant sy'n darparu cymorth ariannol i ddysgwyr cymwys 19 oed a throsodd mewn addysg bellach, yn enwedig y rhai o aelwydydd incwm isel, yn seiliedig ar incwm yr aeliwyd a phresenoldeb.

**Grant Dysgu'r Cynulliad AB**
Cynllun cymorth ariannol i ddysgwyr mewn addysg bellach a ragflaenodd y GDLlC (AB), a oedd yn anelu at helpu myfyrwyr cymwys i dalu costau astudio.

**Gwybodaeth Reoli**
Data a gesglir gan sefydliadau i fonitro niferoedd y dysgwyr, cyllid, dilyniant a deilliannau.

**Lwfans Cynhaliaeth Addysg** (LCA)
Cymorth ariannol i bobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg bellach o gartrefi incwm isel, wedi'i gynllunio i annog pobl ifanc i barhau i ddysgu.

**Medr**
Medr yw Comisiwn Addysg Drydyddol Cymru, sef corff hyd braich Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

**Mwyafrif Byd-eang**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, sy'n cydnabod eu bod, gyda'i gilydd, yn ffurfio mwyafrif poblogaeth y byd.

**Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid** (ARAP)
Polisi Llywodraeth y DU sy'n darparu cymorth a gwasanaeth adsefydlu i ddinasyddion Affganistan sy'n adleoli i'r DU.

**ReAct+**
Rhaglen gyflogadwyedd Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n oedolion ac sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur i ddilyn cyrsiau byr sydd wedi'u hanelu at ailhyfforddi neu uwchsgilio.

**Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill** (ESOL)
Cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i helpu dysgwyr i wella eu sgiliau Saesneg, yn enwedig y rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

**Sefydliad Addysg Bellach** (SAB)
Darparwr addysg sy'n cynnig cyrsiau i ddysgwyr sydd fel arfer yn 16 oed a hŷn, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, cymwysterau Safon Uwch, ac addysg oedolion.

**Sgiliau Byw'n Annibynnol**
Cyrsiau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau ymarferol ar gyfer byw'n annibynnol, yn aml wedi'u targedu at y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Statws Preswylwyr Sefydlog EUSS**
Y statws a roddir o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE, sy'n caniatáu i ddinasyddion yr UE a'u teuluoedd fyw a gweithio yn y DU ar ôl Brexit.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1. Cefndir

Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) (Addysg Bellach) (AB). Nod yr adolygiad oedd archwilio sut yr oedd y cynllun grant yn cael ei weithredu a'i effaith, a darparu argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Disgwyliwyd y byddai'r adolygiad yn:

- ystyried y meini prawf cymhwystra a gwerth cymorth y GDLIC (AB)
- darparu dealltwriaeth o broffil derbynyddion y GDLIC (AB) gan gynnwys eu rhesymau dros barhau ag astudiaethau pellach
- asesu effaith y GDLIC (AB) ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudiaethau pellach
- asesu effaith y GDLIC (AB) ar ymgysylltiad dysgwyr â'u hastudiaethau ar ôl iddynt gofrestru
- asesu effaith y GDLIC (AB) ar allu dysgwyr i ymdopi â phwysau ariannol yn fwy cyffredinol, yn benodol yng ngoleuni'r argyfwng costau byw
- asesu sut y dylid adolygu'n barhaus feini prawf a gwerth y cymorth yn y dyfodol
- asesu ai'r model GDLIC (AB) yw'r model mwyaf effeithiol ac effeithlon i gefnogi dysgwyr ynteu a ddylid ystyried modelau amgen.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull gweithredu

Cynhaliwyd yr adolygiad mewn pum cam. Mae rhagor o fanylion am y dull a fabwysiadwyd i'w gweld yn Atodiad B.

Roedd cam un yn cynnwys cyfarfod cychwynnol i gytuno ar y rhaglen waith a mynediad at ddogfennaeth, ac yna adroddiad cychwynnol a 7 cyfweliad cwmpasu gyda chyfranwyr o Lywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC).

Yn yr ail gam, dadansoddwyd dogfennau perthnasol yn ymwneud a pholisi a'r rhaglen yn ogystal â data cyhoeddedig ar y GDLIC (AB).

Roedd Cam 3 yn ymwneud â datblygu offer ymchwil dwyieithog, gan gynnwys arolwg ar gyfer ymgeiswyr y GDLIC (AB), arolwg ar gyfer staff Canolfannau Dysgu a oedd yn ymwneud â gweinyddu'r cynllun a chanllaw trafod ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweliadau â staff Canolfannau Dysgu.

Roedd Cam 4 yn cynnwys yr elfennau gwaith maes. Gan ddefnyddio cronfa ddata ymgeiswyr y GDLIC (AB) (n=8,858) dosbarthwyd yr arolwg i ymgeiswyr ym mis Medi 2025. Daeth cyfanswm o 578 o ymatebion i law, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 7.2% o'r rhai a ddosbarthwyd.

Dosbarthwyd yr arolwg i staff Canolfannau Dysgu hefyd ym mis Medi 2025 gan ddefnyddio cronfa ddata o gyfeiriadau e-bost staff Canolfannau Dysgu (n=328). Daeth cyfanswm o 32 o ymatebion i law (cyfradd ymateb o 10%).

Ar ddiwedd yr arolwg staff, gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyfrannu ymhellach at sesiynau grwpiau ffocws. Cyfrannodd cyfanswm o 12 o bobl o 7 sefydliad at y gwaith maes ansoddol.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda thri sefydliad rhanddeiliaid. Sefydliadau partner oedd y rhanddeiliaid hyn ac roeddent yn cynnwys y rhai a oedd yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr ac yn atgyfeirio pobl at gyfleoedd addysg bellach.

Roedd cam olaf y rhaglen waith yn cynnwys dadansoddi data gwaith maes a pharatoi'r adroddiad hwn.

## 2.2. Ystyriaethau methodolegol

### 2.2.1. Dadansoddiad o ddata gwybodaeth reoli ar ymgeiswyr y GDLIC (AB)

Y bwriad oedd i'r adolygiad hwn ystyried data gwybodaeth reoli ar ymgeiswyr y GDLIC (FE) a ddarparwyd gan yr SLC. Er bod y tîm gwerthuso wedi derbyn y data, roedd pryderon ynghylch eu hansawdd yn golygu na fyddai unrhyw ddadansoddiad yn bodloni'r safonau gofynnol yn ymwneud â chyhoeddiadau ystadegol. O ganlyniad, bydd dadansoddiadau sy'n

deillio o wybodaeth reoli yn cael cynnal y tu allan i'r adroddiad cyhoeddedig hwn a gellir eu cyflwyno mewn atodiad technegol ar gam diweddarach.

Awgrymodd y dadansoddiad cychwynnol a gynhaliwyd gan y tîm gwerthuso fod bylchau demograffig nodedig yn nata'r SLC a oedd i'w priodoli'n bennaf i natur wirfoddol llawer o feysydd data yn y ffurflen gais. Er enghraifft, roedd cyfrannau'r dysgwyr a gofnodwyd fel rhai â phrofiad o fod mewn gofal neu gyda phlant dibynnol yn llawer is na'r disgwyl a chawsant eu cymharu â chanfyddiadau'r arolwg. Roedd cyfyngiad arall yn ymwneud â gwybodaeth am y cyrsiau yr oedd yr ymgeiswyr yn bwriadu eu hastudio. Casglwyd y data ar ffurf testun agored ac arweiniodd hyn at amrywiad sylweddol yn yr ymatebion: nododd rhai ymgeiswyr bwnc y cwrs yr oeddent yn bwriadu ei astudio, nododd eraill lefel y cymhwyster, a nododd rhai y ddau.

### 2.2.2. Arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB)

O ran yr arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB), mae'n debyg y gellid priodoli'r nifer mawr o gyfeiriadau e-bost nad oedd modd anfon negeseuon iddynt i'r gyfradd uchel o ymgeiswyr a ddefnyddiodd eu cyfeiriad e-bost academaidd wrth wneud cais am y grant. O ystyried bod y gronfa ddata a ddarparwyd yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, byddai'n ddisgwyliedig na fyddai rhai o'r dysgwyr hyn yn astudio yn y sefydliadau hynny mwyach adeg yr arolwg.

Mae data'r arolwg wedi cael eu dadansoddi gan ddefnyddio'r termau canlynol:

- bron bob un = gydag ychydig o eithriadau
- y rhan fwyaf = 90% neu fwy
- llawer = 70% neu fwy
- mwyafrif = dros 60%
- hanner = 50%
- tua hanner = bron 50%
- lleiafrif = islaw 40%
- ychydig = islaw 20%
- ychydig bach = llai na 10%.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB) (71%, n=463) yn ymatebion gan ymgeiswyr llwyddiannus. Felly mae angen cymryd rhywfaint o ofal wrth ddadansoddi adborth gan garfan gymharol fach o ymgeiswyr aflwyddiannus. Er gwaethaf hyn, mae'r garfan o ymgeiswyr aflwyddiannus (n=44) yn rhoi cipolwg diddorol ar eu profiadau o'r broses ymgeisio a'u gweithgareddau dilynol.

Nododd un rhan o bump (20%, n=109) o'r ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB) eu bod yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches. Mae'r adborth gan y garfan hon wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar eu profiad o wneud cais. Defnyddir y ddau derm yn yr adroddiad hwn wrth gyfeirio at ddata'r arolwg, er, gan nad yw ceiswyr lloches yn gymwys i gael cymorth, tybir bod derbynyddion y grant a gymerodd ran yn yr arolwg i gyd yn ffoaduriaid.

Dylid dehongli rhywfaint o'r data ar lefelau cymwysterau o'r arolwg o ymgeiswyr yn ofalus. Er bod dolen i ragor o wybodaeth am lefelau cymwysterau wedi'i darparu yn yr arolwg, mae'r anghysondebau ar draws eu hymatebion yn awgrymu bod llawer o ymatebwyr wedi ei

chael hi'n anodd ateb cwestiynau am eu cymwysterau blaenorol, lefel y cwrs yr oeddent yn bwriadu ei ddilyn, ac unrhyw gyrsiau dilynol yr aethant ymlaen i'w hastudio.

Mae hefyd yn debygol bod rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi derbyn cymorth drwy'r GDLIC (AB) sawl gwaith ar gyfer gwahanol gyrsiau. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod rhai o'r dysgwyr hyn wedi nodi eu bod wedi mynd ymlaen i astudio cymwysterau Lefel 3 neu is, a fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth parhaus drwy'r GDLIC (AB). Mae hyn yn golygu, er bod modd i ni roi cipolwg ar y dilyniant addysgol cyffredinol a wnaed gan dderbynyddion y grant dros amser, ni allwn nodi'r dilyniant a wnaed gan ddysgwyr ar ôl i'w hymwneud â'r GDLIC (AB) ddod i ben yn gyfan gwbl.

### 2.2.3. Ymgysylltu â Chanolfannau Dysgu

Cafwyd rhai heriau wrth geisio ymgysylltu â staff Canolfannau Dysgu. Mewn llawer o achosion, roedd y gronfa ddata yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer nifer o unigolion ar gyfer yr un Ganolfan Ddysgu, weithiau hyd at 20 aelod o staff. Mae dadansoddiad o broffil yr ymatebion yn awgrymu mai dim ond un aelod o staff fesul sefydliad unigol a gyfrannodd at yr adolygiad fel rheol. Roedd cyfanswm o 111 o sefydliadau gwahanol wedi eu cynnwys yn y set ddata, sy'n esbonio'n rhannol y gyfradd ymateb isel. Mae hefyd yn debygol mai ychydig o dderbynyddion GDLIC (AB) diweddar, os o gwbl, oedd gan Ganolfannau Dysgu, yn arbennig ysgolion, a oedd wedi'u rhestru ar gronfa ddata'r SLC, gan nad ydynt fel arfer yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr sy'n oedolion. Mae hyn yn gyson â'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y dyfarniadau a wnaed dros amser. Felly, ni fyddai llawer o'r canolfannau hyn wedi ystyried bod yr adolygiad yn berthnasol iddyn nhw.

# 3. Y cyd-destun

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r GDLIC (AB), yn ogystal â'r amgylchedd polisi cyffredinol y mae'n gweithredu ynddo.

## 3.1. Ynglŷn â'r GDLIC (AB)

### 3.1.1. Amcanion

Cynllun hirsefydlog yw'r GDLIC (AB), sydd wedi bod yn weithredol ers dros ugain mlynedd ac a gyflwynwyd gyntaf yn 2002/03 fel Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer AB. Mae'n darparu cymorth ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd i ddysgwyr 19 oed a throsodd sy'n astudio cyrsiau addysg bellach hyd at ac yn cynnwys cymwysterau Lefel 3 fel y nodir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) [troednodyn 1] mewn sefydliadau cymeradwy ledled Cymru ac mewn mannau eraill yn y DU.

Nod y grant yw lleihau'r rhwystrau ariannol a all atal dysgwyr rhag mynd i addysg neu barhau â'u haddysg. Drwy gyfrannu at gostau dysgu bob dydd fel teithio, deunyddiau astudio a gofal plant, mae'r cynllun yn galluogi unigolion o aelwydydd incwm isel i ddilyn cymwysterau sy'n gwella eu rhagolygon cyflogaeth, yn meithrin eu hyder ac yn cefnogi dysgu gydol oes.

### 3.1.2. Y cyllid sydd ar gael

Mae gwerth y grant o dan y cynllun GDLIC (AB) yn amrywio yn ôl incwm yr aelwyd a dwyster yr astudiaethau. Yn dilyn cyhoeddiad gweinidogol ym mis Mehefin 2025, cynyddwyd lefel y grant ac fel y nodir yn nodyn esboniadol Llywodraeth Cymru ar y GDLIC (AB), o fis Medi 2025 mae dysgwyr llawnamser gydag incwm aelwyd o:

- £6,120 neu lai yn gymwys i gael grant o £1,919 (cynnydd chwyddiannol o'r grant blaenorol, a oedd yn £1,500)
- mwy na £6,120 ond llai na £12,235 yn gymwys i gael grant o £959
- mwy na £12,235 ond llai na £18,370 yn gymwys i gael grant o £576.

Mae gan ddysgwyr rhan-amser hawl i gael swm cymesur, ac mae'r rhai sydd ag incwm aelwyd o:

- £6,120 neu lai yn gymwys i gael grant o £959 (cynnydd chwyddiannol o'r grant blaenorol, a oedd yn £750)
- mwy na £6,120 ond llai na £12,235 yn gymwys i gael grant o £576
- mwy na £12,235 ond llai na £18,370 yn gymwys i gael grant o £384.

[1] Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau fel BTEC, TGAU, Safon Uwch a Diplomâu.

Er bod cynnydd cymedrol wedi'i wneud i drothwyon incwm aelwydydd dros gyfnod cychwynnol y cynllun, maent wedi aros yn sefydlog ers 2011 i 2012 pan gynyddodd y trothwy o £17,700 i £18,370.

Gwneir taliadau mewn tri rhandaliad drwy gydol y flwyddyn ac maent yn amodol ar bresenoldeb boddhaol a dilyniant academaidd y dysgwr fel y pennir gan y darparwr.

Bwriad y GDLIC (AB) yw cynorthwyo gyda'r gost o fynychu'r coleg. O'r herwydd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau i Lywodraeth Cymru na fydd taliadau GDLIC (AB) yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau a delir i'r myfyriwr neu ei aelwyd.

Mae canllawiau'r SLC ar gymhwystra yn egluro na ddylai myfyrwyr fod yn derbyn cyllid ar gyfer y cwrs o ffynonellau eraill, fel Lwfans Hyfforddi drwy Twf Swyddi Cymru+ neu gyllid dysgu seiliedig ar waith. Lle mae myfyrwyr o Gymru yn astudio yn Lloegr, efallai y byddant yn gymwys i gael y GDLIC (AB) gan Cyllid Myfyrwyr Cymru ac Advanced Learner Loan, sydd hefyd yn cael ei weinyddu gan yr SLC.

### 3.1.3. Cymhwystra myfyrwyr

Mae cymhwystra yn seiliedig ar incwm aelwyd o hyd at £18,370 fel y nodir yn adran 3.1.2. Mae'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fod wedi byw yn y DU am o leiaf dair blynedd a bod yn byw yng Nghymru cyn dechrau eu cwrs. Rhaid iddynt fod yn astudio cwrs addysg bellach llawnamser neu ran-amser dynodedig mewn sefydliad cydnabyddedig. Rhaid iddynt hefyd fod wedi gwneud cais am y grant o fewn 9 mis i ddechrau eu cwrs er mwyn derbyn y grant ar gyfer y flwyddyn academaidd honno. Mae'r rhai sy'n gadael gofal sydd o dan 25 oed ar ddechrau eu cwrs wedi'u heithrio o'r prawf modd ac yn gymwys yn awtomatig i gael y grant llawnamser neu ran-amser llawn yn amodol ar fodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer oedran, preswyliad a chwrs.

Un o egwyddorion allweddol y GDLIC (AB) yw dilyniant o flwyddyn astudio flaenorol, sy'n golygu y gall myfyrwyr (o dan amgylchiadau arferol) barhau i dderbyn y grant os ydynt wedi cofrestru ar ail flwyddyn eu cwrs, wedi cofrestru ar gwrs ar lefel uwch na'r tro diwethaf yr oeddent yn gymwys i gael y GDLIC (AB), neu'n astudio mewn maes cysylltiedig sy'n ategu eu cwrs gwreiddiol ac yn dangos dilyniant yn gyffredinol. Mae canllawiau'r SLC ar ddilyniant yn egluro 'ni fydd myfyrwyr yn gymwys ar gyfer GDLIC AB os ydynt wedi derbyn cymorth drwy GDLIC AB yn flaenorol i fynychu cwrs ar yr un lefel neu lefel uwch. Rhaid iddynt fel arfer ddangos cynnydd i lefel uwch o ddysgu er mwyn parhau i fod yn gymwys.'

### 3.1.4. Cyrsiau cymwys

Mae canllawiau'r SLC ar gyrsiau cymwys yn egluro bod yn rhaid i gwrs cymwys gael ei ariannu'n gyhoeddus a gofyn am bresenoldeb rheolaidd gyda darparwr addysg cydnabyddedig, yn ogystal â dangos rhywfaint o ddilyniant gan y myfyriwr. Rhaid i bob myfyriwr ddilyn neu fwriadu dilyn cwrs sydd â 500 neu fwy o oriau cyswllt os ydynt yn llawnamser a 275 i 499 o oriau cyswllt os ydynt yn rhan-amser. Mae'r cynllun yn gadael rhywfaint o hyblygrwydd i ddehongli'r oriau cyswllt hynny ond dylai gynnwys unrhyw amser pan fo aelod o staff y Ganolfan Ddysgu yn bresennol i roi arweiniad penodol.

Mae Tabl 3.1 yn rhoi trosolwg o gyrsiau cymwys fel y'u nodir yng nghanllawiau'r SLC ar gyrsiau cymwys.

**Tabl 3.1: Mathau o gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer y cynllun GDLIC (AB)**

| Lefel | Math o gwrs |
|---|---|
| Lefel mynediad | Paratoi ar gyfer cymwysterau lefel 1 |
| | Ymgysylltiad Hyfforddeiaethau |
| Lefel 1 | BTEC lefel 1 |
| | NVQ lefel 1 |
| | Hyfforddeiaeth lefel 1 |
| | City & Guilds lefel 1 |
| | VRQ lefel 1 |
| Lefel 2 | BTEC lefel 2 |
| | NVQ lefel 2 |
| | TGAU |
| | City & Guilds lefel 2 |
| | VRQ lefel 2 |
| Lefel 3 | Safon Uwch |
| | Mynediad at Addysg Uwch |
| | BTEC lefel 3 |
| | NVQ lefel 3 |
| | VRQ lefel 2 |

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Yn ogystal â hynny, o 2019 i 2020, mae myfyrwyr ag anawsterau dysgu sy'n dechrau ar raglen ddysgu bersonol a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan y maes Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith y rhaglen yn gymwys i gael cymorth drwy'r cynllun GDLIC (AB).

Nid yw myfyrwyr sy'n astudio cwrs fel rhan o brentisiaeth neu astudiaeth sy'n gysylltiedig â gwaith yn gymwys i gael grant ar gyfer y cwrs hwnnw. Nid yw'r GDLIC (AB) ychwaith yn ariannu darpariaeth dysgu o bell, er y gall yr SLC ddyfarnu taliadau dewisol i fyfyrwyr na allant fynychu cwrs yn bersonol oherwydd anabledd.

### 3.1.5. Y broses ymgeisio

Mae'r SLC yn gweinyddu'r cynllun drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Gall ymgeiswyr wneud cais am y grant ar bapur neu ar-lein.

Fel y nodir yng nghanllawiau'r SLC ar y broses ymgeisio, mae'n ofynnol i ymgeiswyr newydd gwblhau'r cais llawn a rhaid iddynt gynnwys tystiolaeth o incwm a manylion y cwrs.[troednodyn 2]

Ar ôl i fyfyriwr gwblhau'r ffurflen gais, bydd SLC yn asesu'r cais ac yn cysylltu â'r myfyriwr os oes unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ar goll. Mae dau gam i benderfynu a yw rhywun yn

[2] O 2019 i 2020 ymlaen, mae incwm pob myfyriwr annibynnol yn cael ei ystyried. O 2020 i 2021 ymlaen, mae pob myfyriwr dibynnol yn darparu manylion unrhyw incwm trethadwy.

gymwys. Y cyntaf yw cymhwystra personol, yn seiliedig ar y wybodaeth bersonol ac ariannol a roddir ar y ffurflen. Os yw'r myfyriwr yn gymwys, bydd SLC yn anfon llythyr dyfarniad dros dro at y dysgwr i gadarnhau bod ei gais wedi bod yn llwyddiannus. Yr ail yw cymhwystra'r cwrs, y mae'n ofynnol i'r Canolfannau Dysgu roi cadarnhad ohono i'r SLC ar ôl i'r dysgwr lofnodi Cytundeb Dysgu GDLIC (AB) (gweler Adran 3.1.6).

I fyfyrwyr sy'n dychwelyd, mae Cytundeb Dysgu GDLIC (AB) yn gweithredu fel cais ffurfiol i ailymgeisio am y grant ar gyfer blwyddyn academaidd arall o astudio. Mae'r SLC yn cynnal gwiriad sampl o adnewyddiadau awtomatig ym mis Tachwedd ym mhob bob blwyddyn academaidd, gan ofyn i fyfyrwyr ddarparu manylion ariannol neu dystiolaeth o incwm.

Noda canllawiau SLC ar hyrwyddo'r cynllun fod gan Ganolfannau Dysgu rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo'r cynllun GDLIC (AB) ac yn ystod y camau ymgeisio cychwynnol. Mae'r SLC yn gofyn i Ganolfannau Dysgu gynnig anogaeth a chyngor ynghylch cwblhau a dychwelyd y ffurflen berthnasol.

### 3.1.6. Cytundebau Dysgu a monitro

Mae taliadau'r GDLIC (AB) yn amodol ar bresenoldeb rheolaidd a dilyniant academaidd boddhaol gan y dysgwr.

Mae Cytundebau Dysgu GDLIC (AB) yn un o'r gofynion ar gyfer derbyn cyllid i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd. Eu nod yw amlinellu'n glir yr hyn sydd angen i'r myfyriwr ei wneud i dderbyn ei daliadau tymhorol. Rhaid i Ganolfannau Dysgu ddefnyddio templed Cytundeb Dysgu mandadol Cyllid Myfyrwyr Cymru a phennu eu gofynion presenoldeb eu hunain. Gellir trin rhai absenoldebau fel absenoldeb awdurdodedig, er enghraifft mynd i ddiwrnod agored mewn prifysgol neu argyfwng teuluol, a gall y myfyriwr hunanardystio salwch am hyd at bum niwrnod. Mae cyfle i fyfyrwyr nodi unrhyw amgylchiadau esgusodol yn eu Cytundeb Dysgu GDLIC (AB) a dylai Canolfannau Dysgu ystyried yr amgylchiadau hyn os byddant yn effeithio ar allu myfyrwyr i fodloni eu meini prawf presenoldeb.

Mae Canolfannau Dysgu yn cadw cofnodion presenoldeb er mwyn i'r taliadau rheolaidd gael eu rhyddhau i fyfyrwyr. Os nad yw'r myfyriwr wedi bodloni meini prawf presenoldeb y ganolfan, ni fydd y ganolfan yn cadarnhau presenoldeb y myfyriwr i Gyllid Myfyrwyr Cymru er mwyn rhyddhau'r taliad tymhorol hwnnw.

## 3.2. Gwerthusiad blaenorol

Daeth y gwerthusiad blaenorol o Grant Dysgu'r Cynulliad (AB) fel y'i galwyd bryd hynny, a gyhoeddwyd yn 2015, i'r casgliad fod angen clir am y cynllun, yn rhannol oherwydd mai ychydig iawn o gymorth ariannol arall sydd ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion yn y maes AB. Canfu fod cynnal prawf modd yn faen prawf priodol a bod y lwfans cyllido uchaf o £1,500 yn briodol ar y pryd i fyfyrwyr heb ddibynyddion ac a oedd yn byw gartref, ond yn annigonol i'r rhai a oedd yn byw'n annibynnol neu â dibynyddion eraill. Cwestiynodd y gwerthusiad hefyd addasrwydd y broses o benderfynu a oedd myfyriwr yn byw'n annibynnol ai peidio, yn seiliedig ar y rheol uchafswm oedran o 25 oed a oedd ar waith ar y pryd.

Er bod ystod eang o ddulliau hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth wedi eu mabwysiadu i farchnata Grant Dysgu'r Cynulliad (AB), adroddodd y gwerthusiad fod yr ymwybyddiaeth o fodolaeth y grant ar draws y sector AB yn fach yn gyffredinol.

Cododd yr astudiaeth faterion yn ymwneud â gweinyddu'r cynllun, gan gynnwys rhywfaint o ddryswch ymhlith myfyrwyr yn deillio o ddau gynllun gweinyddol gwahanol - un ar gyfer dysgwyr hŷn a'r llall ar gyfer dysgwyr ifanc. Roedd yr anawsterau mawr eraill a fynegwyd gan ymgeiswyr yn ymwneud â therminoleg a dod o hyd i ddogfennau gwreiddiol a'u cyflwyno. Canfu'r gwaith maes hefyd safbwyntiau cymysg ar werth defnyddio Cytundebau Dysgu.

O ran effaith, canfu'r gwerthusiad nad oedd y cynllun yn cael fawr o effaith ar benderfyniadau i gofrestru ar gyfer astudiaethau pellach ond ei fod wedi gwneud gwahaniaeth bach i lefelau presenoldeb a chyfraniad pwysig at lefelau cadw myfyrwyr. Yn wir, canfu'r ymchwil fod y Cynllun yn hanfodol i nifer fawr o fyfyrwyr o ran eu galluogi i aros mewn addysg bellach ac mewn llawer o achosion i dalu costau annisgwyl sy'n gysylltiedig ag addysg bellach. Ni chanfu'r astudiaeth unrhyw dystiolaeth y naill ffordd na'r llall fod y grant yn effeithio ar gyrhaeddiad, llwyddiant neu ddilyniant myfyrwyr i addysg uwch.

Gwnaeth y gwerthusiad naw argymhelliad a oedd yn cynnwys:

- cynnal y trothwyon prawf modd ac ailystyried a chostio'r lwfansau cyllido
- codi ymwybyddiaeth o fodolaeth cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n oedolion
- cymryd camau ymarferol i wella'r broses ymgeisio (megis cyflwyno proses ar-lein)
- gwella gwerth y Cytundebau Dysgu a fabwysiedir
- gwneud gwelliannau i'r broses talu a monitro.

## 3.3. Cyd-destun polisi a chyllido

Mae'r GDLIC (AB) yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi ehangach a amlinellir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol drwy ehangu cyfleoedd dysgu cymunedol a hygyrch i oedolion, yn enwedig mewn cymunedau dan anfantais. Yn benodol, mae'r grant yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi a chynyddu cyfleoedd i bawb drwy gael gwared ar rwystrau ariannol i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant. Mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn tynnu sylw at y cynnydd diweddar yn y grant fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr sy'n oedolion a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau'n codi.

Mae'r grant hefyd yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gyfrannu at Gymru sy'n fwy ffyniannus a mwy cyfartal gan ei bod yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Yn adroddiad blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, eglurodd y Comisiynydd fod 'carreg filltir y dangosydd cenedlaethol yn anelu at 75% o oedolion o oedran gweithio i gyrraedd Lefel 3 neu uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

erbyn 2050. Mae cynnydd ar y trywydd iawn, gan gyrraedd 67% yn 2023, gyda dyraniadau cyllideb yn adlewyrchu buddsoddiad mewn sgiliau, hyfforddiant, addysg, a chyfleoedd gwaith.' Mae'r GDLIC (AB) yn rhan o'r pecyn polisi a chyllid sy'n cefnogi cyflawniad y dangosydd cenedlaethol hwn.

Mae hefyd yn cefnogi'r nodau a amlinellir yng nghynllun cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru gan gynnwys blaenoriaethau megis meithrin diwylliant dysgu i fyw, er mwyn ehangu cyfranogiad, mynd i'r afael â lefelau isel o gymwysterau a chynyddu symudedd gweithwyr. Yn y cynllun sgiliau, rhoddir pwyslais penodol ar gefnogi pobl anabl a grwpiau ethnig leiafrifol i gyfranogi yn y system sgiliau. Mae'r cynllun hefyd yn nodi carreg filltir o sicrhau y bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi ennill cymwysterau Lefel 3 neu uwch ac y bydd 5% neu lai o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau ym mhob ardal awdurdod lleol ledled Cymru erbyn 2050.

At hynny, mae'r grant yn cyfrannu at y cynllun Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru (y cyfeirir ato hefyd yn y cynllun cyflogadwyedd a sgiliau) sy'n darparu cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu gymorth i gael gwaith neu hunangyflogaeth. Yn wir, amlygodd y cyhoeddiad gweinidogol diweddar ar y cynnydd yn y GDLIC (AB) gyfraniad y GDLIC (AB) a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) at 'Garreg Filltir Genedlaethol Llywodraeth Cymru o weld o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.' Mae Cymru'n Gweithio yn chwarae rhan ganolog yn y Warant i Bobl Ifanc, gan gynnwys sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn gwybod am y GDLIC (AB) ac yn gallu cael mynediad ato.

Mae gan y GDLIC (AB) rôl bwysig o ran helpu i gyflawni uchelgeisiau Cymraeg 2050 gan y gall dysgwyr sy'n cael cymorth ddewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes addysg bellach, er nad yw hyn yn cael ei fonitro ar lefel y cynllun mewn unrhyw ffordd.

At hynny, disgwylir i'r GDLIC (AB) gyfrannu at amcanion Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a gwaith Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) drwy gefnogi mynediad teg i addysg ôl-16 a chyd-fynd â'r oruchwyliaeth integredig o'r sector trydyddol.

Mae'r GDLIC (AB), a'r adolygiad hwn, yn cyd-fynd â datblygiadau ac adolygiadau ehangach o'r pecyn cyllido addysg drydyddol ôl-16 yn fwy cyffredinol o ran ymyriadau sy'n anelu at gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys yr Adolygiad diweddar o'r LCA a'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond i gyllid addysg uwch yng Nghymru (a gyhoeddir yng Ngwanwyn 2026). Hefyd, parheir i roi sylw mewn polisïau i sicrhau bod AB (a dysgu ôl-16 yn fwy cyffredinol) yn hygyrch ac yn ymatebol i ystod fwy amrywiol o ddysgwyr. Er enghraifft, yn 2025, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Addysg Oedolion a Dysgu Gydol Oes, gan nodi y bydd Medr, dros y flwyddyn academaidd sydd i ddod, yn buddsoddi mwy nag £80m mewn cyfleoedd dysgu rhan-amser a chyfleoedd dysgu i oedolion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo’n ddiweddar i ystyried cymwysterau galwedigaethol ymhellach yn Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol 2024. Yn ogystal â hynny, mae'r fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol, yn amlygu uchelgais Llywodraeth Cymru i fanteisio ar dechnoleg ddigidol i gryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru. Mae

hyn yn ystyriaeth bwysig ar gyfer yr adolygiad GDLIC (AB) hwn, sydd ar hyn o bryd yn cefnogi dysgu wyneb yn wyneb yn unig.

Ers yr adolygiad blaenorol, mae'n debygol bod y pandemig COVID-19 a'r cynnydd mewn costau byw wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch parhau i ddysgu a fforddiadwyedd astudio i ddysgwyr 19 oed a hŷn. O ystyried bod gwerth y grant wedi cynyddu o fis Medi 2025 ymlaen, mae'n hanfodol bod yr adolygiad hwn yn asesu a yw'r cynnig ariannol presennol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r rhwystrau y bwriadwyd iddo eu goresgyn.

Mae'r GDLIC (AB) yn rhan o becyn ehangach o gymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr cymwys sy'n oedolion a allai fod eisiau astudio ar lefel addysg bellach yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gronfeydd Llywodraeth Cymru yn ogystal â chymorth a gynigir drwy raglenni cyllido ehangach nad ydynt yn rhaglenni Llywodraeth Cymru. Ymysg yr enghreifftiau o lwybrau cyllido Llywodraeth Cymru mae:

- y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, sydd ar gael i gynorthwyo gyda rhai costau sy'n gysylltiedig ag astudiaethau AB megis teithio, offer, cinio a gofal plant
- Cyfrifon Dysgu Personol, sydd ar gael i unigolion cymwys er mwyn meithrin sgiliau lefel uwch a chael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd swyddi a/neu gael swyddi ar lefel uwch mewn sectorau blaenoriaeth. Mae'r Cyfrifon Dysgu Personol ar gael i ddysgwyr 19 oed a throsodd, sy'n ennill hyd at £34,303 y flwyddyn (ar sail incwm unigol, nid incwm yr aelwyd). Gall ymgeiswyr fod yn gyflogedig, yn hunangyflogedig neu ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth a ariennir gan Gyfrifon Dysgu Personol yn gyrsiau byr sy'n canolbwyntio ar ddilyniant i waith
- Twf Swyddi Cymru+, rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed sy'n cynnwys yr opsiwn o lwfansau hyfforddi wythnosol tra byddant yn dysgu
- Lwfans Cynhaliaeth Addysg, sy'n darparu taliad i bobl 16 i 18 oed sy'n byw yng Nghymru, ac sydd am barhau â'u haddysg ar ôl oedran gadael ysgol
- Cymunedau am Waith a Mwy, sy'n darparu cyllid ar gyfer costau hanfodol sy'n gysylltiedig â hyfforddiant ac sy'n gallu talu am gyrsiau byr achrededig
- ReAct+, sy'n cynnig grant datblygu sgiliau o hyd at £1,500 i unigolion dros 20 oed sy'n wynebu colli eu swyddi neu sy'n gyn-droseddwyr.

# 4. Ceisiadau a dyfarniadau GDLIC (AB)

Mae'r bennod hon yn ystyried y data cyhoeddedig sydd ar gael ar gyfer y GDLIC (AB) o ran nifer y ceisiadau, dyfarniadau llwyddiannus a phroffil derbynyddion y grant.

Daw'r data yn y bennod hon o StatsCymru yn bennaf. Gan fod data StatsCymru yn cael eu talgrynnu i'r lluosrif agosaf o 5, nid yw rhai rhesi a cholofnau yn y bennod hon yn adio i gyfanswm y ffigur a roddir.

## 4.1. Trosolwg


Ers ei gyflwyno yn 2002 i 2003, mae nifer y ceisiadau am y GDLIC (AB) wedi amrywio ond maent wedi cynyddu'n gyffredinol, gan gyrraedd uchafbwynt o 8,885 yn 2011 i 2012. Gwelwyd lleihad cyson yn y ceisiadau dros gyfnod o 10 mlynedd o 2012 i 2013 tan 2022 i 2023. Rhwng 2023 a 2024 gwelwyd cynnydd bach pan gafwyd 4,040 o geisiadau [troednodyn 3], ond roedd hyn yn dal i fod yn llai na hanner y lefel uchaf erioed o geisiadau, sef 8,885 yn 2011 i 2012 fel y dangosir yn Ffigur 4.1. Dilynodd nifer y dyfarniadau llwyddiannus batrwm tebyg, sef amrywio ond cynyddu'n gyffredinol i uchafbwynt o 7,825 yn 2011 i 2012 cyn gostwng o flwyddyn i flwyddyn tan 2022 i 2023, gyda chynnydd bach i'w weld rhwng 2022 i 2023 a 2023 i 2024 i 3,070 o ddyfarniadau. [troednodyn 4]

Mae'r dyfarniadau a wnaed fel cyfran o'r holl geisiadau wedi gostwng yn gyffredinol dros amser. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl cyflwyno'r grant, roedd tua 90% o'r holl geisiadau yn llwyddiannus. Gwelwyd gostyngiad sydyn i 77% yn ystod 2006 i 2007 ac yna adferiad bach. Ers 2016 i 2017 mae cyfran y ceisiadau o gymharu â'r dyfarniadau wedi gostwng yn flynyddol ac erbyn 2023 i 2024, roedd 76% o'r holl geisiadau yn llwyddiannus, fel y dangosir yn Ffigur 4.1.

[3] Ceisiadau am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl Awdurdod Addysg Lleol, blwyddyn academaidd, dull astudio a chanlyniad y cais

[4] Ceisiadau llwyddiannus am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl y math o sefydliad, blwyddyn academaidd a dull astudio

**Ffigur 4.1: Nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau GDLIC (AB) fesul blwyddyn academaidd, 2002/03 i 2023/24**




Disgrifiad o'r ffigur: Siart yn dangos cynnydd cychwynnol mewn ceisiadau a dyfarniadau GDLIC (AB) hyd at 2011 i 2012 ac yna ostyngiad mewn ceisiadau a dyfarniadau.

Ffynhonnell: StatsCymru

Gellir priodoli rhywfaint o'r gostyngiad mewn ceisiadau a dyfarniadau i newid ym meintiau carfanau yn ystod y cyfnod hwn. Er bod cyfanswm y dysgwyr addysg bellach 19 oed a throsodd wedi gostwng yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y dysgwyr sy'n derbyn y grant o fewn y garfan hefyd wedi gostwng: o 5% yn 2015 i 2016 i 2.5% yn 2023 i 2024. [troednodyn 5] Gall hyn fod oherwydd bod llai o ddysgwyr yn bodloni'r meini prawf cymhwystra oherwydd nad yw'r trothwyon incwm aelwydydd wedi newid. Fodd bynnag, gallai hefyd adlewyrchu heriau ehangach megis llai o ymwybyddiaeth o'r gronfa neu rwystrau o fewn y broses ymgeisio.

## 4.2. Proffil o geisiadau a dyfarniadau a wnaed

### 4.2.1. Dull astudio

Ers 2019/20, mae data ar ymgeiswyr a dyfarniadau wedi'u cyhoeddi yn ôl dull astudio. Mae'r data dros y cyfnod pum mlynedd hwn yn dangos bod y mwyafrif helaeth o ddyfarniadau GDLIC (AB) wedi'u rhoi i ddysgwyr llawnamser. Yn ystod 2023 i 2024, roedd 92% (2,810 o 3,070) o dderbynyddion yn astudio'n llawnamser. [troednodyn 6] Mae dysgwyr rhan-amser yn cyfrif am gyfran fach iawn o dderbynyddion y GDLIC (AB). Mae hyn yn groes i gyfran yr oedolion sy'n astudio mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl dull astudio. Yn ystod 2023 i

[5] Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach): Medi 2023 i Awst 2024 | LLYWODRAETH.CYMRU
[6] Ceisiadau llwyddiannus am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl dull astudio, incwm dros ben, blwyddyn academaidd a mesur

2024, ac eithrio'r rhai a oedd yn astudio cyrsiau seiliedig ar waith, roedd 87% o ddysgwyr sy'n oedolion 19 oed a hŷn yn astudio'n rhan-amser ac 13% yn astudio'n llawnamser. [troednodyn 7]


### 4.2.2. Rhyw

Gwnaed mwyafrif dyfarniadau'r GDLIC (AB) i fyfyrwyr benywaidd. Er enghraifft, yn y cyfnod adrodd diweddaraf 2023 i 2024, roedd 63% (1,930) o geisiadau llwyddiannus yn geisiadau gan fyfyrwyr benywaidd. Mae hyn yng nghyd-destun y ffaith bod mwyafrif y dysgwyr AB ôl-18 yn fenywod, sef 58% yn ystod 2023 i 2024. [troednodyn 8]

### 4.2.3. Oedran

Mae data ar broffil oedran derbynyddion y GDLIC (AB) ar gael am gyfnod o 5 mlynedd rhwng 2017 i 2018 a 2021 i 2022. Fel y dangosir yn Ffigur 4.2, roedd mwyafrif y derbynyddion yn dod o grwpiau oedran iau, gyda 51% o'r ceisiadau llwyddiannus yn ystod 2021 i 2022 wedi'u gwneud gan ddysgwyr 19 i 24 oed. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bach dros y cyfnod o 5 mlynedd, o 54% yn 2017 i 2018. Roedd dysgwyr rhwng 25 a 49 oed yn cyfrif am 46% o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod 2021 i 2022, ac roedd 3% o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn 50 oed a throsodd.

**Ffigur 4.2: Proffil oedran ymgeiswyr llwyddiannus y GDLIC (AB)**




Disgrifiad o'r ffigur: Siart sy'n dangos, er bod mwyafrif derbynyddion y grant yn 24 oed ac iau, fod eu cyfran o'r cyfanswm wedi gostwng yn raddol dros amser.

Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru]

[7] Dysgwyr unigryw sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl grŵp oedran, dull dysgu a rhyw. Roedd 59,370 o oedolion 19 oed a throsodd yn astudio'n rhan-amser ac 8,605 yn astudio'n llawnamser.

[8] Rhifau unigryw dysgwyr yn ôl oedran a rhyw

### 4.2.4. Math o sefydliad

Mae bron pob derbynnydd y GDLIC (AB) yn astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yng Nghymru (99% yn 2023 i 2024), gyda'r ychydig ddysgwyr sy'n weddill naill ai yn mynychu Canolfannau Dysgu eraill yng Nghymru megis ysgolion neu sefydliadau yn Lloegr. [troednodyn 9]

### 4.2.5. Awdurdodau lleol

Mae data ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer ymgeiswyr y GDLIC (AB), yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref, yn dangos bod y nifer mwyaf o ymgeiswyr yn dod o Gaerdydd, yna Abertawe a Chasnewydd. Roedd y 3 awdurdod hyn yn cyfrif am dros draean yr holl ymgeiswyr yn ystod 2023/24 (36%, neu 1,460 o blith 4,040 o ymgeiswyr). Gwelwyd gostyngiad nodedig yn nifer y ceisiadau o awdurdod Rhondda Cynon Taf dros amser (o uchafswm o 920 o geisiadau yn ystod 2011 i 2012 i isafswm o 245 yn ystod 2023 i 2024) ac nid yw nifer y ceisiadau o'r sir hon wedi adfer yn ddiweddar, sy'n wahanol i'r cynnydd mwy cyffredinol diweddar mewn ardaloedd eraill.

Mae data ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y GDLIC (AB), yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref, yn dangos bod Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd unwaith eto yn cyfrif am gyfran uchel o'r holl ymgeiswyr llwyddiannus, sef 40% (1,235 o blith 3,070). Roedd ymgeiswyr o'r siroedd hyn yn fwy tebygol na'r cyffredin o gael canlyniad llwyddiannus. Mae'r 3 ardal awdurdod lleol hyn, yn ogystal â Wrecsam, wedi'u cydnabod gan y Swyddfa Gartref fel ardaloedd y gwasgerir ceiswyr lloches iddi.


### 4.2.6. Incwm aelwydydd

Daw mwyafrif helaeth y derbynyddion GDLIC (AB) o'r band incwm isaf, er bod y cyfrannau sy'n gwneud hynny wedi amrywio ychydig dros amser, fel y dangosir yn Ffigur 4.3. Yn ystod y cyfnod adrodd diweddaraf, roedd 79% o dderbynyddion 2022 i 2023 yn dod o aelwydydd a oedd yn ennill £6,120 neu lai. [troednodyn 10] Mae cyfran y derbynyddion GDLIC (AB) sy'n dod o aelwydydd incwm uwch cymwys (rhwng £12,236 a £18,370) wedi aros yn sefydlog, ar 8% dros y cyfnod adrodd.

[9] Ceisiadau llwyddiannus am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl y math o sefydliad, blwyddyn academaidd a dull astudio

[10] Ceisiadau llwyddiannus am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl dull astudio, incwm dros ben, blwyddyn academaidd a mesur Nid yw'r data ar gyfer 2023 i 2024 ar gael eto.

**Ffigur 4.3: Bandiau incwm aelwydydd derbynyddion GDLIC (AB)**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart yn dangos bod y rhan fwyaf o dderbynyddion y grant yn dod o'r aelwydydd â'r incwm isaf a bod cyfran y derbynyddion o fandiau incwm isel wedi amrywio dros amser.

Ffynhonnell: StatsCymru

### 4.2.7. Anabledd ac ethnigrwydd

Mae'r SLC yn gofyn i ymgeiswyr lenwi ffurflen cyfle cyfartal sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch a ydynt yn ystyried bod ganddynt anabledd, a'u hethnigrwydd. Gan fod hwn yn ofyniad gwirfoddol, mae fel arfer wedi cael ei gwblhau gan tua hanner yr holl ymgeiswyr yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r wybodaeth yn cael ei gwahanu oddi wrth y broses ymgeisio felly nid yw'n bosibl dadansoddi'r data yn ôl canlyniad y cais.

Yn ôl Bwletin Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023 i 24, mae 1,875 o ffurflenni monitro cyfle cyfartal wedi'u cwblhau ar gyfer y flwyddyn honno – sy'n cyfateb i 47% o'r holl geisiadau a dderbyniwyd. O blith y rhain:

- roedd 25% yn ystyried eu hunain yn anabl
- nododd 79% eu bod o dras Gwyn a 21% yn Fwyafrif Byd-eang.[troednodyn 11]

Gwelwyd cynnydd dros amser yng nghyfran yr ymgeiswyr sy'n ystyried eu bod yn anabl e.e. o 15% yn ystod 2016 i 2017. Yn yr un modd, gwelwyd cynnydd yn nifer y rhai sy'n nodi bod eu hethnigrwydd yn Fwyafrif Byd-eang e.e. o 12% yn ystod 2016 i 2017.

## 4.3. Y cyllid a ddyfarnwyd

Mae cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd drwy'r cynllun GDLIC (AB) wedi gostwng dros amser: o £5.6 miliwn yn 2017 i 2018 i £3.3 miliwn yn 2022 i 2023 [troednodyn 12] gyda chynnydd bach i

11 Du neu Ddu Prydeinig, ethnigrwydd cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall.

12 Ceisiadau llwyddiannus am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl dull astudio, incwm dros ben, blwyddyn academaidd a mesur

£3.4 miliwn yn 2023/24. [troednodyn 13] Yn ystod 2022 i 2023, dyfarnwyd 90% o'r cyllid (£3.0 o £3.3 miliwn) i dderbynyddion o fewn y trothwy aelwydydd incwm isel, dyfarnwyd 8% i'r rhai o fewn y trothwy aelwydydd incwm canolig, a 3% i'r rhai o fewn y trothwy aelwydydd incwm uchaf. [troednodyn 14] [troednodyn 15] [troednodyn 16]

[13] Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach): Medi 2023 i Awst 2024 | LLYWODRAETH.CYMRU
[14] Oherwydd talgrynnu, nid yw'r cyfrannau hyn yn cyfateb i 100%
[15] Mae swm y dyfarniad a roddir i ddysgwyr yn dibynnu ar drothwyon incwm eu haelwyd.
[16] Ceisiadau llwyddiannus am Grantiau Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn ôl dull astudio, incwm dros ben, blwyddyn academaidd a mesur


# 5. Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg

Mae'r adran hon yn amlinellu proffil yr ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB) (573) a'r ymatebwyr i'r arolwg o staff Canolfannau Dysgu (32).

## 5.1. Proffil o ymgeiswyr y GDLIC (AB) a ymatebodd i'r arolwg

Fel y dangosir yn Ffigur 5.1, roedd 64% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn 25 oed a throsodd. Roedd cyfran lai (15%) rhwng 22 a 24 oed ac roedd un rhan o bump (20%) yn 21 oed ac iau. Ychydig iawn oedd yn 19 oed neu'n iau nag 19 oed. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â data cyhoeddedig, er mai dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y mae'r data cyhoeddedig yn ôl oedran ar gael, nid ar gyfer pob ymgeisydd, ac mae'n awgrymu bod ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o gymryd rhan yn yr arolwg.

**Ffigur 5.1: Oedran y rhai a ymatebodd i'r arolwg o ymgeiswyr**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod yr ymatebwyr yn cynrychioli ystod eang o oedrannau, a bod 54% ohonynt rhwng 25 a 49 oed.


Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=573.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fenywod (69%) a'r lleiafrif yn wrywod (28%). Nododd y mwyafrif (96%) fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni.

O ran grŵp ethnig neu genedligrwydd, nododd 74% eu bod yn Wyn [troednodyn 17] a nododd 22% mai Mwyafrif Byd-eang oedd eu hethnigrwydd. Mae Ffigur 5.2 yn rhoi dadansoddiad manwl sy'n dangos y grwpiau ethnig a'r cenedligrwydd a nodwyd gan yr ymatebwyr. O blith y rhai a nododd eu bod o gefndir 'Gwyn arall', nododd 27% eu bod yn Wcrainiaid.

[17] Boed hynny'n Wyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelod o Ogledd Iwerddon, Prydeinig, Gwyddelig, Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig neu unrhyw gefndir Gwyn arall.

**Ffigur 5.2: Grŵp ethnig neu genedligrwydd yr ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod 73% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn Wyn a bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sy'n weddill o gefndir Mwyafrif Byd-eang.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=570.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr wedi cael rhywfaint o gymorth neu gefnogaeth ariannol ychwanegol tra roeddent yn astudio eu cwrs, thua hanner yr ymatebwyr heb gael cymorth o'r fath. Roedd hyn yn cynnwys cludiant am ddim neu â chymhorthdal i'w man astudio (21%), prydau coleg am ddim (19%), cymorth ariannol gan goleg (17%) a/neu grant i helpu gyda gofal plant (8%). Roedd dysgwyr 21 oed ac iau yn fwy tebygol o fod wedi cael cludiant am ddim neu â chymhorthdal, roedd dysgwyr 22 i 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi cael prydau coleg am ddim ac roedd dysgwyr 25 oed a hŷn yn fwy tebygol o fod wedi derbyn grant i helpu gyda gofal plant.

**Ffigur 5.3: Cymorth ariannol ychwanegol a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos nad oedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi cael unrhyw gymorth ariannol ychwanegol.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=480.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg hefyd am effaith unrhyw bryderon ariannol ar eu gallu i fwyta'n rheolaidd dros y 12 mis diwethaf. Dywedodd tua'u hanner y bu amser pan oeddent yn poeni na fyddai ganddynt ddigon o fwyd i'w fwyta (48%), pan nad oedd modd iddynt fwyta bwyd iach a maethlon (47%) neu pan oeddent ond yn bwyta ychydig o wahanol o fwydydd (51%). Dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr y bu amser pan oedd yn rhaid iddynt fynd heb bryd bwyd (40%) neu fwyta llai nag yr oeddent yn meddwl y dylen nhw (42%). Nododd lleiafrif fod eu haelwyd wedi rhedeg allan o fwyd (30%), eu bod yn llwglyd ond heb fwyta (36%) neu eu bod heb fwyta drwy'r dydd (22%). Roedd dysgwyr 25 oed a throsodd ychydig yn fwy tebygol o wynebu rhai o'r heriau hyn, yn enwedig poeni na fyddai ganddynt ddigon o fwyd i'w fwyta, ddim yn gallu bwyta bwyd iach a maethlon a/neu fod eu haelwyd wedi rhedeg allan o fwyd. Fodd bynnag, roedd y rhai rhwng 22 a 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi mynd heb fwyd ac o fod wedi mynd heb fwyd am ddiwrnod cyfan.

**Ffigur 5.4: Profiadau ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr o dlodi bwyd o fewn y 12 mis diwethaf**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod pryderon ariannol yn cael effaith fach ar arferion bwyta tua hanner yr ymatebwyr i'r arolwg ac effaith fwy difrifol ar tua thraean ohonynt.


Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n= 491, n= 492, n= 482, n= 476, n= 474, n= 476, n= 471, n= 470 ar gyfer pob cwestiwn yn y drefn honno

Ychydig (11%) oedd â phrofiad o fod mewn gofal, ond roedd y rhai rhwng 22 a 24 oed yn fwy tebygol o fod â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd gan tua hanner (44%) yr ymatebwyr o leiaf un plentyn o dan 18 oed, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr hyn yn 25 oed a throsodd. Roedd tuag un rhan o bump (19%) o'r ymatebwyr yn gofalu am aelod arall o'r teulu, gyda'r rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gofalu am aelod arall o'r teulu

Dywedodd traean (33%) fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, megis anhawster dysgu neu anabledd a oedd yn ei gwneud yn anos iddynt ddysgu. Roedd y rhai rhwng 22 a 24 oed yn fwyaf tebygol o nodi bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai 25 oed a hŷn yn lleiaf tebygol o wneud hynny.

Fel y dangosir yn Ffigur 5.5, nododd llawer (73%) nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, ac roedd cyfran lai yn gallu siarad Cymraeg (13%), darllen Cymraeg (13%) a/neu ysgrifennu Cymraeg (10%). Roedd y rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol o nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg.

**Ffigur 5.5: Sgiliau Cymraeg ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sgiliau Cymraeg.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=565. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Nododd tuag un rhan o bump o'r ymatebwyr eu bod yn ffoaduriaid (19%) neu'n geiswyr lloches (1%), fel y dangosir yn Ffigur 5.6. Roedd y rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol na grwpiau oedran iau o nodi eu bod yn ffoaduriaid.

**Ffigur 5.6: P'un a yw ymatebwyr i'r arolwg o ymgeiswyr yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod 20% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=565.

Ychydig iawn o ymatebwyr (2%) a oedd wedi treulio amser yn y carchar, mewn carchar ieuenctid neu gyfleuster diogel arall.

## 5.2. Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg o staff Canolfannau Dysgu

Cwblhawyd yr arolwg o staff Canolfannau Dysgu gan 32 o bobl. Roedd y rhan fwyaf (78% neu 25) yn gweithio mewn Sefydliad Addysg Bellach (SAB), roedd 6% (2) yn gweithio i Ddarparwr Addysg Oedolion ac roedd 16% (5) yn gweithio mewn math arall o leoliad, megis ysgol.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn staff cymorth myfyrwyr neu'n staff lles myfyrwyr (38% neu 12) neu'n staff gweinyddol (38% neu 12). Roedd yr ychydig a oedd yn weddill yn dal swyddi uwch-reolwr (13% neu 4) neu reolwr busnes (13% neu 4).

Roedd gwahaniaethau amlwg yn nifer derbynyddion y GDLIC (AB) a oedd yn astudio yn sefydliadau'r ymatebwyr yn ystod 2024 i 2025. Mewn 13 o achosion roedd gan y sefydliad hyd at 50 o dderbynyddion (ac yn seiliedig ar yr ymatebion ansoddol a dderbyniwyd, roedd gan rai o'r rhain ychydig iawn o dderbynyddion neu ddim o gwbl) ac mewn 8 achos roedd gan y sefydliad dros 200 o dderbynyddion. Roedd gan y rhan fwyaf o'r canolfannau a oedd yn weddill (8) rhwng 50 a 200 o dderbynyddion, ac nid oedd 4 yn gwybod neu roedd yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

# 6. Hyrwyddo'r GDLIC (AB) a'r broses ymgeisio

Mae'r bennod hon yn ystyried pa mor effeithiol y mae'r cynllun GDLIC (AB) yn cael ei hyrwyddo a phrofiadau ymgeiswyr o wneud cais i'r gronfa. Yn gyntaf, mae'n amlinellu amgylchiadau'r ymgeiswyr pan wnaethant gais am y grant am y tro cyntaf, y cymhwyster yr oeddent yn bwriadu ei astudio ac unrhyw bryderon oedd ganddynt ynghylch parhau â'u haddysg neu ddychwelyd i fyd addysg.


Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg o ymgeiswyr, arolwg o staff y Canolfannau Dysgu a'r grwpiau ffocws, a chyfweliadau â rhanddeiliaid.

## 6.1. Amgylchiadau'r ymgeiswyr pan wnaethant gais am y grant

Yn eu hymatebion i'r arolwg, rhoddodd yr ymgeiswyr wybodaeth am yr hyn yr oeddent yn ei wneud pan wnaethant gais am y GDLIC (AB). Fel y dangosir yn Ffigur 6.1, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr (64%) yn astudio mewn coleg addysg bellach yng Nghymru. Roedd cyfran lai yn gweithio'n rhan-amser mewn swydd gyflogedig (15%), yn ddi-waith ac yn chwilio am waith (11%) neu ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am waith (11%). Ychydig iawn oedd yn gwneud rhywbeth arall pan wnaethant gais.

Roedd y rhai 25 oed a throsodd a'r rhai a oedd yn bwriadu astudio cwrs rhan-amser ychydig yn llai tebygol o ddweud eu bod eisoes yn astudio mewn coleg addysg bellach yng Nghymru ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud pethau eraill, fel eu bod yn ddi-waith. Yn yr un modd, roedd y rhai a nododd eu bod yn ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith yn ogystal ag astudio mewn coleg addysg bellach.

**Ffigur 6.1: Yr hyn yr oedd yr ymgeiswyr yn ei wneud pan wnaethant gais am y grant**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos mai'r peth mwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr i'r arolwg yn ei wneud pan wnaethant gais am y grant oedd astudio mewn coleg addysg bellach yng Nghymru.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=573

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu cymhwyster uchaf pan wnaethant gais am y grant, yr ateb mwyaf cyffredin oedd cymwysterau Lefel 2 (22% o ymgeiswyr) neu Lefel 3 (26% o ymgeiswyr). Nid oedd gan leiafrif yr ymgeiswyr unrhyw gymwysterau ffurfiol (10%), neu roedd ganddynt gymwysterau lefel mynediad (12%) neu gymwysterau Lefel 1 (10%). Ychydig iawn oedd â chymwysterau Lefel 4 neu uwch.

Roedd y rhai a nododd eu bod yn ffoaduriaid a cheiswyr lloches ychydig yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt gymwysterau lefel is (fel dim cymwysterau ffurfiol, cymwysterau Lefel 1 neu gymwysterau Mynediad) ac yn llai tebygol o nodi bod ganddynt gymwysterau Lefel 3 nag ymgeiswyr ar gyfartaledd. Roedd y rhai dros 25 oed yn llai tebygol nag ymatebwyr iau o nodi bod ganddynt gymwysterau Lefel 2 neu Lefel 3, ond yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt gymwysterau ar Lefel Mynediad a Lefel 4 neu uwch.

**Ffigur 6.2: Cymhwyster uchaf yr ymgeiswyr pan wnaethant gais am y grant**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod gan lawer o ymgeiswyr gymwysterau ar Lefel 3 neu is.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=572.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr (31%) yn gobeithio astudio cwrs Lefel 3 pan wnaethant gais am y grant, fel y dangosir yn Ffigur 6.3. Dim ond ychydig oedd yn bwriadu astudio cyrsiau eraill fel ESOL (15%) neu Lefel 2 (14%), ac ychydig iawn oedd yn bwriadu astudio cyrsiau lefel is neu Sgiliau Byw'n Annibynnol. Yn eu hymatebion, nododd 14% o'r ymgeiswyr eu bod yn bwriadu dilyn cyrsiau ar Lefel 4 neu uwch, ac aeth tri chwarter o'r rhain ymlaen i nodi bod eu ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus. Gan mai dim ond dysgwyr sy'n astudio cymwysterau is na Lefel 4 y mae'r GDLlC (AB) yn eu cefnogi, mae hyn yn awgrymu y gallai rhai ymatebwyr fod wedi camddeall lefelau'r cymwysterau. Rhoddodd ychydig o ymgeiswyr deitl eu cwrs (e.e. Pobyddiaeth) heb nodi'r Lefel.

Roedd grwpiau penodol o ymgeiswyr yn llai tebygol o fwriadu astudio cymwysterau Lefel 3 gan ddewis cymwysterau lefel is, yn enwedig Lefel 2: gwrywod, y rhai â phrofiad o fod mewn gofal, y rhai sy'n gofalu am aelod o'r teulu, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn ogystal â'r rhai 25 oed a throsodd, yn fwy tebygol o fwriadu astudio cymwysterau ESOL na'r cyfartaledd, tra bod y rhai dros 25 oed hefyd yn fwy tebygol o fwriadu astudio cymwysterau Lefel 4 neu uwch. Roedd y rhai 21 oed ac iau, neu 22 i 24 oed, hefyd yn fwy tebygol o astudio cymhwyster Lefel 3 yn llawnamser yn hytrach na rhan-amser.

**Ffigur 6.3: Y math o gwrs yr oedd ymgeiswyr yn bwriadu ei astudio pan wnaethant gais am y grant**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn bwriadu astudio cymwysterau Lefel 3.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=573.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr (83%) a gymerodd ran yn yr arolwg yn bwriadu astudio'n llawnamser yn hytrach na rhan-amser (14%), yn enwedig y rhai 21 oed ac iau. Mae'r patrwm hwn yn gymharol gyson â'r data cyhoeddedig, er bod cyfran ychydig yn uwch o dderbynyddion y grant (e.e. 92% yn ystod 2023 i 2024) yn astudio'n llawnamser.

Dim ond ychydig oedd yn bwriadu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; roedd 3% yn bwriadu astudio'r cwrs cyfan neu'r rhan fwyaf o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd 13% yn bwriadu astudio rhywfaint neu ychydig ohono drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd ymgeiswyr mewn grwpiau oedran hŷn (yn enwedig y rhai dros 50 oed) yn llai tebygol na'r rhai mewn grwpiau oedran iau o astudio'n llawnamser, ac felly hefyd y rhai â phlant.


## 6.2. Pryderon ynglŷn â dechrau astudiaethau pellach neu barhau â nhw

Fel y dangosir yn Ffigur 6.4, nododd yr ymgeiswyr rai pryderon ynghylch dechrau astudiaethau pellach neu barhau â nhw. Er bod pob pryder wedi'i godi gan leiafrif o ymgeiswyr, dim ond tuag un rhan o bump o ymgeiswyr (21%) a nododd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon o gwbl. Y pryderon mwyaf cyffredin oedd pryderon ariannol ynghylch costau byw a biliau o ddydd i ddydd (39%) a phryderon ynghylch costau astudio (32%). Ymysg y pryderon cyffredin eraill roedd anawsterau teithio neu drafnidiaeth (22%), problemau iechyd neu lesiant (21%) a diffyg hyder neu bryder ynghylch dychwelyd i addysg (21%).

Roedd ymgeiswyr mewn grwpiau oedran iau (21 oed ac iau neu 22 i 24) yn fwy tebygol na'r rhai 25 oed neu hŷn o fynegi pryderon ariannol a/neu anawsterau teithio neu drafnidiaeth. Roedd y rhai rhwng 22 a 24 oed hefyd yn fwy tebygol o fynegi diffyg hyder neu bryder ynghylch astudiaethau pellach neu nad oeddent yn teimlo'n barod yn academaidd. Hefyd, roedd y rhai mewn grwpiau oedran iau (21 oed ac iau neu 22 i 24) yn fwy tebygol o nodi nad oedd ganddynt unrhyw bryderon penodol. Roedd ymgeiswyr hŷn, 25 oed neu hŷn, yn fwy tebygol o fynegi pryderon ynghylch anghenion gofal plant neu ddiffyg amser oherwydd gwaith neu gyfrifoldebau gofalu.

Roedd iechyd neu lesiant yn bryder penodol ymhlith y rhai ag ADY ac roedd rhwystrau ieithyddol yn bryder i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roedd y rhai â phrofiad o fod mewn gofal yn llai tebygol o fynegi pryderon ariannol ynghylch byw o ddydd i ddydd neu ddiffyg hyder neu bryder ynghylch dychwelyd i addysg, tra bod y rhai â phlant yn fwy tebygol o fynegi pryderon ariannol am gostau byw o ddydd i ddydd. Roedd y rhai a oedd yn gofalu am aelod o'r teulu yn llai tebygol o fynegi pryderon ariannol yn ymwneud â'u cwrs.

**Ffigur 6.4: Pryderon ynghylch dechrau astudiaethau pellach neu barhau â nhw**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod ymgeiswyr yn pryderu'n bennaf am faterion ariannol yn ymwneud â dechrau astudio neu barhau i astudio.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=573.


## 6.3. Sut yr oedd pobl yn clywed am y GDLIC (AB)

Roedd ychydig o dan hanner yr ymgeiswyr (46%) wedi clywed am y grant am y tro cyntaf cyn iddynt ddechrau eu cwrs, gyda lleiafrif pellach (36%) wedi clywed amdano gyntaf yn ystod tymor cyntaf eu cwrs. Ychydig iawn oedd wedi clywed am y grant am y tro cyntaf yn ddiweddarach yn eu hastudiaethau. Mae'r ffaith bod 64% o'r rhai a holwyd wedi gwneud cais am y grant tra roeddent eisoes wedi cofrestru mewn addysg bellach yn awgrymu, er y gallai llawer fod wedi bod yn ymwybodol ohono yn gynharach, er enghraifft yn ystod diwrnod agored, nad oeddent mewn sefyllfa i wneud cais cyn dechrau eu cwrs. Gallai hyn fod oherwydd nad oeddent yn siŵr sut i gael mynediad at y grant neu na allent gael mynediad at unrhyw gymorth i'w helpu gyda'r cais. Efallai hefyd nad oedd rhai yn siŵr a fyddent yn gymwys i gael cymorth.

Roedd ymgeiswyr iau (y rhai 21 oed ac iau a 22 i 24) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am y grant cyn iddynt ddechrau eu cwrs, tra bo ymgeiswyr hŷn (25 oed a throsodd) yn fwy tebygol o fod wedi clywed amdano yn ystod y tymor cyntaf. Roedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn fwy tebygol o fod wedi clywed am y grant cyn iddyn nhw ddechrau ar eu cwrs.

Fel y dangosir yn Ffigur 6.5, fel arfer roedd ymgeiswyr yn clywed am y grant drwy ddarparwr eu cwrs mewn rhyw ffordd. Roedd hyn yn cynnwys clywed gan diwtor eu cwrs (17%), yn ystod diwrnod agored (17%), wrth gofrestru (16%), gan fyfyrwyr eraill (13%) neu gan staff cymorth myfyrwyr (10%). Ychydig o ymgeiswyr a oedd wedi clywed am y grant o ffynonellau eraill. Roedd y rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol na'r ymgeiswyr iau o fod wedi clywed am y grant gan fyfyrwyr eraill.

**Ffigur 6.5: Sut y clywodd yr ymgeiswyr am y grant am y tro cyntaf**



Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod tiwtoriaid cwrs a diwrnodau agored yn ffynonellau pwysig o ran clywed am y GDLIC (AB) am y tro cyntaf.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=574.

Gofynnwyd i staff Canolfannau Dysgu a gwblhaodd yr arolwg am y dulliau yr oeddent yn credu oedd fwyaf effeithiol o ran hyrwyddo'r grant i ddarpar ymgeiswyr. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis hyd at bedwar opsiwn. O'r rhai a holwyd (32), yr opsiynau a nodwyd amlaf oedd:

- posteri neu daflenni yn eu sefydliad (69% neu 22 o ymatebion)
- yn uniongyrchol gan swyddogion cymorth myfyrwyr yn eu sefydliad (59% neu 19 o ymatebion)
- gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (50% neu 16 o ymatebion)
- gwybodaeth yn ystod diwrnodau agored eu sefydliad (47% neu 15 o ymatebion).

Mewn gwrthgyferbyniad ag ymgeiswyr, rhoddodd staff Canolfannau Dysgu lai o bwyslais ar diwtoriaid cwrs a darlithwyr fel dull o hyrwyddo'r grant, a dim ond 31% yn unig (10 ymatebydd) a ddewisodd yr opsiwn hwn, yn ogystal â chlywed drwy fyfyrwyr eraill, a nodwyd gan ddim ond 19% (6 ymatebydd).

Ar y cyfan, roedd y Canolfannau Dysgu a gyfrannodd at y grwpiau ffocws o'r farn eu bod wedi gallu hyrwyddo'r grant yn effeithiol i ddarpar ddysgwyr a gysylltodd â'u sefydliadau.

> “Rydym yn rhoi cyngor ac arweiniad ym mhob un o’n digwyddiadau agored a’n sgyrsiau croeso. Mae gennym bosteri ym mhobman, mae cyflwyniadau PowerPoint yn cael eu hanfon at yr holl staff. Rwy'n meddwl ein bod ni'n ei hyrwyddo'n eithaf da."

Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod y gwaith o hyrwyddo'r grant yn cael ei adael i Ganolfannau Dysgu i raddau helaeth. Er bod gwybodaeth am y grant ar gael drwy wasanaethau fel Cymru'n Gweithio, nid yw sefydliadau allanol yn cofnodi faint o bobl maen nhw'n eu hatgyfeirio neu'n eu cyfeirio at y cynllun.

Roedd mater a godwyd yn ddigymell gan y rhai o’r Canolfannau Dysgu a gymerodd ran y grwpiau ffocws yn ymwneud â chanfyddiadau ymhlith staff Canolfannau Gwaith ynghylch effaith y grant ar fudd-daliadau dysgwyr. Ystyriwyd bod y camddealltwriaeth hwn, a gydnabuwyd fel pryder sawl blwyddyn yn ôl ac a oedd o bosibl yn gysylltiedig â'r ffaith bod grant cynhaliaeth ar gyfer astudiaethau Addysg Uwch yn effeithio ar incwm y rhai sy'n derbyn cymorth, yn anodd ei chywiro. Yn y gorffennol, adroddodd staff am achosion o Ganolfannau Gwaith yn rhybuddio dysgwyr y gallai derbyn y grant arwain at golli eu budd-daliadau. Nododd colegau eu bod yn parhau i weld dysgwyr sy'n bryderus ynghylch gwneud cais am y GDLIC (AB) oherwydd bod arnynt ofn colli cymorth ariannol. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud drwy godi ymwybyddiaeth yn lleol a gwaith hyrwyddo gan staff, roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod effeithiau "codi bwganod" yn y gorffennol yn parhau, yn enwedig ymhlith dysgwyr agored i niwed sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau.

> "Rydym wedi gorfod cyflwyno manylion gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos na ellir ystyried y grant wrth asesu hawl i fudd-daliadau, ond mae rhai myfyrwyr yn dal i wrthod gwneud cais oherwydd nad ydyn nhw eisiau cymryd y risg."

> "Rwy'n credu y dylid ei gwneud yn glir i ddysgwyr p'un a yw gwneud cais am y GDLIC yn effeithio ar eu budd-daliadau h.y. taliad Credyd Cynhwysol gan fod gwybodaeth anghyson ar hyn o bryd am dderbyn taliadau GDLIC a budd-daliadau. Yn enwedig i'r rhai sydd â dibynyddion. Mae hyn yn atal pobl rhag gwneud cais am y GDLIC neu hyd yn oed ddychwelyd i astudio."

Awgrymodd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ddwy brif ffordd y gellid hyrwyddo'r GDLIC (AB) yn well.

Yn gyntaf, roedd galwad am fwy o adnoddau hyrwyddo digidol a haws eu deall fel taflenni digidol ac "adnoddau digidol deniadol" y gellid eu rhannu â darpar ymgeiswyr, gan gynnwys ar sgriniau digidol mewn colegau. Awgrymodd staff y byddai ffeithluniau neu fideos byr yn egluro "beth yw e, sut i wneud cais, a beth y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer" yn cefnogi dysgwyr a, lle y bo'n berthnasol, eu gweithwyr achos i ddeall y broses. Awgrym pellach oedd cynhyrchu adnodd tebyg i'r "llyfr bach LCA" presennol, gan ddarparu gwybodaeth gryno a hawdd ei deall am y grant, gan fod deunyddiau cyfredol yn cael eu hystyried yn rhy hir sy'n golygu nad yw pobl yn eu darllen.

Yn ail, nododd y cyfranogwyr fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r grant yn parhau i fod yn isel, yn enwedig y tu allan i amgylchedd y coleg. Roeddent yn teimlo bod angen hyrwyddo'r grant yn ehangach ledled Cymru, gan gynnwys mewn mannau cyhoeddus fel bariau, bwytai ac archfarchnadoedd er mwyn targedu natur fwy amrywiol dysgwyr sy'n oedolion yn well. Cydnabu'r Canolfannau Dysgu hefyd eu bod yn aml yn cael trafferth cyrraedd darpar ddysgwyr yn ddigon cynnar, cyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch cofrestru.

> "Mae bwlch o hyd … dydy pobl ddim yn gwybod beth sydd ar gael nes iddyn nhw ddod atom ni."

> "Dim ond pan fyddan nhw'n dod ac yn cofrestru y byddwn ni'n gweld y myfyrwyr hyn, ond mae angen iddyn nhw wneud y penderfyniadau hyn cyn dechrau'r cwrs."

O gymharu, roedd cyfranwyr yn y grwpiau ffocws o'r farn bod ymwybyddiaeth o'r GDLIC (AB) yn parhau i fod yn eilradd i'r LCA mwy adnabyddus a'i bod yn anodd iawn canfod a chyrraedd darpar ddysgwyr yn ddigon cynnar:


> "Mae cymaint o wybodaeth a deunydd marchnata'n cael eu rhannu sy'n ymwneud â myfyrwyr yn symud o'r ysgol i AB... ond rwy'n teimlo fel bod y GDLIC yn cael ei anwybyddu bron."

## 6.4. Gwneud cais am y GDLIC (AB)

Roedd dros hanner yr ymatebion i'r arolwg yn ymatebion gan ymgeiswyr a oedd wedi gwneud cais yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf (33% yn 2024 i 2025 a 24% yn 2023 i 2024), gydag un rhan o bump arall yn geisiadau gan y rhai a oedd wedi gwneud cais

yn 2022 i 2023. Ychydig iawn o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi gwneud cais yn ystod 2021 i 2022 neu 2020 i 2021, fel y dangosir yn Ffigur 6.6. Yn groes i gronfa ddata gyffredinol yr SLC, sy'n dangos niferoedd cymharol gyfartal o ymgeiswyr ar draws y cyfnod tair blynedd, yn yr arolwg cafwyd cyfradd ymateb uwch gan garfan 2024 i 2025 a chyfradd ymateb is gan garfan 2022 i 2023. Er ei bod yn beth cadarnhaol bod y broses ymgeisio yn fwy byw yn y cof o ran y garfan ddiweddaraf, mae hefyd yn golygu y bydd llai o ymatebwyr wedi cael amser i symud ymlaen i astudiaethau pellach.

**Ffigur 6.6: Ym mha flwyddyn academaidd y gwnaeth ymgeiswyr gais am y grant am y tro cyntaf**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos y cafwyd mwy o ymatebion i'r arolwg gan ymgeiswyr a wnaeth gais am y grant yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=572.

Roedd dros hanner yr ymgeiswyr wedi gwneud cais ar bapur (56%) tra bod traean (34%) wedi gwneud cais ar-lein ac nid oedd y gweddill yn gwybod. Roedd y rhai rhwng 22 a 24 oed ychydig yn fwy tebygol na'r rhai mewn grwpiau oedran eraill o fod wedi cwblhau'r ffurflen ar-lein. Roedd barn yr ymgeiswyr am y broses ymgeisio yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd dros eu hanner o'r farn bod y ffurflen yn hawdd iawn (22%) neu'n weddol hawdd (35%) eu chwblhau, ac roedd tua'u chwarter o'r farn nad oedd yn hawdd nac yn anodd (26%)

Roedd gan y rhai a oedd wedi cwblhau'r ffurflen ar-lein farn fwy cadarnhaol am y broses na'r rhai a oedd wedi cwblhau'r ffurflen ar bapur:

- roedd ychydig dros hanner yr ymgeiswyr a oedd wedi cwblhau'r ffurflen ar bapur yn teimlo bod y broses yn hawdd iawn (19%) neu'n weddol hawdd (34%)
- roedd mwyafrif y rhai a gwblhaodd ffurflen ar-lein o'r farn ei bod yn hawdd iawn (29%) neu'n weddol hawdd (40%).

Roedd pobl dros 50 oed, y rhai ag ADY a ffoaduriaid a cheiswyr lloches ychydig yn llai tebygol o ddweud bod y ffurflen yn hawdd iawn eu llenwi.


Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg o staff Canolfannau Dysgu fod yr ymgeiswyr o'r farn bod y broses ymgeisio ar-lein bresennol yn hawdd iawn (9% neu 3)

neu'n weddol hawdd (50% neu 16). Roedd ychydig (17% neu 5) yn ystyried bod y broses ymgeisio ar-lein yn anodd, tra bod y staff a oedd yn weddill yn ansicr. Nododd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fod y system ymgeisio ar-lein wedi gwella hygyrchedd i ymgeiswyr, wedi lleihau gwallau ar ffurflenni, ac wedi cyflymu amserlenni prosesu'r ceisiadau - yn rhannol oherwydd bod y system bellach yn defnyddio data CThEF [troednodyn 18] i asesu incwm aelwydydd yn hytrach na dibynnu ar ymgeiswyr i ddarparu'r wybodaeth hon.

> "Mae'r ffurflen gais ar-lein wedi bod yn fendith… maen nhw'n gallu cael eu cymeradwyo o fewn ychydig ddyddiau."

Roedd dros hanner yr ymgeiswyr a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd o'r farn ei bod yn hawdd iawn (19%) neu'n weddol hawdd (37%) dod o hyd i'r dystiolaeth angenrheidiol, ac roedd tua chwarter yr ymgeiswyr o'r farn nad oedd hyn yn hawdd nac yn anodd (28%). Roedd y rhai 21 oed ac iau a 22 i 24 oed yn llai tebygol o nodi bod dod o hyd i dystiolaeth wedi bod yn hawdd iawn, ond roedd y rhai â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai â phlant yn fwy tebygol o ystyried bod y broses yn hawdd iawn.

**Ffigur 6.7: Barn ymgeiswyr ar hwylustod y broses ymgeisio**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod dros hanner yr ymgeiswyr o'r farn bod y broses ymgeisio yn hawdd a bod eu chwarter o'r farn ei bod yn anodd.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=575 ar gyfer y cwestiwn cyntaf, n=573 ar gyfer yr ail gwestiwn.

## 6.5. Rhwystrau i ymgeisio

Nododd cyfanswm o 8% (49) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y prif anawsterau yr oeddent wedi'u profi gyda'r ffurflen gais. Codwyd y materion hyn yn bennaf gan y rhai a

[18] Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

oedd wedi cwblhau'r fersiwn bapur o'r ffurflen (33 o blith 49) ond nid yn gyfan gwbl, gan fod y rhai a oedd wedi cwblhau'r ffurflen ar-lein hefyd wedi nodi materion tebyg:

- rhwystrau o ran iaith a hygyrchedd. Roedd rhai ymgeiswyr wedi dysgu Saesneg fel ail iaith neu roedd ganddynt ADY, gan gynnwys awtistiaeth a dyslecsia. Roeddent yn teimlo bod yr iaith yn rhy gymhleth, bod cynllun y ffurflen yn anhygyrch, ac roedd y ffaith bod diffyg cymorth ar gyfer myfyrwyr ESOL yn arbennig o anodd

  "Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn y ffurflen gais yn rhy gymhleth i mi fel siaradwr Saesneg ail iaith."

- cymhlethdod a hyd y ffurflen. Disgrifiwyd y ffurflen gais fel un hir, dryslyd, a gor fanwl. Roedd y cwestiynau'n anodd eu dehongli, ac roedd diffyg eglurder mewn rhai adrannau ynghylch pwy ddylai ddarparu'r wybodaeth

  "Roedd llawer i'w lenwi ac roeddwn i'n teimlo bod y cwestiynau/y cais yn anodd eu deall."

- y gofynion o ran y wybodaeth ariannol. Roedd casglu data ariannol, yn enwedig o flynyddoedd blaenorol, yn rhwystr ar brydiau. Roedd ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gofnodion incwm rhieni, dogfennau treth, a manylion budd-daliadau, a chyfeiriodd rhai at gymhlethdod teuluol neu ddiffyg dogfennaeth

  "Swm y wybodaeth ariannol sydd ei hangen a'r analllu i gael mynediad at wybodaeth o flynyddoedd blaenorol."

- problemau technegol. Adroddwyd am wallau wrth gyflwyno ffurflen ar-lein (e.e. y gweinydd yn methu), cyfleusterau gwe-lywio, a chyngor anghyson gan staff y llinell gymorth. Derbyniodd nifer o ymgeiswyr ffurflenni anghywir neu fe wnaethant brofi oedi

- dibyniaeth ar gymorth ac arweiniad gan eraill. Roedd rhai yn dibynnu ar staff y coleg neu eraill i'w cynorthwyo gyda'r ffurflen gais.

Yn yr un modd, roedd ychydig o ymgeiswyr wedi cael trafferth dod o hyd i'r dystiolaeth angenrheidiol. Y prif rwystrau a nodwyd gan 31 o ymgeiswyr oedd:

- amwysedd a baich gweinyddol. Roedd y gofynion o ran y dystiolaeth yn aneglur, gyda'r ymgeiswyr yn ansicr pa ddogfennau oedd eu hangen neu a oedd fwyaf addas. Dywedodd llawer o ymgeiswyr fod y gwaith papur yn ormodol neu'n ddiangen

  "Dod o hyd i bopeth a chael yn union yr hyn oedd ei angen. Oherwydd bod gen i blant ac fy mod i wedi cael ysgariad roedd angen llawer iawn o dystiolaeth."

- argaeledd dogfennau. Roedd ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd cael cofnodion hanesyddol fel ffurflenni P60, llythyrau budd-daliadau, a datganiadau treth, yn enwedig pan oedd dogfennau yn hen, ar goll, neu nad oeddent erioed wedi eu cael. Nid oedd gan rai fynediad at fanylion incwm teuluol oherwydd dieithrwch, profedigaeth, rhwystrau sy'n gysylltiedig ag ADY neu bartner wedi ymddeol

> “Doeddwn i ddim yn gallu cael tystiolaeth o gyflogaeth flaenorol fy mhartner gan ei bod hi wedi ymddeol ac nid yw’r gwaith papur yn bodoli mwyach. Ond ar ôl llythyru sawl gwaith yn egluro'r rhesymau, roeddwn i'n cael llythyru'n gyson yn gofyn am ei manylion er fy mod i wedi egluro nad oedden nhw'n bodoli mwyach. Yna fe wnes i dderbyn y ffaith, ni waeth sawl gwaith roeddwn i'n egluro, nad oedd y neges yn cyrraedd pwy bynnag oedd yn delio â'm cais. Yn y pen draw fe wnes i roi'r ffidl yn y to gan fy mod i mor rhwystredig.”

- prawf o gyfeiriad a heriau'n ymwneud â hunaniaeth. Nid oedd gan nifer o ymgeiswyr filiau na dogfennau swyddogol yn eu henw
- problemau technegol a gweinyddol a wynebwyd gan y rhai a oedd yn cwblhau'r ffurflen ar-lein. Roedd y problemau'n cynnwys dogfennau coll a phroblemau technegol
- pwysau amser. Disgrifiwyd y broses fel un llafurus a oedd yn dreth ar yr emosiynau, yn enwedig pan nad oedd tystiolaeth ar gael yn rhwydd neu pan oedd terfynau amser yn gwrthdaro ag amserlenni cofrestru.

Nododd staff Canolfannau Dysgu a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws mai darparu prawf hunaniaeth oedd un o'r rhwystrau mwyaf i ffoaduriaid o hyd. Dywedwyd bod Cyllid Myfyrwyr Cymru ar hyn o bryd yn gofyn am dystysgrif geni wreiddiol neu basbort dilys, sy'n aml yn amhosibl i unigolion sydd wedi ffoi o'u gwledydd heb ddogfennaeth. Awgrymodd staff y gall llawer o ffoaduriaid ddarparu “cod rhannu” y Swyddfa Gartref i wirio eu statws mewnfudo a’u preswyliad yn y DU; fodd bynnag, er nad yw Cyllid Myfyrwyr Cymru yn derbyn y math hwn o dystiolaeth fel prawf hunaniaeth fel mater o drefn, caiff ei derbyn i wirio statws mewnfudo’r unigolyn. O ganlyniad, mae ceisiadau dysgwyr yn aml yn cael eu gwrthod i ddechrau, hyd yn oed os byddant wedi byw yn y DU am dros dair blynedd ac yn byw yng Nghymru, sef isafswm y gofynion cymhwystra.

Tynnodd staff sylw hefyd at y ffaith y gall amgylchiadau aelwyd ffoaduriaid newid yn gyflym, er enghraifft, oherwydd newidiadau mewn statws cyfreithiol, teuluoedd yn aduno, neu gyflogaeth sy'n gwneud system grantiau yn seiliedig ar incwm y flwyddyn dreth flaenorol yn anaddas yn aml. Fe wnaethant alw am system fwy ymatebol a allai ystyried amgylchiadau esgusodol a newidiadau sydyn er mwyn adlewyrchu realiti bywydau'r dysgwyr hyn yn well. Ar ben hynny, nododd staff fod ffoaduriaid ifanc yn cael eu categoreiddio fel plant digwmni neu oedolion ifanc sydd wedi dieithrio, ond mae'r gofyniad presennol am brawf eu bod wedi bod yn annibynnol yn ariannol am dair blynedd yn ei gwneud bron yn amhosibl iddynt gael eu cydnabod fel dysgwyr annibynnol.

Nododd lleiafrif yr ymgeiswyr (38%) eu bod wedi cael cymorth gan eu coleg neu ddarparwr eu cwrs i gwblhau eu cais, ond nid oedd tua hanner (52%) wedi cael cymorth o'r fath. Yn gyffredinol, roedd y rhai a gafodd gymorth yn teimlo bod y cymorth yn dda iawn (71%) neu'n weddol dda (25%), yn enwedig y rhai 25 oed a throsodd. Roedd rhai grwpiau o ymgeiswyr yn fwy tebygol o fod wedi cael cymorth, gan gynnwys y rhai 25 oed a throsodd, y rhai â phrofiad o fod mewn gofal, y rhai sy'n gofalu am aelodau o'r teulu a ffoaduriaid. Roedd dynion yn llai tebygol na menywod o fod wedi cael cymorth.

Roedd tua dwy ran o dair o'r staff Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn bod eu sefydliad yn darparu cymorth i ymgeiswyr gyda'u cais yn rheolaidd (34% neu 11 o ymatebwyr) neu'n achlysurol (34% neu 11 o ymatebwyr). O ran y rhai o'r sefydliadau hynny a oedd yn darparu cymorth o'r fath yn anaml neu byth, ychydig iawn o ymgeiswyr diweddar oedd ganddynt, os o gwbl.

Nododd staff Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn y grŵp ffocws fod y rhan fwyaf o'u cymorth yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr ESOL a ffoaduriaid i lenwi'r ffurflenni cais, yn bennaf oherwydd rhwystrau ieithyddol. Roedd y ffaith nad oedd y dysgwyr hyn yn rhugl iawn yn y Saesneg yn golygu bod cefnogi'r dysgwyr hyn yn "llafurus":

> “Y rhan fwyaf o ddyddiau bydd gennym o leiaf ddau sydd angen help… mae'n llafurus, ond yn angenrheidiol oherwydd y rhwystr ieithyddol.”

> “Mae gennym garfan fawr o fyfyrwyr ESOL… mae'n cymryd llawer o amser ac ymdrech i'w tywys nhw drwy'r cais.”

Dywedodd un rhanddeiliad a gyfwelwyd hefyd ei fod yn cynorthwyo ffoaduriaid a mudwyr i gwblhau'r cais am GDLIC (AB), gan ddarparu cymorth yn iaith gyntaf yr ymgeisydd yn aml. O ganlyniad, roedd yn credu bod y cymorth hwn yn cael ei groesawu, gan ei fod yn caniatáu iddynt esbonio'r gofynion mewn ffordd y gallai ymgeiswyr ei deall yn llawn.

## 6.6. Gwelliannau i'r broses ymgeisio

Pan ofynnwyd iddynt a ellid newid neu wella'r ffurflen gais, roedd tua hanner yr ymatebwyr a oedd yn ymgeiswyr a atebodd y cwestiwn hwn yn teimlo bod y ffurflen gais yn iawn fel y mae neu'n ansicr ynghylch unrhyw welliannau posibl. Fodd bynnag, awgrymodd gweddill yr ymatebwyr rai gwelliannau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- symleiddio'r ffurflen. Teimlai'r ymatebwyr a gwblhaodd y fersiwn bapur o'r ffurflen ei bod yn rhy hir, yn rhy gymhleth, neu'n llethol. Fe wnaethant awgrymu defnyddio geiriad symlach, lleihau'r gwaith papur, a gwneud y cwestiynau'n gliriach. Tynnodd sawl un sylw at y ffaith y dylai fod yn haws i bobl ag anawsterau dysgu, anableddau, neu lythrennedd cyfyngedig

  > “Ei symleiddio fel nad yw'n teimlo mor llethol. Yn enwedig i bobl nad ydynt yn gryf yn academaidd.”

- mynediad ar-lein a phrosesau digidol. Roedd yr ymatebwyr yn ffafrio opsiwn ymgeisio ar-lein, gyda'r gallu i uwchlwytho tystiolaeth yn ddigidol. Awgrymwyd opsiynau ar gyfer cadw manylion blaenorol ar gyfer adnewyddu ceisiadau a chael system mewngofnodi/cyfrif personol
- arweiniad a chymorth Roedd galwadau am gyfarwyddiadau cliriach, enghreifftiau, neu hyd yn oed ganllawiau fideo gan y rhai a oedd wedi cwblhau'r ffurflen ar-lein neu ar bapur. Roedd rhai eisiau cymorth mewn amser real, fel sgwrs ar-lein neu gymorth wyneb yn wyneb yn y coleg. Cafwyd ceisiadau hefyd am gymorth gan diwtor neu staff wedi'u hyfforddi i roi arweiniad i ymgeiswyr

> "Gellid darparu fideo yn esbonio sut i lenwi adrannau ar fersiwn bapur y cais."

- hygyrchedd. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynnig fformatau amrywiol (papur, ar-lein, fersiynau wedi'u cyfieithu, cymorth sain). Rhai newidiadau i liwiau'r ffurflenni papur ar gyfer pobl â straen gweledol/dyslecsia
- gwelliannau gweinyddol. Roedd rhywfaint o rwystredigaeth gyda defnyddio gwybodaeth ariannol o 2 flynedd ynghynt, gan nad ystyrir ei fod yn adlewyrchu anghenion cyfredol. Roedd galwadau hefyd am drefniadau prosesu cyflymach, amserlenni talu cliriach, a llai o geisiadau ailadroddus am dystiolaeth
- gwella hyrwyddo a chyfathrebu. Dywedodd rhai ymatebwyr mai dim ond yn hwyr yn ystod eu hastudiaethau y clywsant am y grant gan awgrymu y dylid ei hyrwyddo'n well. Gofynnodd eraill am well cyfathrebu ynghylch statws ceisiadau ac amseriadau'r taliadau.

Cynigiodd staff y canolfannau Dysgu a ymatebodd i'r arolwg ac a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ychydig o awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses ymgeisio. Roedd llawer o'r awgrymiadau hyn yn adleisio'r pwyntiau a godwyd gan yr ymgeiswyr – megis symleiddio'r ffurflen gais, darparu opsiwn hawdd ei ddeall a chynnig esboniadau mwy diagramatig neu glipiau fideo lle bo modd i gefnogi dealltwriaeth yr ymgeisydd.

Galwodd staff Canolfannau Dysgu hefyd ar i'r ymgeisydd gael ei arwain 'at y ffurflen gais ar unwaith' ar ôl cofrestru am gyfrif ar-lein, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch ble i fynd nesaf. O'u profiad nhw, roedd nifer o ddysgwyr wedi camddeall y broses gofrestru gan feddwl mai dyma'r broses ymgeisio lawn ac nad oeddent wedi bwrw ymlaen â'u cais o ganlyniad i hynny.

> "Mae rhai yn creu cyfrif ac yn meddwl mai dyna'r cyfan y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Rydyn ni wedi gorfod eu helpu i sylweddoli bod cam arall."

Cynigiodd rhai aelodau o staff y Canolfannau Dysgu awgrymiadau penodol a fyddai'n gwneud y broses ymgeisio'n haws i'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys y gallu i gwblhau'r ffurflen gais mewn sawl iaith, cael mynediad at blatfform digidol a all ddarllen testun mewn gwahanol ieithoedd a chael rhif cyswllt pwrpasol i gael cymorth wrth lenwi eu ffurflen gais:

> "Byddai'n eu helpu nhw [dysgwyr ESOL] pe bai'r platfform ar-lein yn cynnig meddalwedd hygyrchedd, fel Recite Me, i gyfieithu cynnwys y dudalen i'w hiaith gyntaf."

> "Y rhwystr ieithyddol yw'r brif broblem o hyd i lawer o'n dysgwyr sy'n oedolion. Mae gan fyfyrwyr yr opsiwn o ddewis eu hiaith ar eu ffôn symudol. Allai hyn fod yn opsiwn wrth lenwi'r ffurflen ar-lein?"

> "Fe wnaeth un o'n rheolwyr roi'r ffurflen GDLlC drwy feddalwedd darllen, a daeth allan ar lefel llythrennedd uchel iawn. Does dim opsiwn hawdd ei ddeall allan yna, ac mae gwir angen mynd i'r afael â hynny."

Fodd bynnag, rhybuddiodd un rhanddeiliad yn erbyn darparu'r ffurflen gais neu unrhyw ddogfennau ategol mewn ieithoedd lleiafrifol eraill. Dadleuodd y gallai gwneud hynny atal ymgeiswyr nad oes ganddynt fawr o Saesneg rhag cydnabod gwerth dysgu'r iaith ac, yn y pen draw, rhag integreiddio i gymdeithas ehangach. Ym marn y rhanddeiliad hwn, byddai'r dull hwn yn amhriodol mewn egwyddor ac ni fyddai'n grymuso ymgeiswyr nad ydynt yn gallu siarad Saesneg.

Galwodd un aelod o staff Canolfan Ddysgu hefyd am adran bwrpasol ar gyfer Canolfannau Dysgu ar y ffurflen gais er mwyn hwyluso'r broses pan fydd dysgwyr yn cael cymorth gan staff:

> "Efallai y dylid cyflwyno adran ymgeisio ar-lein bwrpasol i ddarparwyr gwasanaethau… fel bod cais yn cael ei ddangos fel cais sy'n cael ei wneud gyda chymorth yn hytrach na'r dysgwr yn ei wneud ar ei ben ei hun."

Awgrymodd staff eraill y dylai'r broses ymgeisio dderbyn copïau wedi'u huwchlwytho neu gopïau digidol o dystysgrifau geni, gan fod darparu dogfennau gwreiddiol wedi bod yn heriol i rai ymgeiswyr. Argymhellwyd hefyd y dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru dderbyn ffurfiau amgen o ddogfennau adnabod ar gyfer y rhai sy'n ei chael hi'n anodd dangos tystiolaeth o'r gofyniad preswylio tair blynedd, yn enwedig ffoaduriaid.

## 6.7. Canlyniad ceisiadau am grant

At ei gilydd, o blith yr ymgeiswyr a gymerodd ran yn yr arolwg, bu ceisiadau 80% yn llwyddiannus a cheisiadau 8% yn aflwyddiannus, ac nid oedd ambell un yn gallu cofio (12%). Ymhlith y rhai y bu eu ceisiadau'n aflwyddiannus, roedd y mwyafrif (63%) yn gwybod pam ond nid oedd y lleiafrif (37%) yn gwybod y rheswm. Rhannodd tua 35 o ymgeiswyr aflwyddiannus eu barn am ganlyniad eu cais. Roedd y themâu allweddol yn eu hymatebion yn cynnwys:

- rhwystredigaeth gyda'r meini prawf cymhwystra. Esboniodd sawl un fod eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod am nad oedd eu cwrs yn cynnwys digon o oriau oherwydd y ffordd yr oedd y modiwlau wedi'u strwythuro neu eu rhannu. Nododd eraill eu bod wedi cael eu hanghymwyso oherwydd materion yn ymwneud â phresenoldeb ac nad oedd rhesymau dilys fel cyfrifoldebau gofal plant neu anawsterau teithio wedi cael eu hystyried. Soniwyd hefyd am anghysondebau rhwng sefydliadau a rhwng dysgwyr llawnamser a dysgwyr rhan-amser fel achosion o rwystredigaeth

  > "Rydym wedi astudio drwy gydol y flwyddyn academaidd fel myfyrwyr rhan-amser Lefel 2 ESOL (4 diwrnod yr wythnos) sy'n fwy na'r oriau gofynnol i fod yn gymwys ar gyfer y GDLIC, fodd bynnag, cafodd fy nghais ei wrthod gan y coleg oherwydd problem gyda threfn y cwrs gan eu bod wedi rhannu'r cwrs ESOL yn 2 gwrs (Gwrando a Siarad, Ysgrifennu a Darllen), o ganlyniad, roedd pob cwrs unigol islaw'r oriau cymwys. Nid yw hyn wedi bod yn berthnasol i fyfyrwyr llawnamser ac ni chafodd ei gymhwyso i gyrsiau ESOL rhan-amser tebyg mewn colegau eraill."

- diffyg cyfathrebu a chanllawiau clir. Cododd rhai bryderon ynghylch cyfathrebu gwael neu aneglur gan weinyddwyr grantiau neu sefydliadau addysgol. Roedd hyn yn

cynnwys cyfarwyddiadau aneglur ar ddogfennaeth angenrheidiol, megis prawf o breswyliad cyfreithiol, a gwybodaeth gamarweiniol cyn cofrestru ar gyfer cwrs ynghylch argaeledd grantiau. Fe wnaeth dryswch ynghylch terfynau amser a gofynion gweithdrefnol gymhlethu'r broses ymhellach i lawer o ymgeiswyr

> "Chefais i ddim digon o gymorth i'w gwblhau a phan wnes i ofyn am gymorth ar y campws, cefais fy mhasio o bared i bost, rhoddais y ffidl yn y to a bu'n rhaid i mi ymdopi heb unrhyw arian."

- canfyddiadau o annhegwch ac anghysondeb. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y canlyniad yn annheg. Fe wnaethant gyfeirio at enghreifftiau o gyfoedion mewn amgylchiadau tebyg a lwyddodd i gael cyllid. Dywedodd rhai fod ffactorau cymhwystra hirdymor, fel derbyn LCA yn y gorffennol, wedi cael eu hanwybyddu. Roedd yna hefyd deimlad ymhlith rhai ymgeiswyr bod ffactorau allanol y tu hwnt i'w rheolaeth wedi cael effaith negyddol ar eu siawns o gael grant

> "Annheg gan fy mod i wedi bod yn gymwys i gael LCA am ychydig flynyddoedd a doedd fy amgylchiadau ddim wedi newid o gwbl."

- ymateb emosiynol. Weithiau mynegodd yr ymgeiswyr eu siom a'u digalondid. Dywedodd rhai ymgeiswyr eu bod yn teimlo nad oedd neb yn eu cefnogi neu eu bod wedi cael eu siomi, yn enwedig y rhai a oedd yn wynebu heriau a chyfrifoldebau ychwanegol
- rhwystrau ymarferol i wneud cais. Nodwyd heriau gyda'r broses ymgeisio ei hun. Roedd rhai ymatebwyr yn cael trafferth deall neu gwblhau rhai adrannau, yn aml oherwydd diffyg cymorth neu gefnogaeth
- derbyn y canlyniad. Derbyniodd cyfran lai o ymatebwyr y penderfyniad fel un teg, gan gydnabod eu diffygion eu hunain o ran darparu'r wybodaeth ofynnol neu fodloni'r meini prawf.

## 6.8. Newidiadau a welwyd ym mhroffil derbynyddion y GDLIC (AB)

Holwyd staff Canolfannau Dysgu sut yr oedd proffil derbynyddion y GDLIC (AB) yn eu sefydliad wedi newid dros amser. Y brif neges oedd bod nifer y myfyrwyr a oedd yn gwneud cais am y grant ac yn ei dderbyn wedi lleihau dros amser, a bod hyn yn cael ei briodoli i'r trothwyon incwm aelwydydd sefydlog. Dywedodd un aelod o staff a gymerodd ran yn yr arolwg:

> "mae llawer o ddysgwyr a fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth GDLIC yn flaenorol yn methu ei gael bellach. Rydym wedi sylwi bod y dysgwyr hyn yn aml yn dal i wynebu caledi ariannol er gwaetha'r ffaith eu bod uwchlaw'r trothwy."

Nid oedd ychydig o'r staff a gymerodd ran yn yr arolwg wedi sylwi ar unrhyw newid amlwg, gan ychwanegu mai'r rhai a oedd wedi colli cyfleoedd i fanteisio ar addysg y tro cyntaf oedd yn tueddu i wneud cais am y grant.

Adroddodd nifer bach o staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau gan ffoaduriaid a'r rhai a gefnogwyd drwy gynllun Wcráin dros amser. Nododd nifer tebyg hefyd fod cyfrannau cynyddol o dderbynyddion yn astudio cyrsiau ESOL a chyrsiau lefel is fel y rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol: “Rydym yn gweld tuedd ble mae ymgeiswyr am gyrsiau lefel is yn tueddu i ddod o’r demograffig incwm is.”

Roedd staff y Canolfannau Dysgu yn gefnogol o'r ffaith bod dysgwyr ESOL yn cael eu cefnogi gan y cynllun, gan ychwanegu ei bod yn aml yn wir bod ganddynt “lefel uchel o gymwysterau yn eu gwlad eu hunain... a dim ond y Saesneg sydd ei angen arnyn nhw” i symud ymlaen. Roedd un rhanddeiliad yn anghytuno â'r egwyddor o gefnogi ffoaduriaid a mudwyr yn ariannol i ddysgu Saesneg. Yn yr achos hwn, dadleuwyd bod dysgwyr eisoes yn cael mynediad at ddarpariaeth ESOL am ddim ac nad oedd angen eu hannog yn ariannol i gymryd rhan: “Maen nhw’n cael dosbarthiadau ESOL … pam rydych chi’n eu talu nhw ar ben hynny?”

# 7. Trefniadau gweinyddol, Cytundebau Dysgu a thaliadau

Mae'r adran hon yn ystyried sut y caiff y cynllun GDLIC (AB) ei weinyddu, y gofynion mynychu a dilyniant sy'n gysylltiedig â'r grant, defnydd a gwerth Cytundebau Dysgu yn ogystal ag arferion talu'r grant.

## 7.1. Sut y caiff y cynllun GDLIC (AB) ei weinyddu

Dywedodd nifer bach o'r ymatebwyr i'r arolwg o staff Canolfannau Dysgu (16% neu 5 ymatebydd) fod eu sefydliadau wedi wynebu heriau o ran cyflawni eu cyfrifoldebau disgwyliedig wrth weinyddu'r cynllun GDLIC (AB). Mewn 9% o achosion (3), crybwyllodd yr ymatebwyr broblemau'n ymwneud ag adnoddau staffio, ac mewn un lleoliad, roedd galw cynyddol am y GDLIC (AB), yn ogystal ag LCA a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, yn golygu bod y llwyth gwaith wedi dod yn "anghynaliadwy ac yn anhydrin". Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at faterion mwy penodol, a oedd yn aml yn gysylltiedig â heriau cyfathrebu:

> “Nid oes gennym ni gampws ac mae ein dysgwyr wedi’u gwasgaru ar draws sawl lleoliad dysgu ledled Cymru. Dydyn ni ddim yn cael gwybod pan fyddan nhw'n cyflwyno cais ac felly dim ond drwy wirio'r porth yn rheolaidd y byddwn ni'n gwybod bod cais wedi cael ei wneud.”

> “Os nad yw dysgwyr yn bodloni’r meini prawf presenoldeb maen nhw’n cysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru sy’n aml yn dweud wrthyn nhw eu bod yn gymwys i gael y grant. Mae hyn yn drysu'r dysgwr gan eu bod nhw'n gymwys i gael cyllid yn amodol ar fodloni'r meini prawf presenoldeb.”

Ar y cyfan, roedd staff Canolfannau Dysgu o'r farn bod canllawiau'r GDLIC (AB) a baratowyd gan yr SLC yn rhoi digon o eglurder i'w sefydliad ynghylch sut i weinyddu'r cynllun, ond ymddengys y gellid gwella dwy brif agwedd ar y canllawiau - y meini prawf sy'n ymwneud â dilyniant academaidd ar gyfer myfyrwyr cymwys a'r gofynion presenoldeb ar gyfer dysgwyr.

O ran y canllawiau ar ddilyniant, teimlwyd y dylid rhoi mwy o amlygrwydd i hyn yn hytrach na “dim ond un llinell yn y canllawiau”. Galwodd y staff am feini prawf cliriach ar ddilyniant academaidd er mwyn rhoi mwy o eglurder mewn achosion fel ymgeiswyr yn dechrau cwrs ar yr un lefel mewn maes pwnc gwahanol. Awgrymwyd hefyd y dylai cynghorwyr Cyllid Myfyrwyr Cymru lynu'n agosach at y canllawiau ar ddilyniant wrth ymateb i ymholiadau gan ymgeiswyr, gan fod rhai ymgeiswyr wedi derbyn cyngor a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd:

> “Byddaf yn egluro nad ydyn nhw'n gymwys gan eu bod nhw wedi derbyn cyllid ar yr un lefel/lefel uwch o'r blaen ac nad ydyn nhw'n gymwys bellach, yna mae'r myfyriwr yn ffonio Cyllid Myfyrwyr Cymru sy'n dweud wrtho ei fod yn gallu cael GDLIC ac i siarad â ni eto! Rwyf bob amser yn gwirio am amgylchiadau esgusodol ac ati cyn rhoi "na" terfynol, felly mae'r ffaith bod y myfyriwr yn dod yn ôl gyda'r neges honno gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn gwneud i mi deimlo'n ffŵl

> ac mae'r myfyriwr yn cael yr argraff nad ydw i wedi gwneud fy ngwaith yn iawn! Dylai'r wybodaeth a roddir fod yn gyson a dylai gefnogi'r ysgol a'r colegau."

Galwodd staff a gymerodd ran yn y grŵp ffocws hefyd am hyfforddiant amlach ynghylch gweinyddu'r cynllun grant, oherwydd trosiant staff a galw mawr am gymorth gan fyfyrwyr ESOL a myfyrwyr sy'n ffoaduriaid, gydag un yn dweud:

> "Mae'n dir peryglus braidd – rydych chi'n ofni camu i'r chwith ne i'r dde. Byddai hyfforddiant neu ganllawiau wedi'u diweddaru, ar gael mewn gwahanol fformatau, o gymorth."

## 7.2. Gofynion presenoldeb a dilyniant sy'n gysylltiedig â'r grant

Gofynnwyd i staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg nodi'r gofynion presenoldeb y mae'n rhaid i dderbynyddion y GDLIC (AB) eu bodloni yn eu sefydliad er mwyn derbyn taliadau. Mae'n bosibl gwneud y sylwadau canlynol am eu hymatebion, sydd i gyd yn awgrymu amrywiad mewn polisïau ac arferion:

- lle y darparodd yr ymatebydd ofyniad presenoldeb cymesur (50% neu 16 o ymatebion), roedd y gyfradd bresenoldeb yn amrywio o isafswm o 80% (16% neu 5 ymateb) i uchafswm o 90% dros y tymor (22% neu 7 ymateb). Nododd 2 Ganolfan Ddysgu arall (6%) eu bod yn disgwyl i ddysgwyr fynychu "pob gwers"
- yn ogystal â'u gofynion presenoldeb tymhorol, nododd 9% (3) o'r Canolfannau Dysgu, yn unol â'r canllawiau, fod yn rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfradd bresenoldeb o 100% yn ystod pythefnos cyntaf y tymor cyntaf (ac mewn rhai achosion ar ddechrau tymhorau dilynol hefyd)
- ychwanegodd sawl Canolfan Ddysgu y byddai'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau esgusodol. Tynnwyd sylw at hyn yn arbennig gan sefydliadau a oedd yn darparu ar gyfer dysgwyr ag ADY
- pwysleisiodd staff y Canolfannau Dysgu hefyd bwysigrwydd cyflwyno mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion dysgwyr anabl, yn enwedig mewn perthynas â gosod gofynion presenoldeb is a diwallu anghenion iechyd
- ychwanegodd rhai Canolfannau Dysgu y byddent hefyd yn ystyried y cynnydd a wneir gan ddysgwyr
- nododd un Ganolfan Ddysgu nad oedd yn caniatáu mwy na phythefnos o absenoldeb yn olynol, ond ei bod yn bosibl y gallai'r rhai ag amgylchiadau esgusodol gael eu trin yn wahanol.

O blith y 32 o ymatebwyr, roedd 53% (17) o'r farn bod eu sefydliad yn cadw at y gofynion hyn yn llym iawn, tra bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sy'n weddill (41% neu 13) wedi nodi eu bod yn eu dilyn yn weddol llym. Nid oedd y 6% (2) a oedd yn weddill yn gwybod neu ni wnaethant ymateb.

Yn yr un modd, manylodd staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg ar y gofynion o ran dilyniant academaidd a osodwyd gan eu sefydliad er mwyn i ddysgwyr

barhau i dderbyn taliadau GDLIC (AB). Tynnodd yr ymatebwyr sylw at 2 brif ofyniad a oedd yn ymwneud â:

- dilyniant i'r lefel astudio nesaf, yr ystyriwyd ei fod yn unol â chanllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru sy'n nodi nad yw dysgwyr yn gymwys i gael y grant os ydynt yn bwriadu astudio cwrs a oedd ar yr un lefel neu ar lefel is na chwrs yr oeddent wedi derbyn y grant ar ei gyfer yn flaenorol. Nododd rhai ymatebwyr eu bod wedi defnyddio rhywfaint o ddisgresiwn e.e. “Lle dangosir bod newid cwrs neu lefel yn cefnogi dilyniant gwirioneddol, yn enwedig gwella rhagolygon cyflogaeth, rydym yn caniatáu i gyllid barhau”
- disgwyliad y bydd dysgwyr yn cyflawni gofynion y cwrs, fel 'cwblhau gwaith', 'cwblhau eu hunedau' a 'chyflwyno gwaith erbyn y dyddiadau cau'.

Unwaith eto, roedd tua hanner yr ymatebwyr (50% neu 16) o'r farn bod eu sefydliad yn dilyn y gofynion hyn yn llym iawn, tra bo'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn weddill (34% neu 11) wedi nodi eu bod yn eu dilyn yn weddol llym.

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg (91% neu 29) yn ystyried bod y meini prawf presennol yn ymwneud â phresenoldeb a dilyniant ar gyfer dyfarnu'r grant yn briodol. Awgrymodd y rhai a gymerodd ran yn y grŵp ffocws a rhai rhanddeiliaid fod y garfan hon yn fwy brwdfrydig na'u cymheiriaid a oedd yn cael LCA, ac felly bod llai o broblemau'n ymwneud â phresenoldeb.

Roedd staff Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn aml yn dweud bod eu sefydliadau wedi cymryd camau breision yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella eu systemau mewnol eu hunain ar gyfer cofnodi presenoldeb dysgwyr, a oedd yn ei dro yn caniatáu iddynt wirio'n hawdd pa fyfyrwyr a oedd yn gymwys ar gyfer taliadau GDLIC (AB) a rhannu'r data hyn â'r SLC. Dywedodd un ohonynt:

> “Nawr gallaf glicio botwm… mae'n dweud wrtha i pwy sy'n gymwys i gael taliadau.”

Roedd llawer o ymgeiswyr (82%) yn teimlo bod dyfarnu'r grant ar sail presenoldeb yn briodol, ond roedd ychydig yn anghytuno â hynny (7%). Penderfynodd ychydig dros 6% (37 o ymatebwyr) esbonio pam yr oeddent yn credu bod dyfarnu'r grant ar sail presenoldeb yn amhriodol ac/neu awgrymu meini prawf eraill.

- Dylai anghenion ariannol ac amgylchiadau personol fod yn flaenoriaethau uchel. Mae hyn yn cynnwys pobl ar incwm isel, y rhai sy'n derbyn budd-daliadau, rhieni sengl, gofalwyr, a'r rhai sy'n wynebu anawsterau tai. Y farn gyffredin oedd bod yr heriau hyn yn aml yn effeithio ar bresenoldeb, felly byddai ystyried caledi ariannol yn uniongyrchol yn decach ac yn fwy buddiol.

  > “Ystyried cyfrifoldebau cartref eraill, fel bod yn brif ofalwr i rywun.”

- Thema bwysig arall oedd cydnabod ymrwymiad a chynnydd dysgwyr, gan nad yw presenoldeb yn unig yn cyfleu'r darlun cyfan. Awgrymodd pobl y dylid rhoi yr un faint o bwys ar ddangos ymdrech, cwblhau aseiniadau, a gwelliant dros amser ag a roddir

ar bresenoldeb. Nododd llawer rwystrau gwirioneddol fel problemau iechyd, heriau iechyd meddwl, dyletswyddau gofal plant, neu broblemau teithio a all atal presenoldeb rheolaidd.

> “Dydw i ddim yn meddwl ei bod hi’n briodol i’r lwfans GDLIC (AB) gael ei ddyfarnu ar sail presenoldeb yn unig. Er bod presenoldeb yn bwysig, mae llawer o fyfyrwyr yn wynebu rhwystrau fel salwch, anabledd, cyfrifoldebau gofalu, neu broblemau teithio a all effeithio ar eu gallu i fod yn bresennol bob dydd. Yn hytrach, dylai'r lwfans fod yn seiliedig ar ymrwymiad i ddysgu ac ymgysylltu â'r cwrs (e.e. cyflwyno gwaith, y cynnydd a wneir, neu'r ymdrech a ddangoswyd), gyda hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau dilys. Byddai hyn yn gwneud y cymorth yn decach ac yn fwy cynhwysol.”


- Nododd rhai o'r sylwadau fod gan wahanol fathau o gyrsiau, yn enwedig rhaglenni ESOL a rhan-amser, batrymau presenoldeb unigryw nad ydynt yn cyd-fynd â'r rheolau arferol. Ystyriwyd bod hyblygrwydd o ran y ffordd y caiff presenoldeb ei asesu ar draws y mathau hyn o gyrsiau yn bwysig.
- Awgrymodd ychydig o'r ymatebwyr y dylid cynnwys tiwtoriaid neu staff cymorth yn y broses o wneud penderfyniadau. Gan fod staff yn aml yn deall sefyllfaoedd dysgwyr yn well, gallai eu hargymhellion ychwanegu elfen o degwch a chyd-destun, gan helpu i nodi'r rhai sy'n haeddu cael cymorth hyd yn oed os yw lefel eu presenoldeb yn isel.
- Yn olaf, soniodd nifer llai am berfformiad academaidd fel ffactor posibl, gan awgrymu y gallai graddau neu ganlyniadau profion adlewyrchu ymrwymiad ac ymdrech.

## 7.3. Cytundebau Dysgu

Roedd llawer o staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg (75% neu 24 o ymatebwyr) yn ystyried bod Cytundebau Dysgu GDLIC (AB) a lofnodwyd rhwng eu sefydliad a derbynyddion y grant yn werthfawr iawn (50% neu 15 o ymatebwyr) neu'n weddol werthfawr (30% neu 9 o ymatebwyr). Dim ond 6% (2) oedd ddim yn ystyried eu bod yn werthfawr ac nid oedd gan weddill yr ymatebwyr farn y naill ffordd na'r llall neu nid oeddent yn gwybod. Roedd staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn credu'n gyffredinol fod Cytundebau Dysgu yn gweithio'n dda gan ailbwysleisio eu gwerth. Yn aml, cawsant eu disgrifio fel cytundebau digidol, a chredwyd bod hyn wedi helpu i symleiddio'r broses o'u cwblhau gan ddysgwyr.

Roedd y rhan fwyaf o dderbynyddion y grant a gymerodd ran yn yr arolwg (90%) yn cofio llofnodi Cytundeb Dysgu. Adroddodd llawer o'r derbynyddion hyn fod y coleg neu ddarparwr y cwrs wedi dilyn y gofynion presenoldeb a nodir yn y Cytundeb Dysgu yn llym iawn (58%) neu'n weddol llym (28%), fel y dangosir yn Ffigur 7.1. Roedd y rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol o nodi bod eu coleg neu ddarparwr eu cwrs yn dilyn y gofynion presenoldeb yn llym iawn.

**Ffigur 7.1: Pa mor llym y dilynodd colegau neu ddarparwyr cyrsiau'r gofynion presenoldeb yn y Cytundebau Dysgu**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod 58% o dderbynyddion y grantiau o'r farn bod y gofynion presenoldeb a osodwyd gan eu sefydliad dysgu yn llym iawn.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=458.

Pan ofynnwyd iddynt awgrymu newidiadau neu welliannau i'r Cytundebau Dysgu, fe wnaeth tua hanner y derbynyddion a atebodd y cwestiwn awgrymu gwelliannau penodol tra bod y lleill yn teimlo nad oedd angen unrhyw newid. Roedd y themâu ar gyfer gwelliannau'n gysylltiedig â:

- rheolau presenoldeb a hyblygrwydd. Y thema a gododd amlaf oedd pryder ynghylch y gofyniad presenoldeb llym. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid dangos mwy o drugaredd tuag at fyfyrwyr â phroblemau iechyd, anableddau, cyfrifoldebau gofalu, neu absenoldebau anochel eraill. Roedd rhai eisiau i bolisïau presenoldeb adlewyrchu ymgysylltiad gwirioneddol yn hytrach na chanrannau anhyblyg

  > "Rhowch rywfaint o hyblygrwydd yn y canllawiau presenoldeb oherwydd amgylchiadau iechyd neu amgylchiadau cartref annisgwyl."

- symleiddio ac eglurder. Gofynnodd sawl ymatebydd am esboniadau cliriach o ofynion a chanlyniadau (e.e., beth sy'n digwydd os na chyflawnir targedau presenoldeb neu gynnydd). Awgrymodd eraill iaith symlach, a chanllawiau cliriach adeg llofnodi'r cytundebau

  > "Rwy'n credu y gallai Cytundeb Dysgu GDLIC (AB) fod yn gliriach ac yn haws ei ddeall. Byddai'n braf pe bai'n fwy hyblyg er mwyn ystyried anghenion unigol ac yn cynnwys gwiriadau rheolaidd i weld sut mae pethau'n mynd."

- cyfathrebu a chefnogaeth. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i gyfathrebu'n gliriach ynghylch llofnodi'r cytundeb ac ynghylch amserlenni talu. Roedd awgrymiadau'n cynnwys nodiadau atgoffa, gwirio cynnydd, neu systemau olrhain

ceisiadau. Roedd rhai eisiau gweld mwy o gymorth i fyfyrwyr sy'n cael anawsterau gydag iechyd meddwl, gorbryder, neu sy'n wynebu rhwystrau eraill

- gwelliannau gweinyddol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cyhoeddi cytundebau'n gyflymach, caniatáu i fyfyrwyr reoli'r broses drwy gyfrifon ar-lein, osgoi gwallau'n ymwneud â chyhoeddi'r cytundeb anghywir a mwy o dryloywder o ran y ffordd y gwneir penderfyniadau.

## 7.4. Taliadau grant

Nododd llawer o dderbynyddion (84%) eu bod wedi derbyn eu taliadau grant tymhorol ar amser, tra bod cyfran fach (13%) wedi'u derbyn ar amser yn y rhan fwyaf o achosion. Dim ond nifer bach iawn a nododd nad oeddent wedi derbyn taliadau ar amser. Roedd y rhai 21 oed ac iau yn llai tebygol o nodi eu bod wedi derbyn eu taliadau grant ar amser ym mhob achos.

Dywedodd lleiafrif o dderbynyddion y grant y bu problemau gyda'r system talu grantiau a/neu fe wnaethant awgrymu gwelliannau. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys:

- gwneud newidiadau i amlder ac amseriad y taliadau. Mynegodd derbynyddion y grantiau awydd i gael taliadau amlach (e.e., bob mis, bob pythefnos, neu bob wythnos yn lle bob tymor). Roedd yn well gan rai rannu taliadau yn symiau llai i'w helpu i gyllidebu a'u hatal rhag gorwario. Roedd galwadau hefyd am daliadau cynharach ar ddechrau'r tymor i dalu costau hanfodol fel teithio, cyfarpar a gwisgoedd. Yn achlysurol, dywedodd y derbynyddion fod eu taliadau wedi bod yn hwyr neu nad oeddent wedi derbyn taliad. Roedd derbynyddion eraill wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r dystiolaeth ofynnol a bu oedi gyda'u taliadau cychwynnol o ganlyniad i hynny.

  > "Gellid gwneud taliadau'n amlach, fel bob mis yn lle bob tymor, i helpu gyda chostau byw rheolaidd."

  > "Oherwydd yn y tymor cyntaf, ches i ddim taliad gan i mi orfod treulio cymaint o amser yn ceisio profi fy mod i'n gymwys."

- cyflwyno taliadau rhannol (yn hytrach na cholli'r taliad cyfan) pan fydd presenoldeb fymryn yn is na'r gofynion. Argymhellodd rhai hyblygrwydd wrth asesu hawlogaeth, gan nodi nad yw incwm aelwyd bob amser yn golygu bod gan fyfyriwr fynediad personol at arian. Roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen i sicrhau nad yw unrhyw wallau gweinyddol wrth gofnodi presenoldeb yn effeithio ar daliadau
- gwella'r trefniadau gweinyddol a'r cyfathrebu. Weithiau roedd oedi cyn derbyn taliadau yn cael ei briodoli i gyfathrebu gwael rhwng colegau, myfyrwyr a gweinyddwyr y grantiau. Gofynnwyd am wybodaeth gliriach am ddyddiadau a symiau talu, a fyddai'n cael ei darparu ar ddechrau'r flwyddyn yn ddelfrydol

  > "Byddai dadansoddiad ymlaen llaw o symiau a dyddiadau taliadau o fudd mawr i'r unigolyn o ran rheoli arian drwy gydol y flwyddyn."

> “Roedd oedi gyda'r taliad cychwynnol ar y cais cyntaf gan nad oedd y coleg/[tîm y grantiau]/myfyriwr yn cyfathrebu'n iawn â'i gilydd.”

- cynyddu swm y grant. Awgrymodd rhai y dylid cynyddu symiau’r grant, gan gyfeirio at y cynnydd mewn costau byw, pris tanwydd, costau tai a phrisiau bwyd. Roedd rhai yn teimlo y dylai myfyrwyr rhan-amser gael mwy o gefnogaeth ac y dylid graddio'r taliadau’n decach yn ôl amgylchiadau’r aelwyd.

> “Dydw i ddim yn teimlo bod y cyllid yn cyfateb i gostau byw ac mae angen iddo fod yn uwch i gefnogi hyn.”

- sicrhau nad yw oedi gyda thaliadau yn arwain at galedi ariannol. Disgrifiodd nifer bach o dderbynyddion galedi ariannol a achoswyd yn sgil oedi cyn cael taliadau, gan gynnwys benthyca arian, anawsterau o ran talu am ofal plant, a dod o fewn trwch blewyn i roi’r gorau i’w cwrs
- sicrhau nad yw ffactorau allanol fel gwyliau banc, galw mawr a dyddiadau dechrau tymor gwahanol rhwng sefydliadau yn arwain at oedi gyda thaliadau.

# 8. Pwysigrwydd y GDLIC (AB)


Mae'r adran hon yn ystyried defnydd a phwysigrwydd y GDLIC (AB), ac mae'n seiliedig ar farn derbynyddion llwyddiannus, ymgeiswyr aflwyddiannus ac adborth a gasglwyd gan staff Canolfannau Dysgu a gwblhaodd yr arolwg ac a gymerodd ran mewn trafodaethau ansoddol.

## 8.1. Y defnydd o'r GDLIC (AB)

Yn bennaf, nododd derbynyddion y grantiau eu bod wedi gwario’r grant ar ddeunyddiau cwrs (64%), bwyd a chostau byw bob dydd (62%) a theithio yn ôl ac ymlaen i'r coleg neu ddarparwr eu cwrs (56%). Nododd lleiafrif hefyd eu bod wedi gwario'r grant ar gyfarpar digidol neu fynediad i'r rhyngrwyd (33%) neu gymorth gyda biliau cartref (30%). Nododd llai o ymatebwyr iddynt wario'r grant ar gostau eraill megis costau tai (19%), dillad (18%) a chostau gofal plant (12%). Mae Ffigur 8.1 yn rhoi trosolwg o'r gwariant hwn. Roedd enghreifftiau ehangach eraill a ddarparwyd gan ychydig o ymgeiswyr yn cynnwys gwersi gyrru, cefnogi eu teulu a ffioedd cwrs.

Roedd y rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol o wario eu grant ar filiau cartref, offer digidol neu fynediad i'r rhyngrwyd, costau tai a chostau gofal plant. Roedd y rhai a oedd yn gofalu am aelodau o'r teulu a'r rhai â phlant hefyd yn fwy tebygol o wario'r grant ar filiau cartref. Roedd gofalwyr a'r rhai â phlant hefyd yn fwy tebygol o wario'r grant ar offer digidol a mynediad i'r rhyngrwyd.

**Ffigur 8.1: Ar beth mae derbynyddion yn gwario eu grant fel arfer**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod y derbynyddion wedi defnyddio'r grant yn bennaf i dalu am ddeunyddiau cwrs, bwyd a chostau byw bob dydd, yn ogystal â theithio.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=459.

Mynegodd y 31 o ymgeiswyr aflwyddiannus am y grant a ddilynodd eu cwrs farn debyg, gan nodi, oherwydd nad oeddent wedi derbyn y grant, eu bod yn ei chael hi'n anodd talu am deithio yn ôl ac ymlaen i'r coleg (65%), deunyddiau cwrs (65%) a bwyd a chostau byw bob dydd (61%). Fel y dangosir yn Ffigur 8.2, roeddent hefyd yn ei chael hi'n anodd talu am gymdeithasu a mynd allan gyda ffrindiau (39%), offer digidol neu fynediad i'r rhyngrwyd (35%), costau tai (29%) a dillad (29%). Adleisiwyd y safbwyntiau hyn gan y 9 ymgeisydd aflwyddiannus na wnaethant ddilyn eu cwrs; nododd 8 fod ganddynt bryderon ynghylch sut y byddent yn talu am deithio, mynegodd 4 bryderon ynghylch talu am ddeunyddiau cwrs, roedd gan 4 bryderon am dalu am fwyd a chostau byw bob dydd ac roedd gan 4 bryderon am dalu am offer digidol neu fynediad i'r rhyngrwyd.

**Ffigur 8.2: Pethau yr oedd yn anodd i ymgeiswyr aflwyddiannus dalu amdanynt heb y grant**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod ymgeiswyr aflwyddiannus wedi ei chael hi'n anodd talu am deithio, deunyddiau cwrs a bwyd a chostau byw bob dydd.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=31.

Yn aml, nododd staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod dysgwyr yn dibynnu ar y grant i helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'u cwrs megis teithio, offer a dillad. Soniwyd yn aml hefyd fod dysgwyr yn defnyddio'r grant i dalu am eitemau hanfodol:

> "Yn aml, rydyn ni'n cael myfyrwyr yn dod i mewn yn ysu am wybod pryd mae'r taliad nesaf yn ddyledus."

Ni wnaeth staff Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws awgrymu bod y GDLIC (AB) yn cael ei ddefnyddio i dalu ffioedd cwrs gan nad yw'r rhain fel arfer yn cael eu codi ar dderbynyddion y grant o aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, nodwyd bod yn rhaid i ddysgwyr dalu tâl gweinyddol bach yn gysylltiedig â chofrestru ar gyrsiau, ac roedd rhai yn ei chael hi'n anodd talu hwn, gan nad oeddent wedi derbyn y GDLIC (AB) ar y pryd.


## 8.2. Pwysigrwydd y GDLIC (AB)

Yn nodweddiadol, roedd derbynyddion y grant yn dweud bod y grant yn bwysig iawn iddynt yn ystod eu hastudiaethau. Fel y dangosir yn Ffigur 8.3, roedd llawer (80%) yn teimlo bod y grant yn hanfodol tra roeddent yn astudio, gyda lleiafrif pellach (18%) yn dweud ei fod yn weddol bwysig. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o nodi bod y grant yn hanfodol

iddynt, ac felly hefyd y rhai 21 oed ac iau, ond nododd y rhai a oedd â phrofiad o ofal ei fod yn llai hanfodol.

Roedd mwyafrif (69%) hefyd yn teimlo ei fod yn hanfodol er mwyn eu helpu i dalu costau cynyddol eitemau hanfodol, gyda lleiafrif pellach (18%) yn dweud ei fod yn weddol bwysig. Roedd rhai grwpiau o ymgeiswyr yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud bod y grant yn hanfodol oherwydd costau cynyddol, gan gynnwys dysgwyr 25 oed a hŷn, y rhai â phlant, y rhai ag ADY a ffoaduriaid. Roedd dysgwyr rhan-amser yn llai tebygol o nodi bod y grant yn hanfodol i dalu costau cynyddol.

**Ffigur 8.3: Pwysigrwydd y grant i dderbynyddion**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod llawer o dderbynyddion yn ystyried y grant yn ffynhonnell incwm hanfodol iddynt wrth astudio a'i fod yn bwysig ar gyfer talu costau byw cynyddol.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=457 ar gyfer y cwestiwn cyntaf, n=460 ar gyfer yr ail gwestiwn.

Roedd adborth gan staff y Canolfannau Dysgu yn ategu'r canfyddiadau hyn, gyda llawer o ymatebwyr i'r arolwg (88% neu 28 o blith 32) o'r farn bod y grant naill ai'n bwysig iawn neu'n weddol bwysig i alluogi'r dysgwr i ymdopi â'r pwysau ariannol y gallent eu hwynebu oherwydd eu hastudiaethau. Ychwanegodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fod y grant yn gwneud gwahaniaeth mawr i ddysgwyr, gan ddweud y gall fod yn gyfraniad defnyddiol i'r dysgwyr hynny sy'n dychwelyd i addysg er mwyn ailhyfforddi neu newid cyfeiriad eu gyrfa:

> "Mae gennym bobl sy'n rhoi'r gorau i'w swyddi er mwyn dilyn cwrs a mynd i faes gwahanol – maen nhw'n dibynnu ar hyn."

Nododd ymgeiswyr aflwyddiannus am y grant (a ddilynodd eu cwrs) hefyd y byddai derbyn grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr iddynt yn y rhan fwyaf o achosion (61%), neu ychydig o wahaniaeth mewn lleiafrif o achosion (39%). Roedd llawer hefyd yn teimlo y byddai'r grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr (58%) neu ychydig o wahaniaeth (26%) i'w gallu i dalu costau cynyddol.

O ganlyniad, teimlai llawer o'r derbynyddion y byddai wedi bod yn anodd iawn (43%) neu'n weddol anodd (27%) talu am gostau sy'n gysylltiedig ag astudio heb y grant. Roedd ychydig yn teimlo y byddai wedi bod yn hawdd iawn (10%) neu'n hawdd (6%). Roedd y rhai 25 oed a throsodd yn fwy tebygol o nodi y byddai wedi bod yn anodd iawn, tra bod dynion a'r rhai â phrofiad o ofal yn llai tebygol o ddweud hynny. Roedd llawer (90%) o'r ymgeiswyr aflwyddiannus (a ddilynodd eu cwrs) yn cytuno y byddai cael y grant wedi ei gwneud hi'n llawer haws talu am gostau'n gysylltiedig ag astudio.

# 9. Effaith y GDLIC (AB)

Mae'r adran hon yn ystyried barn yr ymgeiswyr yn ogystal â staff Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd ynghylch effaith y cynllun grant ar benderfyniadau i gofrestru ar gyrsiau, lefelau presenoldeb, ymgysylltiad â chyrsiau, a chyfraddau cwblhau cyrsiau.


## 9.1. Yr effaith ar benderfyniadau i gofrestru ar gwrs, presenoldeb ac ymgysylltu

Roedd llawer o dderbynyddion y grant o'r farn bod y posibilrwydd o dderbyn y grant wedi chwarae rhan bwysig iawn (46%) neu ran gweddol bwysig (27%) yn eu penderfyniad i gofrestru ar eu cwrs yn y lle cyntaf. Roedd ychydig (10%) yn teimlo nad oedd wedi chwarae rhan bwysig yn hynny o beth. Roedd y rhai 25 oed a throsodd, yn ogystal â ffoaduriaid, yn fwy tebygol o nodi ei fod yn bwysig iawn i'w penderfyniad. Fodd bynnag, fel y gwelir yn Ffigur 9.1, dywedodd mwyafrif derbynyddion y byddent yn bendant (32%) neu fwy na thebyg (29%) wedi cofrestru ar eu cyrsiau beth bynnag pe na baent wedi derbyn y grant, gan awgrymu bod ffactorau eraill wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau hefyd. Roedd y rhai 25 oed a throsodd, y rhai â phrofiad o ofal a ffoaduriaid yn fwy tebygol o nodi y byddent yn bendant wedi cofrestru ar eu cwrs beth bynnag.

Mae data'r arolwg yn dangos bod 70% o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi dechrau a pharhau â'u cwrs er gwaetha'r ffaith na wnaethant dderbyn y grant. Ni wnaeth nifer bach o ymgeiswyr aflwyddiannus (9) ddechrau ar eu cwrs na pharhau ag ef a rhoddwyd amrywiaeth o resymau am hynny. Roedd y rhain yn cynnwys methu â fforddio'r cwrs, heriau gyda'r cwrs (megis colli diddordeb neu fwynhad), anhawster i fynychu'n rheolaidd, yr amser yr oeddent yn ei dreulio ar ymrwymiadau eraill neu ddechrau swydd. Dywedodd pob un ond 1 o'r 9 hefyd eu bod wedi bod yn poeni (llawer neu ychydig) ynghylch sut y byddent yn ymdopi'n ariannol pe byddent wedi parhau i astudio. Dywedodd lleiafrif bach y bu eu ceisiadau'n aflwyddiannus ac na pharhaodd â'u cwrs (2 o blith 9) y byddent fwy na thebyg neu'n bendant wedi parhau â'u cwrs pe baent wedi derbyn y grant.

Ar y llaw arall, roedd derbyn y grant yn aml yn gwneud derbynyddion yn fwy tebygol o fynychu eu lleoliad astudio yn fwy rheolaidd (63% yn bendant ac 20% yn ôl pob tebyg) a rhywfaint yn fwy tebygol o wneud yn dda yn academaidd (48% yn bendant a 27% yn ôl pob tebyg). Roedd dysgwyr 25 oed a throsodd yn fwy tebygol o nodi bod y grant yn bendant wedi eu helpu i fynychu'n fwy rheolaidd. Roedd dysgwyr 25 oed a throsodd, ffoaduriaid a'r rhai sy'n gofalu am aelodau o'r teulu hefyd yn fwy tebygol o nodi y byddai'r grant yn bendant yn eu cefnogi i wneud yn dda yn academaidd.

**Ffigur 9.1: Effaith y grant ar benderfyniadau cofrestru, presenoldeb a chyflawniad academaidd y derbynnydd**





Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod derbynyddion o'r farn bod y grant wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar eu presenoldeb ac effaith eithaf cadarnhaol ar eu llwyddiant academaidd. Byddai mwyafrif y derbynyddion wedi cofrestru beth bynnag yn absenoldeb y grant.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=458, n=457, n=456 ar gyfer pob cwestiwn yn y drefn honno.

Fel y dangosir yn Ffigur 9.2, mynegodd yr ymgeiswyr aflwyddiannus (a ddechreuodd ar eu cwrs) farn gadarnhaol ychydig yn fwy cynnil ynghylch effaith bosibl y grant ar eu presenoldeb a'u cyflawniad academaidd. Teimlai lleiafrif (35%) y byddai'r grant yn bendant wedi'u helpu i fynychu eu man astudio yn fwy rheolaidd, tra bod lleiafrif (29%) yn teimlo y byddai wedi gwneud hynny'n ôl pob tebyg. Yn yr un modd, roedd lleiafrif (35%) yn teimlo y byddai'r grant yn bendant wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad academaidd, tra bod lleiafrif (32%) yn meddwl y byddai fwy na thebyg wedi gwneud hynny.

**Ffigur 9.2: Barn ymgeiswyr aflwyddiannus ar effaith bosibl y grant ar bresenoldeb a chyflawniad academaidd**



Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod lleiafrif yr ymgeiswyr aflwyddiannus o'r farn y byddai'r grant wedi cael effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb a'u cyflawniad academaidd.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=31.

Ategwyd y canfyddiadau hyn gan ddata arolwg staff y Canolfannau Dysgu, gyda llawer o staff yn nodi bod y grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr (50% neu 16 o blith 32 o ymatebwyr) neu rywfaint o wahaniaeth (31% neu 10 o ymatebwyr) i lefelau presenoldeb y derbynyddion. Ailadroddodd staff y grŵp ffocws y farn bod y grant yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb y derbynyddion, o ystyried y cysylltiad amodol rhwng presenoldeb a thaliad a oedd yn atgyfnerthu arferion cadarnhaol:

> "Rydym wedi gweld presenoldeb yn cynyddu ar ôl iddynt sylweddoli y goblygiadau o beidio â chael eu harian."

Fodd bynnag, cododd un aelod o staff bryderon ynghylch achosion lle roedd dysgwyr yn mynychu am bythefnos cyntaf y flwyddyn academaidd yn unig cyn ymddieithrio ar ôl derbyn y taliad cychwynnol, gan awgrymu y gallai amseriad y taliad grant annog myfyrwyr, yn anfwriadol, i roi'r gorau i'w cwrs yn gynnar yn hytrach na pharhau i ymgysylltu.

Roedd gan staff hefyd farn gadarnhaol ynglŷn ag effaith y grant ar lefelau ymgysylltu'r derbynyddion, ond i raddau llai: teimlai 25% (8 o blith 32) o staff ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr, tra y dywedodd 44% (14) ei fod wedi gwneud ychydig o wahaniaeth. Tynnodd staff sylw at bwysigrwydd y grant wrth helpu dysgwyr i dalu am gludiant ac fel cyfraniad at gostau cyrsiau fel llyfrau, offer a dillad. Darparwyd rhai enghreifftiau gan y rhai a gyfrannodd at y grwpiau ffocws, lle roedd y grant yn gwneud gwahaniaeth i ddysgwyr o ran gallu canolbwyntio ar eu haddysg heb y pwysau ariannol uniongyrchol a allai fel arall eu gorfodi i chwilio am waith llawnamser.

> "Rydym yn gweld yn uniongyrchol y gwahaniaeth mae'n ei wneud… ni fyddai un myfyriwr, sy'n dad i dri o blant, yn dilyn y cwrs oni bai am y grant."

Er na allai rhanddeiliaid eraill wneud sylwadau ar sut y mae'r grant yn effeithio ar bresenoldeb neu ymgysylltiad, roeddent yn fwy gochelgar ynghylch ei ddylanwad ar benderfyniadau dysgwyr i gofrestru yn y lle cyntaf. Nodwyd, oherwydd bod y grant yn gymharol fach (yn enwedig o'i gymharu â chymorth addysg uwch), ei bod yn debygol mai dim ond effaith gyfyngedig a gaiff ar benderfyniadau o'r fath.

## 9.2. Yr effaith ar gyfraddau cwblhau cyrsiau

Roedd bron pob un o'r derbynyddion grant a gymerodd ran yn yr arolwg naill ai wedi cwblhau eu cwrs (78%) neu roedd eu cwrs yn dal i fynd rhagddo (16%). Ychydig iawn (3%) a oedd wedi gadael eu cwrs yn gynnar. Yn yr un modd, roedd bron pob ymgeisydd aflwyddiannus wedi cwblhau ei gwrs (74%) neu roedd y cwrs yn dal i fynd rhagddo (19%). Roedd llawer o staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn bod y grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr (41% neu 13) neu ychydig o wahaniaeth (41% neu 13) i

allu'r derbynnydd i barhau â'i gwrs a'i gwblhau. Tynnodd un ymatebydd o’r fath sylw at y canlynol:

> “Mae dysgwyr GDLIC ar incwm isel ac yn yr hinsawdd ariannol bresennol mae'r grant yn sicr yn eu helpu rhywfaint i aros yn y coleg, boed hynny drwy helpu gyda chostau teithio i'r campysau neu gyda chostau cwrs, llyfrau, dillad ac ati”

Ymhlith y nifer bach o dderbynyddion y grant a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd wedi gadael eu cwrs yn gynnar, roedd eu rhesymau'n cynnwys pryderon ynghylch iechyd corfforol neu feddyliol, annigonolrwydd canfyddedig yn y coleg neu’r cwrs, costau a chyfrifoldebau gofal plant, ac anawsterau personol gartref. Nododd yr ymgeiswyr aflwyddiannus a ddechreuodd ar eu cwrs ond a adawodd cyn ei gwblhau ddiffyg diddordeb yn y cwrs hefyd fel rheswm.

# 10. Dilyniant

Mae'r adran hon yn ystyried dilyniant derbynyddion y grant, a'r hyn y mae ymgeiswyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi'i wneud ers hynny mewn perthynas ag unrhyw addysg bellach neu addysg uwch.

## 10.1. Beth wnaeth yr ymgeiswyr ar ôl cwblhau neu adael eu cwrs

Gofynnwyd i dderbynyddion y grantiau a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu wedi gadael y cwrs yn gynnar (cyfanswm o 373 o ymatebwyr) a oeddent wedi mynd ymlaen i ddilyn cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall ar ôl iddynt gwblhau neu adael y cwrs yr oeddent wedi derbyn y GDLIC (AB) ar ei gyfer, ac ar ba lefel oedd y cwrs neu'r cymhwyster hwnnw. Roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:


- dywedodd 58% o'r derbynyddion a oedd wedi cwblhau neu wedi gadael eu cwrs eu bod wedi mynd ymlaen i ddilyn cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall ers hynny
- ac eithrio'r rhai a oedd yn bwriadu astudio cymhwyster ESOL pan wnaethant gais am y grant [troednodyn 19], aeth cyfran ychydig yn uwch, sef 60%, o weddill derbynyddion y grant a oedd wedi cwblhau neu wedi gadael eu cwrs ymlaen i astudio cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall. O blith y rhain, nododd dwy ran o bump eu bod wedi mynd ymlaen i astudio cwrs lefel uwch (sy'n cyfateb i chwarter holl dderbynyddion y grant ac eithrio'r rhai a astudiodd gwrs ESOL)
- o ran y rhai a astudiodd ESOL, aeth 47% o'r rhai a oedd wedi cwblhau neu wedi gadael eu cwrs ymlaen i astudio cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall.

Fel y gwelir yn Ffigur 10.1, roedd mwyafrif derbynyddion y grant a nododd eu bod wedi mynd ymlaen i astudio cwrs arall ers cwblhau neu adael eu cwrs GDLIC (AB) bellach yn astudio cymwysterau ar Lefel 3 neu is. Yn fwyaf cyffredin, roedd derbynyddion y grant wedi symud ymlaen i astudio cymhwyster Lefel 3 (24%), tra bo eraill wedi symud ymlaen i astudio cymhwyster Lefel 2 (19%), Lefel 1 (13%) neu Lefel Mynediad (8%). O ystyried bod cyrsiau hyd at Lefel 3 yn gymwys i gael cyllid gan y GDLIC (AB), mae'n debygol bod rhai ymatebwyr wedi cynnwys cyrsiau sy'n gysylltiedig â dilyniant a oedd hefyd yn cael eu hariannu drwy'r GDLIC (AB) wrth ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd lleiafrif wedi mynd ymlaen i astudio cymwysterau Lefel 4 neu uwch, yn benodol cymwysterau Lefel 4 (12%) a Lefel 6 (14%). Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o fod wedi mynd ymlaen i astudio cymwysterau lefel uwch (Lefel 6 neu 7).

[19] Nid oedd data ar gael ar lefelau cyrsiau ESOL ac felly ni ellir cyfrifo dilyniant i gyrsiau lefel uwch ar gyfer derbynyddion sy'n astudio cyrsiau ESOL.

**Ffigur 10.1: Cymwysterau pellach a astudiwyd gan dderbynyddion y grant a oedd wedi symud ymlaen i ddilyn cymhwyster pellach ers cwblhau neu adael cwrs a ariannwyd gan y GDLIC (AB)**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod mwyafrif derbynyddion y grant a oedd wedi mynd ymlaen i astudio cymhwyster pellach ar ôl cwblhau neu adael cwrs a ariannwyd gan GDLIC (AB) wedi astudio cwrs Lefel 3 neu is.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=216 a oedd wedi mynd ymlaen i astudio cymhwyster pellach ar ôl cwblhau eu cwrs.

Roedd mwyafrif staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu bod y grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr (41% neu 13) neu rywfaint o wahaniaeth (22% neu 7) i ddilyniant y derbynyddion i astudiaethau addysg bellach. Roedd tua'u hanner hefyd o'r farn bod y grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr (41% neu 13) neu rywfaint o wahaniaeth (16% neu 5) i ddilyniant y derbynyddion i astudiaethau addysg uwch. Tynnodd rhai o’r ymatebwyr i’r arolwg sylw at y ffaith na fyddai mynd ymlaen i addysg bellach yn opsiwn i dderbynyddion yn eu sefydliad nhw, fel yn achos coleg preswyl i oedolion ag ADY.

Dehonglwyd y mater hwn mewn sawl ffordd gan staff y Canolfannau Dysgu a fynychodd drafodaethau grŵp ffocws. Yn gyntaf, credwyd bod gan y GDLIC (AB) rôl bwysig o ran “cadw dysgwyr ar yr ysgol addysg”, yn enwedig dysgwyr iau a oedd yn symud o'r LCA i'r GDLIC (AB). Yn ail, ystyriwyd ei bod yn briodol mai dim ond os oedd dysgwyr yn dangos dilyniant o ran eu hastudiaethau addysg bellach, naill ai o gwrs lefel is i gwrs lefel uwch, neu'n ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau, fel astudio cwrs harddwch Lefel 2 ar ôl cwblhau cwrs trin gwallt Lefel 3, yr oedd y GDLIC (AB) yn cael ei ddyfarnu i ddysgwyr dros flynyddoedd academaidd olynol. Yn drydydd, roedd y staff o'r farn bod y grant hefyd yn cefnogi dilyniant derbynyddion i addysg uwch a chyflogaeth, a bod y llwybr a ddilynwyd yn aml yn cael ei bennu gan y cwrs yr oedd dysgwyr wedi'i astudio. Er enghraifft, yn aml y credwyd bod y derbynyddion a oedd yn astudio cyrsiau sgiliau bywyd yn canolbwyntio ar

baratoi ar gyfer cyflogaeth, tra bo'r rhai a oedd yn astudio cyrsiau mynediad yn aml yn symud ymlaen i addysg uwch, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol fel nyrsio.

Nododd rhai staff hefyd fod nifer cynyddol o ddysgwyr yn eu sefydliad yn gorfod ailadrodd cwrs ar yr un lefel dros ddwy flynedd yn olynol ac felly nid oeddent yn gymwys i gael y grant. Er enghraifft, dywedodd un bod gan y coleg:

> “fwy o fyfyrwyr sy'n dychwelyd, sydd wedi astudio ar yr un lefel o’r blaen, felly nid ydynt yn gymwys i gael y grant.”

Trafododd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws y gwahanol lwybrau dilyniant a ddilynwyd gan fyfyrwyr ESOL. Nodwyd bod gan rai dysgwyr, gan gynnwys llawer o ffoaduriaid, eisoes gymwysterau ar lefel uchel yn eu gwledydd eu hunain ond bod angen iddynt wella eu Saesneg er mwyn cael gwaith yn eu maes nhw. Gwelwyd bod eraill yn defnyddio cyrsiau a ariannwyd gan GDLIC (AB) fel cam tuag at faes astudio newydd:

> “Ar ôl iddyn nhw gwblhau'r ESOL, maen nhw’n ceisio mynd i faes lle y gallant astudio cwrs da a chael swydd.”

Roedd hefyd yn wir bod dysgwyr ESOL yn gwneud cynnydd ystyrlon drwy addysg a chymdeithas, ac amlygodd staff fod ffoaduriaid weithiau’n gwneud cynnydd cyflymach na’r disgwyl:

> “Mae yna ddilyniant go iawn – o ran iaith, hyder ac integreiddio. Mae'n caniatáu iddyn nhw ddod yn aelodau gweithredol o gymdeithas a chael mynediad at gyflogaeth.”

Roedd un rhanddeiliad yn llai argyhoeddedig bod myfyrwyr ESOL a oedd yn derbyn y grant yn symud ymlaen i addysg bellach neu uwch ar ôl cwblhau eu cwrs, gan awgrymu nad oedd y GDLIC (AB) yn cyflawni ei amcanion yn hyn o beth.


Gofynnwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus a oedd wedi dechrau ar eu cwrs p'un a oeddent wedi mynd ymlaen i ddilyn cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall wedi hynny, ac ar ba lefel. O'r nifer bach o ymgeiswyr aflwyddiannus a ddechreuodd ar eu cyrsiau ac sydd wedi'u cwblhau neu wedi gadael yn gynnar ers hynny (25), nododd tua dwy ran o bump (10) eu bod wedi mynd ymlaen i ddilyn cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall ers cwblhau neu adael y cwrs. Roedd pump o'r cyrsiau neu'r cymwysterau hyn ar lefel uwch na'r cwrs yr oeddent wedi gwneud cais am gyllid GDLIC (AB) ar ei gyfer. Er bod y cyfrannau hyn yn is nag ar gyfer derbynyddion y grant, mae'r gwahaniaeth rhwng nifer cyffredinol derbynyddion y grant a'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn ei gwneud hi'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol. O ran ymgeiswyr aflwyddiannus a aeth ymlaen i astudio, astudiodd 4 gyrsiau ar Lefel 3 neu is, ac aeth 6 ymlaen i astudio cyrsiau ar Lefel 4 neu uwch.

## 10.2. Beth oedd y derbynyddion yn ei wneud adeg yr arolwg

Rhoddodd derbynyddion y grant a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu wedi gadael eu cwrs yn gynnar wybodaeth am yr hyn yr oeddent yn ei wneud adeg yr arolwg. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (54%) yn dal i astudio. Fel y dangosir yn Ffigur 10.2, roedd y dysgwyr hyn wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rhai a oedd yn ymgymryd â chymwysterau addysg bellach

a'r rhai a oedd yn ymgymryd â chymwysterau addysg uwch. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r data yn ôl math o gymhwyster, gan ei bod yn debygol bod nifer o ymatebwyr wedi camddeall neu wedi cam-adrodd lefel y cymhwyster yr oeddent yn ei astudio. Yn llai aml, roedd derbynyddion a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu a adawodd eu cwrs yn gynnar hefyd yn nodi eu bod yn gweithio'n rhan-amser (16%) neu'n llawnamser mewn swydd â thâl (12%), yn ddi-waith ac yn chwilio am waith (15%) neu ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am waith (12%) er enghraifft oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Roedd y rhai rhwng 22 a 24 oed yn llai tebygol o fod yn astudio ar gyfer cymhwyster addysg bellach ac yn fwy tebygol o fod yn astudio ar gyfer cymhwyster addysg uwch. Roedd y rhai â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn astudio tuag at gymhwyster addysg bellach neu uwch. Roedd y rhai a oedd yn gofalu am aelod o'r teulu hefyd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn astudio ar gyfer cymhwyster addysg bellach, ac felly hefyd ffoaduriaid.

**Ffigur 10.2: Beth oedd derbynyddion y grant a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu a adawodd eu cwrs yn gynnar yn ei wneud adeg yr arolwg**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod derbynyddion y grant a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu wedi gadael eu cwrs yn gynnar yn fwyaf tebygol o fod yn astudio ar gyfer cymhwyster addysg bellach neu uwch adeg yr arolwg.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=459.

# 11. Cymhwystra ar gyfer y GDLIC (AB) a gwerth y cymorth

Mae'r adran hon yn ystyried barn ymgeiswyr a staff Canolfannau Dysgu ynghylch y cymhwystra i dderbyn y grant, gwerth y grant ac amlder y taliadau.

## 11.1. Meini prawf cymhwystra y grant

### 11.1.1. Trothwy incwm aelwydydd

Ar hyn o bryd, mae dysgwyr llawnamser:

- sydd ag incwm aelwyd o £6,120 neu lai yn gymwys i gael uchafswm y grant, sef £1,919
- sydd ag incwm o hyd at £12,235 yn gymwys i gael £959
- sydd ag incwm o hyd at £18,370 yn gymwys i gael grant o £576.

Mae gan ddysgwyr rhan-amser hawl i swm cymesur.

Roedd staff y Canolfannau Dysgu o'r farn bod y trothwyon incwm aelwydydd hyn yn rhy isel a dyma'r prif fater a godwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fel ei gilydd. O'r rhai a holwyd, roedd y mwyafrif (66%, neu 21 o blith 32) o'r farn bod y trothwyon yn rhy isel. Roedd ychydig (19% neu 6) o'r farn eu bod ar y lefel iawn ac roedd un o'r farn na ddylid gosod unrhyw drothwy. Roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws o'r farn mai'r ffaith bod y trothwyon wedi'u rhewi oedd y prif reswm dros y gostyngiad yn nifer derbynyddion y grant dros amser. Nodwyd fod hyd yn oed llawer o'r teuluoedd ar yr incwm isaf bellach uwchlaw'r trothwy incwm o £18,370. O ganlyniad, ystyrir bod grŵp mwy o ddysgwyr yn methu â chymhwyso ar gyfer cymorth "o drwch blewyn" er gwaethaf y ffaith eu bod yn wynebu caledi ariannol.

> "Mae'r trothwy wedi'i osod mor isel fel ei fod yn atal nifer sylweddol o ddarpar ddysgwyr rhag mynd i'r coleg… mae'r trothwy'n rhwystr i lawer sy'n awyddus i ddychwelyd i fyd addysg."

> "Mae'r terfyn presennol wedi aros yr un fath er gwaethaf y cynnydd mewn costau byw a threuliau sy'n gysylltiedig ag addysg, sy'n golygu bod llawer o ddysgwyr sy'n wynebu caledi gwirioneddol wedi'u heithrio rhag cael cymorth. Byddai diweddaru'r trothwy yn gwneud y GDLIC (AB) yn fwy teg ac yn adlewyrchu realiti economaidd yr oes sydd ohoni."

Pan ofynnwyd iddynt beth ddylai'r trothwyon fod, soniodd 13% (4) o'r ymatebwyr i'r arolwg y dylent gyd-fynd â'r rhai a osodwyd ar gyfer yr LCA (sef £23,400). O blith y 14 a roddodd ffigur penodol, roedd y trothwyon yn amrywio o isafswm o £20,000 i uchafswm o £26,000, gyda chyfartaledd o £22,430.

Dadleuodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws y dylid sicrhau cyfatebiaeth rhwng trothwyon incwm yr LCA a'r GDLIC (AB), gan ddisgrifio'r trefniant presennol fel un "afresymegol" a

"thorcalonnus". Roeddent yn teimlo y byddai cyfatebiaeth yn rhoi mwy o barhad i ddysgwyr ac yn cefnogi eu dilyniant i astudiaeth lefel uwch. Roedd y cyfranogwyr yn arbennig o bryderus bod y gostyngiad sydyn mewn trothwyon incwm rhwng yr LCA a'r GDLIC (AB) yn amharu ar ddilyniant dysgwyr sy'n symud o 18 i 19 oed.

> "Ar gyfer un plentyn gallant gael hyd at £23,401 o incwm ar gyfer LCA, ond ar gyfer GDLIC mae'n gostwng i £18,370… mae'n chwerthinllyd. Rydyn ni'n eu cefnogi am flwyddyn, yna maen nhw'n symud ymlaen ac rydyn ni'n dweud, mae'n ddrwg gen i, dydych chi ddim yn gymwys mwyach."

> "Maen nhw'n cael £40 yr wythnos ar LCA, yna maen nhw'n symud ymlaen ac yn cael dim byd oherwydd bod y trothwy incwm yn gostwng yn sydyn. Mae'n hurt."

Pwysleisiodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws y pwynt bod gan ddysgwyr sy'n oedolion ymrwymiadau ariannol i'w talu yn aml, a hynny oherwydd bod ganddynt ddibynyddion, ac felly roeddent dan ormod o anfantais nawr o'i gymharu â'u cymheiriaid yn yr LCA:

> "Oedolion gyda thai a phlant yw'r rhain – mae disgwyl iddyn nhw fyw ar incwm mor isel yn afrealistig. Mae'n rhwystr i gael mynediad at addysg."

Cwestiynodd rhai o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a rhanddeiliaid hefyd a ddylid asesu pob ymgeisydd rhwng 19 a 25 oed ar gyfer y GDLIC (AB) yn seiliedig ar eu hincwm eu hunain yn hytrach nag incwm eu rhieni. [troednodyn 20], gan eu bod i bob pwrpas yn oedolion. Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn creu cynllun sy'n debycach i Gyfrifon Dysgu Personol a ReAct.

Awgrymodd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws hefyd y dylai'r rhai sy'n gadael gofal allu cael mynediad at yr 'uchafswm cymorth gwarantedig' sydd ar gael o fewn y cynllun gan y byddai hyn yn eu helpu i ddod yn fwy annibynnol yn ariannol.

Ar ben hynny, dywedodd staff Canolfannau Dysgu hefyd y byddent yn croesawu adolygiad blynyddol o'r trothwyon, yn hytrach na newidiadau ad hoc i'r meini prawf.

### 11.1.2. Lefelau cymwysterau

Roedd mwyafrif staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg (67%, 21 o 32) o'r farn ei bod yn briodol cyfyngu'r grant i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau hyd at Lefel 3. Roedd ychydig (9% neu 3) yn anghytuno ac yn dadlau bod ganddynt ddysgwyr a oedd yn astudio cymwysterau Lefel 4, fel cyrsiau trin gwallt a harddwch, nad oeddent yn gymwys i gael unrhyw gymorth ariannol:

> "Rydym yn rhedeg sawl cwrs lefel 4 ac nid ydynt yn gymwys i gael cyllid AU, felly mae bwlch."

Roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn arbennig o uchel eu cloch am y mater hwn, gan roi sawl enghraifft o ddysgwyr a oedd yn llithro drwy'r rhwyd tra roeddent yn astudio

[20] Fel arfer, ystyrir y rhai rhwng 19 a 25 oed yn fyfyrwyr dibynnol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf eraill fel bod wedi cynnal eu hunain yn ariannol am o leiaf dair blynedd, eu bod yn briod neu'n gyfrifol am blentyn. Mae'r canllawiau'n ystyried y rhai sy'n 25 oed a throsodd fel myfyrwyr annibynnol.

cyrsiau Lefel 4 AB. Roedd y cyrsiau a grybwyllwyd yn cynnwys Adeiladu Lefel 4, Peirianneg, Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu, ac Actio. O ystyried y nifer cymharol fach o ddysgwyr yr effeithir arnynt, awgrymodd y cyfranogwyr na ddylai ymestyn cymhwystra i'r grŵp hwn arwain at broblemau mawr o ran cost.

> "Maen nhw wedi mynd o Lefel 3 i Lefel 4 a does dim byd i'w cefnogi nhw – maen nhw yn nhir neb."

> "Mae gennym ni ddysgwr sydd wedi cael tair blynedd o LCA ac sydd mewn sefyllfa ariannol enbyd, ond all hi ddim cael y GDLIC oherwydd ei bod hi nawr ar gwrs actio Lefel 4."

### 11.1.3. Dysgu o bell

Roedd dros hanner staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg (59% neu 19 o blith 32) o'r farn ei bod yn briodol nad oedd y grant ar gael i ddysgwyr sy'n astudio o bell. Roedd 19% (6) yn anghytuno ac yn dadlau y dylai fod gan y garfan hon o ddysgwyr hawl i gael cymorth, yn rhannol oherwydd eu bod yn wynebu costau cwrs tebyg i'r rhai sy'n astudio wyneb yn wyneb ac oherwydd bod twf wedi bod mewn dysgu rhithwir yn ddiweddar:

> "Maen nhw'n dal i ddysgu ac yn cymryd amser i gwblhau cwrs ac yn gorfod prynu llyfrau ac adnoddau."

> "Mae'r byd wedi newid ac mae dysgu anghydamserol yn dod yn fwy deniadol."

Roedd gwahaniaeth barn hefyd ymysg y cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws ynghylch a ddylid ymestyn y GDLIC (AB) i fyfyrwyr sy'n dysgu o bell. Dadleuodd rhai y dylai'r grant adlewyrchu'r defnydd cynyddol o ddysgu hybrid mewn addysg bellach. Roedd eraill yn fwy petrus, yn bennaf oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'n anodd monitro presenoldeb, gan fod y grant yn seiliedig ar bresenoldeb. Nododd sawl cyfranogwr hefyd nad oedd y mater yn berthnasol i'w lleoliad, gan nad oeddent yn cynnig unrhyw ddarpariaeth dysgu o bell.

Roedd rhanddeiliaid eraill yn fwy cefnogol i gynnwys myfyrwyr sy'n dysgu o bell yn y cynllun, gan nodi bod y rhan fwyaf o ddysgu a hyfforddiant oedolion bellach yn cynnwys rhyw elfen o ddysgu o bell. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith y byddai angen cymorth ariannol ar y grŵp hwn i dalu am adnoddau cwrs, fel llyfrau, offer a band eang.

### 11.1.4. Dysgwyr rhan-amser

Roedd gwahaniaeth barn ymysg staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ynghylch y meini prawf ar gyfer dyfarnu'r grant i ddysgwyr rhan-amser. Teimlai rhai fod y meini prawf yn "deg fwy neu lai," tra bod eraill yn dadlau bod yr oriau astudio gofynnol yn rhy uchel. Yn eu sefydliadau nhw, roedd gan lawer o gyrsiau rhan-amser lawer llai o oriau cyswllt, sy'n golygu na fyddai dysgwyr byth yn gymwys i gael cymorth. Nodwyd hefyd fod dysgwyr rhan-amser yn aml yn fyfyrwyr aeddfed gydag ymrwymiadau ariannol a chyfrifoldebau gofal plant ac felly nhw yw'r rhai a allai elwa fwyaf o gymorth ariannol.

> "Nid yw ein cyrsiau rhan-amser byth yn cyrraedd yr isafswm o 275 awr - ni all y dysgwyr hynny gael y grant o gwbl. Mae ein cyrsiau rhan-amser tua chwe awr yr

wythnos, sydd ddim hyd yn oed yn cyfateb i 200 awr dros y flwyddyn academaidd. Felly dim ond dysgwyr llawnamser all gael mynediad at y cymorth."

"Mae angen adolygu'r oriau rhan-amser. Byddai hynny'n ei gwneud yn fwy hygyrch i ddysgwyr aeddfed ac yn rhoi'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i symud ymlaen gyda'r hyn maen nhw eisiau ei wneud."

Awgrymodd un rhanddeiliad sy'n atgyfeirio cleientiaid at astudiaethau addysg bellach fod y gofyniad o ran yr isafswm oriau ar gyfer cwrs rhan-amser yn rhy uchel. Yn yr achos hwn, byddai llawer o'r cleientiaid sy'n oedolion yn gweld bod astudio am 275 awr y flwyddyn yn rhy heriol, ac roeddent yn aml yn chwilio am gyrsiau byrrach sy'n canolbwyntio ar uwchsgilio ac ailhyfforddi.

## 11.2. Sut y mae'r GDLIC (AB) yn cyd-fynd â chymorth ariannol arall


Nododd staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod meini prawf GDLIC (AB) yn aml yn cael eu defnyddio i bennu cymhwystra ar gyfer cymorth ariannol arall, fel y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, er bod hyn yn amrywio rhwng lleoliadau:

- mewn un lleoliad, mae unrhyw ddysgwr ag incwm aelwyd o hyd at £30,000 yn gymwys i gael cyllid o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, felly gall derbynyddion GDLIC (AB) a rhai nad ydynt yn dderbynyddion ag incwm aelwyd islaw'r gwerth hwn gael mynediad at gymorth
- mewn lleoliad arall, mae derbynyddion GDLIC (AB) yn gymwys yn awtomatig i gael cymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, gan fod y coleg yn cymhwyso trothwy incwm aelwyd cyfradd uwch yr LCA, sef £23,401. Mae pobl nad ydynt yn dderbynyddion y mae incwm eu haelwyd yn is na'r trothwy hwn hefyd yn gymwys
- mewn trydydd lleoliad, nid yw dysgwyr 19 oed a throsodd yn gymwys ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn fel arfer, er bod rhai eithriadau unigol yn cael eu gwneud.
- mewn pedwerydd lleoliad, defnyddir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn bennaf i dalu costau fel darparu pasys bws i ddysgwyr 16 i 19 oed, felly nid yw dysgwyr sy'n oedolion yn gymwys i gael cymorth drwy'r gronfa hon.

## 11.3. Gwerth y grant

Gofynnwyd i ymgeiswyr a staff Canolfannau Dysgu a oedd uchafswm y lwfans o fis Medi 2025 ar gyfer cwrs llawnamser (£1,919) a chwrs rhan-amser (£959) yn swm cywir. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr (64%) o'r farn ei fod yn swm cywir, tra bo ychydig (16%) o'r farn ei fod yn rhy ychydig. Roedd ychydig bach yn teimlo ei fod yn ormod (1%), fel y dangosir yn Ffigur 11.1. Roedd y rhai â phrofiad o ofal yn fwy tebygol o nodi mai dyma'r swm cywir, ac felly hefyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roedd cyfran debyg o staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg (66% neu 21 o blith 32) o'r farn bod gwerth y lwfans yn iawn, tra bod cyfran uwch, sef 22% (7 o blith 32), o'r farn ei fod yn rhy isel.

**Ffigur 11.1: Barn ymgeiswyr am swm y grant**




Disgrifiad o'r ffigur: Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr am grant o'r farn bod swm y grant yn swm cywir.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=565.

Awgrymodd cyfanswm o 69 o ymgeiswyr uchafswm lwfansau grant amgen i'r rhai sy'n astudio'n llawnamser ac yn dod o aelwyd incwm isel. Awgrymodd y rhan fwyaf o’r rhain (67%) grant o rhwng £2,000 a £3,499. Mae Tabl 11.1 yn cyflwyno dadansoddiad mwy manwl o'r symiau grant a awgrymwyd. Dim ond 12 o ymgeiswyr a roddodd farn ar lwfans amgen addas i'r rhai sy'n astudio'n rhan-amser. Roedd yr awgrymiadau hyn yn amrywio o £1,200 i £3,300.

**Tabl 11.1: Nifer yr ymgeiswyr a awgrymodd bob uchafswm lwfans grant amgen ar gyfer dysgwyr llawnamser**

| Swm y grant | Nifer yr ymgeiswyr |
|---|---:|
| £1,000 i £1,499 | 3 |
| £1,500 i £1,999 | 3 |
| £2,000 i £2,499 | 14 |
| £2,500 i £2,999 | 18 |
| £3,000 i £3,499 | 14 |
| £3,500 i £3,999 | 4 |
| £4,000 i £4,499 | 5 |
| £4,500 i £4,999 | 0 |
| £5,000 i £5,499 | 1 |
| £5,500 i £5,999 | 0 |
| £6,000 i £6,499 | 3 |
| Dros £10,000 | 4 |

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=69.

O gymharu, awgrymodd staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg, a oedd o'r farn bod gwerth y grant yn rhy isel, y dylai'r taliad i ddysgwyr llawnamser fod rhwng £2,000 a £5,000 y flwyddyn, gyda ffigur cyfartalog o tua £3,500. Croesawodd staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws y cynnydd dros dro diweddar yn y GDLIC (AB), gan ddweud ei bod yn hen bryd o ystyried y cynnydd mewn costau byw a'i fod yn gynnydd tebyg i ddyfarniad yr LCA. Awgrymwyd y dylai'r GDLIC (AB) gyfateb â'r LCA a chael ei adolygu'n rheolaidd i ystyried chwyddiant a'r cynnydd mewn costau byw.

> "Mae cyflogau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn – pam na ellir gwneud hyn gyda'r grantiau?"
>
> "Cysylltwch y grant â chodiad blynyddol i ystyried chwyddiant."

Croesawodd un rhanddeiliad y cynnydd hefyd, gan nodi y gallai annog mwy o ddysgwyr i wneud cais. Awgrymodd profiad y rhanddeiliaid hwn o gefnogi dysgwyr, gan gynnwys y rhai â chyflyrau niwroamrywiol ac anableddau, nad ystyriwyd yn aml bod swm y grant blaenorol yn werth yr ymdrech o wneud cais amdano.


Awgrymodd staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws y dylai gwerth y grant adlewyrchu'n fwy cywir y costau ychwanegol y mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu. Yn benodol, mae

dysgwyr anabl yn aml yn wynebu costau uwch mewn perthynas â thrafnidiaeth ac offer sy'n gysylltiedig â chyrsiau. Nododd staff hefyd nad yw'r cynllun grant presennol yn ystyried nifer y dibynyddion sydd gan ddysgwr, na'r gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau gofalu, fel costau gofal plant.

## 11.4. Amlder y taliadau

Ar hyn o bryd mae'r GDLIC (AB) yn cael ei dalu i ddysgwyr bob tymor. Gofynnwyd i ymgeiswyr y grant a staff Canolfannau Dysgu rannu eu barn ar amserlen dalu'r grant. Teimlai llawer o ymgeiswyr (70%) fod yr amlder hwn yn iawn, ond roedd ychydig yn credu nad oedd yn cael ei dalu'n ddigon rheolaidd (14%). Roedd ychydig bach yn teimlo ei fod yn cael ei dalu'n rhy reolaidd (1%) fel y dangosir yn Ffigur 11.2. Roedd y rhai 21 oed ac iau yn fwy tebygol o nodi nad yw'r taliadau cael eu gwneud yn ddigon rheolaidd.

**Ffigur 11.2: Barn yr ymgeiswyr am amlder y taliadau grant**




Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod llawer o'r ymgeiswyr o'r farn bod amlder y taliadau grant yn iawn.

Ffynhonnell: Arolwg o ymgeiswyr gan Ymchwil OB3, n=566.

O blith yr ymgeiswyr hynny a oedd o'r farn nad oedd taliadau cael eu gwneud yn ddigon rheolaidd, awgrymodd 72 amserlenni talu amgen. Awgrymodd llawer o'r ymgeiswyr (71%) daliadau misol, gan nodi y byddai hyn yn cyd-fynd â gwariant rheolaidd. Awgrymodd ychydig bach o'r ymatebwyr amserlenni eraill fel bob 6 neu 8 wythnos (8%), bob pythefnos (8%) neu bob wythnos (7%).

Er bod mwyafrif staff y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn yr arolwg (66%, 21 o blith 32) o'r farn bod amlder y taliadau fwy neu lai'n iawn, roedd cyfran uwch nag ymgeiswyr, sef un rhan o bump (22%, 7 o blith 32), o'r farn nad oedd y taliadau'n ddigon rheolaidd. Nododd ychydig o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws y gall yr amserlen dalu dymhorol wneud cyllidebu'n anodd, ac roedden nhw, ynghyd â rhai rhanddeiliaid, o blaid newid i daliadau misol. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn aml yn cael ymholiadau gan fyfyrwyr "sy'n ysu am wybod pryd mae'r taliad nesaf yn ddyledus." I rai dysgwyr, roedd y bwlch hir rhwng taliadau, yn enwedig o fis Medi i fis Ionawr, yn golygu bod arian yn cael ei wario'n gyflym ar anghenion uniongyrchol, gan adael ychydig iawn ar gyfer gweddill y tymor.

“Maen nhw’n cael un taliad ym mis Medi ac yna dim byd tan fis Ionawr… mae hynny’n gyfnod hir.”

## 11.5. Newidiadau ehangach i'r grant

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr hefyd beth, os o gwbl, yr hoffent ei weld yn newid neu'n gwella o ran y grant. Ymatebodd tua 300 o ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn, ond roedd tua hanner y rhain wedi dweud na allent feddwl am unrhyw welliannau angenrheidiol neu wedi gwneud sylwadau cadarnhaol byr cyffredinol yn cydnabod bod y grant wedi bod o gymorth iddynt. Gwnaeth yr hanner arall rai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, ac roedd rhai ohonynt yn adleisio pwyntiau a wnaed yn gynharach yn yr arolwg. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwelliannau'n gysylltiedig â'r themâu canlynol:

- y broses ymgeisio a chyfathrebu. Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr y broses ymgeisio fel un sy'n rhy gymhleth ac anodd ei dilyn. Ystyriwyd bod y ffurflenni’n ailadroddus ac yn aneglur, yn enwedig o ran y gofynion tystiolaeth a therfynau amser. Dywedodd sawl dysgwr fod hyn yn creu rhwystrau i'r rhai ag anableddau, ADY, neu Saesneg cyfyngedig. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys symleiddio’r ffurflenni, cyflwyno ceisiadau digidol (megis apiau symudol a phyrth ar-lein), a darparu canllawiau clir a hygyrch drwyddi draw. Gofynnwyd hefyd am roi mwy o bwyslais ar gyfathrebu a chymorth, gyda galwadau am ymatebion cyflymach i ymholiadau, staff mwy parod eu cymorth, a diweddariadau mwy tryloyw ar gynnydd ceisiadau

  > “Rwy’n credu bod y GDLIC yn system anhygoel wnaeth fy helpu drwy addysg bellach, byddwn i ond yn awgrymu ei gwneud yn fwy hygyrch a gwneud y broses yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau dysgu fel fy chwaer sydd ag awtistiaeth ac ADHD, oherwydd roedd hi angen fy nghymorth i gwblhau’r broses oherwydd ei bod hi'n ei chael hi'n anodd deall y broses a sut i ddelio â'r cais.”

- strwythur ac amlder y taliadau. Roedd amseriad y taliadau yn bryder cyson. Roedd y mwyafrif yn ffafrio rhandaliadau misol neu fwy rheolaidd yn hytrach na thaliadau tymhorol, gan ddadlau y byddai hyn yn eu helpu i gyllidebu ac yn lleihau straen ariannol. Roedd dysgwyr hefyd eisiau i daliadau fod yn fwy dibynadwy ac wedi'u hamserlennu'n glir, gyda rhai'n argymell y dylid rhyddhau arian ar ddechrau pob tymor i dalu costau ymlaen llaw fel teithio, llyfrau ac offer

  > “Taliadau mwy rheolaidd, pan oeddwn i’n derbyn y GDLIC roeddwn i’n teimlo fel pe bawn i’n aros am fy nhaliad nesaf gan na fyddai arian ar ôl gen i tua diwedd y tymor i dalu costau teithio.”

- symiau'r grant a phwysau'n gysylltiedig â chostau byw. Dywedodd yr ymatebwyr nad yw'r swm bellach yn adlewyrchu realiti costau byw cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â bwyd, teithio, a chostau'n gysylltiedig â chyrsiau. Tynnodd rhai sylw at yr anawsterau penodol y mae dysgwyr sy'n oedolion, rhieni a gofalwyr yn eu hwynebu
- gofynion presenoldeb a hyblygrwydd**.** Roedd llawer o fyfyrwyr yn teimlo bod rheolau presenoldeb llym yn annheg, yn enwedig i'r rhai ag anableddau, cyflyrau iechyd, cyfrifoldebau gofalu, neu absenoldebau na ellir eu hosgoi. Awgrymodd yr ymatebwyr

nad presenoldeb ddylai fod yr unig fesur o ymrwymiad, ac y dylid cydnabod dangosyddion amgen, megis cwblhau gwaith cwrs, cyfranogiad ar-lein, neu gynnydd a gyflawnwyd. Er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi egwyddor amodau yn seiliedig ar bresenoldeb, fe wnaeth hyd yn oed yr ymatebwyr hynny awgrymu y gellid cymhwyso'r system yn decach a chyda gwell dealltwriaeth o amgylchiadau unigol

> “Ni ddylid torri lwfansau am absenoldeb oherwydd salwch, anabledd, dyletswyddau gofalu, neu broblemau teithio. Gallai colegau gael system lle y gall myfyrwyr ddarparu tystiolaeth neu egluro eu sefyllfa yn lle cael eu cosbi'n awtomatig. Dylid cydnabod ymdrech drwy gyflwyno gwaith cwrs, cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu ar-lein, neu'r cynnydd a wnaed."

- cymorth ychwanegol. Cynigiodd rhai ymatebwyr y dylid ehangu'r cynllun i gynnwys mathau eraill o gymorth y tu hwnt i daliadau ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys tocynnau bws â chymhorthdal neu am ddim, darparu gliniaduron neu offer cwrs, prydau bwyd am ddim, a hyrwyddo'r grant yn well i sicrhau bod dysgwyr cymwys yn dod yn ymwybodol ohono.

# 12. Casgliadau

Mae'r bennod hon yn amlinellu casgliadau ein hadolygiad.

## 12.1. Nod ac amcanion polisi'r cynllun

Mae'r GDLIC (AB) yn parhau i lenwi bwlch clir mewn cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n oedolion sy'n awyddus i ddychwelyd i addysg bellach, neu wneud cynnydd yn y maes hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried diffyg cymorth tebyg ac anghymhwystra llawer o ddysgwyr sy'n oedolion i fanteisio ar y Gronfa Ariannol Wrth Gefn sy'n cael ei gweinyddu gan golegau addysg bellach yng Nghymru. Yn hynny o beth, mae'r cynllun yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gefnogi amcan Llywodraeth Cymru o alluogi mwy o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru i ennill cymhwyster Lefel 3.

Mae'r dirywiad sylweddol mewn dyfarniadau GDLIC (AB) dros y degawd diwethaf yn destun pryder. Mae nifer y dysgwyr a gefnogir wedi haneru yn ystod y cyfnod hwn, ac er bod y gostyngiad hwn wedi digwydd ochr yn ochr â gostyngiad yn nifer cyffredinol y dysgwyr sy'n oedolion mewn addysg bellach, dim ond 2.5% o'r holl ddysgwyr sy'n oedolion sy'n cael eu derbyn i'r GDLIC (AB) bellach, gostyngiad o gymharu â 5% yn 2015 i 2016. Mae gwariant ar y cynllun hefyd wedi haneru ers 2017 i 2018.

Awgryma'r adborth gan y Canolfannau Dysgu fod y grant, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cefnogi carfan gulach o ddysgwyr, a hynny'n gynyddol, yn fwyaf nodedig y rhai sy'n astudio cymwysterau ESOL a'r rhai sy'n cofrestru ar raglenni byw'n annibynnol a sgiliau bywyd. Dengys y dystiolaeth fod y newid hwn wedi digwydd oherwydd bod lefelau trothwyon incwm aelwydydd y cynllun wedi aros yr un fath. O ganlyniad, nid yw'r grant bellach yn cyfrannu'n effeithiol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol i bawb drwy gael gwared ar rwystrau ariannol i gyfranogiad; yn wir, mae'r dystiolaeth nad yw rhai dysgwyr sy'n profi tlodi sylweddol bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwystra. Dywedodd y dysgwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad eu bod wedi dioddef lefelau uchel o galedi ariannol, a arweiniodd at rai achosion difrifol o dlodi bwyd.

## 12.2. Effaith y GDLIC (AB) ar ddysgwyr

Fel gyda'r gwerthusiad blaenorol, canfu'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad hwn fod y GDLIC (AB) yn cael dylanwad cyfyngedig ar benderfyniadau dysgwyr i gofrestru ar gyfer astudiaethau pellach. Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i’r arolwg y byddent wedi cofrestru ar eu cwrs p'un a oeddent wedi cael y grant ai peidio. Ategir y canfyddiad hwn gan y ffaith bod 70% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus wedi dechrau eu hastudiaethau ac wedi parhau â nhw er gwaetha'r ffaith na wnaethant lwyddo i gael cyllid. Mae hyn yn awgrymu, o ystyried gwerth cymharol fach y grant, mai dim ond dylanwad cyfyngedig a gaiff ar benderfyniadau i barhau ag addysg neu ddychwelyd iddi.

Roedd dysgwyr hŷn a ffoaduriaid yn fwy tebygol o ddweud bod y grant wedi chwarae rhan bwysig yn eu penderfyniad i astudio. Fodd bynnag, roedd ffoaduriaid hefyd yn fwy tebygol na grwpiau eraill o nodi y byddent yn bendant wedi cofrestru beth bynnag, gan gyflwyno set gymhleth o ymatebion neu ymatebion a allai wrth-ddweud ei gilydd gan y garfan hon.

Parhaodd y grant i wneud gwahaniaeth bach ond cadarnhaol i bresenoldeb y derbynyddion, a chyfraniad pwysig at lefelau cadw myfyrwyr. Ychydig iawn o dderbynyddion a gymerodd ran yn y gwerthusiad a nododd eu bod wedi gadael eu cwrs yn gynnar. Yn aml, disgrifiwyd y grant fel ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol, a ddefnyddiwyd yn aml i dalu treuliau sy'n gysylltiedig â chyrsiau yn ogystal â chostau byw ehangach, gan helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau.

Roedd y gofyniad cymhwystra ar gyfer y cynllun i ddysgwyr ddangos dilyniant ar draws lefelau cymwysterau tra roeddent yn parhau i dderbyn cymorth grant am flynyddoedd olynol yn cael ei fonitro'n effeithiol gan y Canolfannau Dysgu. Roedd rhai eithriadau, er enghraifft lle roedd dysgwyr yn cael mynediad at y grant i ehangu eu sgiliau drwy astudio cwrs gwahanol ar yr un lefel neu ar lefel is ag un a gwblhawyd yn flaenorol.

O ran dilyniant pellach, aeth dros hanner y derbynyddion a gwblhaodd neu a adawodd gwrs a ariannwyd gan y GDLIC (AB) ymlaen i ddilyn cwrs hyfforddi neu gymhwyster arall adeg y gwaith maes. Awgryma hyn fod y cynllun yn gwneud cyfraniad ystyrlon at lwybrau dilyniant dysgwyr. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau dilyniant yn amrywio ar draws carfannau: aeth cyfran is o ddysgwyr ESOL ymlaen i astudiaethau pellach o'u cymharu â dysgwyr eraill. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r dilyniant yn ddilyniant i gyrsiau Lefel 3 neu is, gydag ychydig o ddysgwyr yn mynd ymlaen i gyrsiau Lefel 4 neu uwch.

Mae adborth gan y Canolfannau Dysgu hefyd yn dangos mai'r rhai sy'n astudio rhaglenni byw'n annibynnol a sgiliau bywyd yw'r lleiaf tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch. O ganlyniad, mae effaith y cynllun ar gynnydd addysgol y grŵp hwn yn fwy cyfyngedig. Fodd bynnag, mae deilliannau cyflogaeth a datblygiad personol yn ystyriaethau pwysig o fanteision ehangach cyfranogi i'r dysgwyr hyn yng nghyd-destun cyflawni Carreg Filltir Genedlaethol Llywodraeth Cymru o sicrhau bod o leiaf 90% o bobl ifanc 16 i 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

## 12.3. Trefniadau gweinyddol y cynllun

Canfuwyd bod ymwybyddiaeth o'r GDLIC (AB) ymhlith darpar ymgeiswyr yn isel cyn iddynt gofrestru. Y ffyrdd mwyaf cyffredin y daeth ymgeiswyr yn ymwybodol o'r grant oedd drwy diwtoriaid cwrs, diwrnodau agored a gweithgareddau cofrestru. Roedd y Canolfannau Dysgu o'r farn bod y cynllun yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol ar y cyfan o fewn amgylchedd y coleg ond roeddent yn cydnabod bod ymwybyddiaeth ehangach ymysg y cyhoedd yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Mae cyflwyno ffurflen gais ar-lein wedi cael ei groesawu ac mae wedi arwain at welliant sylweddol ym mhrofiad ymgeiswyr o wneud cais am gymorth. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr fod y broses ymgeisio yn hylaw, yn enwedig ar-lein, er bod rhai grwpiau, yn enwedig dysgwyr hŷn, ffoaduriaid a'r rhai ag ADY, yn profi mwy o anawsterau wrth wneud cais am gymorth.

Gall rhai ymgeiswyr gamgymryd y cam cofrestru am y broses ymgeisio lawn ac mae eraill yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r ddogfennaeth angenrheidiol i brofi eu bod yn gymwys.

Byddai rhai ymgeiswyr hefyd yn elwa o gael fersiwn fwy hygyrch neu haws ei deall o'r ffurflen gais

Ar y cyfan, canfu staff y Canolfannau Dysgu fod y ffordd yr oedd y GDLIC (AB) yn cael ei weinyddu yn hylaw, ond nododd rhai anawsterau o ran cael y lefel o gymorth sydd ei angen ar rai ymgeiswyr, yn enwedig y rhai â sgiliau Saesneg cyfyngedig, i gwblhau'r ffurflen gais. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod canllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru yn glir ond tynnodd staff sylw at yr angen am hyfforddiant neu sesiynau briffio amlach i sicrhau cysondeb o ran y ffordd yr oedd y cynllun yn cael ei weinyddu, yn enwedig o ystyried trosiant staff uchel a'r niferoedd cynyddol o fyfyrwyr ESOL a ffoaduriaid.

Ymddengys fod penderfyniad Canolfannau Dysgu i fabwysiadu Cytundebau Dysgu digidol wedi lliniaru rhai o'r problemau a nodwyd yn y gwerthusiad blaenorol ynghylch eu defnydd. Roedd Cytundebau Dysgu yn cael eu gwerthfawrogi gan staff ac ymgeiswyr fel fframwaith defnyddiol ar gyfer monitro presenoldeb ac ymgysylltiad. Roedd y rhan fwyaf o'r derbynyddion yn cofio llofnodi cytundeb, ac adroddwyd bod cydymffurfiaeth â'r gofynion presenoldeb yn uchel.

Ymddengys fod gwelliannau a roddwyd ar waith ar draws y Canolfannau Dysgu i awtomeiddio casglu data ar bresenoldeb wedi gwella'r prosesau talu a monitro sy'n gysylltiedig â'r GDLIC (AB). Dywedodd y rhan fwyaf o'r derbynyddion eu bod wedi derbyn taliadau ar amser. Fodd bynnag, profodd rhai oedi, oherwydd gwallau gweinyddol neu anawsterau'n ymwneud â darparu tystiolaeth ac awgrymwyd y dylid gwneud taliadau'n amlach neu'n gynharach i gefnogi costau byw. Galwodd y derbynyddion hefyd am hyblygrwydd mewn perthynas â gofynion presenoldeb, taliadau rhannol am absenoldebau bach, ac addasiadau i adlewyrchu anghenion ariannol neu newidiadau yn amgylchiadau aelwydydd.

Er bod gan Ganolfannau Dysgu brosesau ar waith i wirio a yw ymgeiswyr llwyddiannus yn symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch tra byddant yn derbyn y grant, nid yw canllawiau'r GDLIC (AB) yn nodi'n benodol bod dysgwyr yn anghymwys os ydynt wedi astudio o'r blaen ar yr un lefel neu ar lefel uwch heb gymorth y GDLIC (AB). Er bod achosion o'r fath brin, byddai'n werth egluro hyn yn y canllawiau.

## 12.4. Cymhwystra ar gyfer y cynllun a gwerth y cymorth

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod llawer o ddysgwyr yn dal i werthfawrogi'r GDLIC (AB), ond nid yw ei reolau cymhwystra bellach yn cyd-fynd â'r pwysau ariannol y mae dysgwyr yn eu hwynebu heddiw. Ystyrir yn gyffredinol bod y trothwyon incwm aelwydydd yn rhy isel ac yn hen ffasiwn, gan eithrio llawer o ddysgwyr sy'n profi caledi gwirioneddol. Mae'r diffyg cyfatebiaeth rhwng trothwyon incwm LCA a'r GDLIC (AB) yn creu gostyngiad sydyn yn y cymorth i ddysgwyr sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth seiliedig ar oedran i ddarpariaeth oedolion, ac roedd staff yn ystyried bod hyn yn rhwystr i fyfyrwyr barhau â'u haddysg.

Nid yw rhai dysgwyr addysg bellach yn gymwys ar gyfer y cynllun oherwydd y meini prawf, a byddai'n werth mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae eithrio dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Lefel 4 nad ydynt yn gymwys i gael cymorth ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn arbennig yn

golygu nad oes gan rai dysgwyr fynediad at gymorth priodol, er gwaethaf y ffaith eu bod dan bwysau ariannol tebyg. Yn yr un modd, ni all rhai dysgwyr rhan-amser gael mynediad at gymorth oherwydd nad ydynt yn bodloni'r gofyniad sylfaenol o 275 o oriau cyswllt y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr rhan-amser yn cynrychioli cyfran fach iawn o dderbynyddion y GDLIC (AB), tuag 8%, ac mae adborth gan Ganolfannau Dysgu yn awgrymu bod y lefel isel hon o bobl sy'n manteisio arno i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith nad yw strwythurau cyrsiau rhan-amser yn aml yn bodloni'r mae'n prawf o isafswm o 275 o oriau cyswllt i fod yn gymwys i gael cymorth, a bod llawer o gyrsiau yn cynnwys 200 o oriau cyswllt fesul blwyddyn academaidd. Nododd rhai ymgeiswyr hefyd fod eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod oherwydd bod oriau eu cwrs yn is na'r trothwy gofynnol.

Er nad yw'r rhai sy'n dysgu o bell yn gymwys ar gyfer y GDLIC (AB) ar hyn o bryd, nid oedd cytundeb clir ymhlith staff y Canolfannau Dysgu ynghylch a ddylent gael eu cynnwys yn y dyfodol. Mae pryderon ynghylch sut i fonitro eu presenoldeb a'u hymgysylltiad yn gywir yn ei gwneud yn anodd argymell ymestyn y cymhwystra i'r grŵp hwn. Fodd bynnag, wrth i ddysgu digidol barhau i gynyddu, efallai y byddai'n werth adolygu'r mater hwn yn barhaus.

Mae'r cynnydd diweddar yng ngwerth y GDLIC (AB) yn cael ei groesawu'n eang a'r farn gyffredinol yw y dylid ei gadw, a'i gynyddu yn unol â chwyddiant yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r amserlen dalu dymhorol bresennol yn gweithio'n dda i lawer, ond nododd rhai anawsterau wrth reoli eu harian dros gyfnodau hir rhwng rhandaliadau, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

# 13. Argymhellion

Mae'r bennod hon yn cynnig cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

**Argymhelliad 1:**

Mae cyfle i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r GDLIC (AB) y tu hwnt i golegau a lleoliadau addysgol eraill. Gallai ymgysylltu'n ehangach drwy fannau cyhoeddus fel lleoliadau cymunedol, meddygfeydd teulu a llyfrgelloedd a phlatfformau digidol helpu i gyrraedd darpar ymgeiswyr yn gynharach yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Argymhelliad 2**:

Mae angen datblygu deunyddiau hyrwyddo mwy hygyrch, gan gynnwys adnoddau digidol a hawdd eu deall, i helpu Canolfannau Dysgu i egluro'n glir pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynlluniau, y broses ymgeisio a'r manteision

**Argymhelliad 3**:

Mae angen proses ymgeisio symlach, gan gynnwys cyfeirio dysgwyr at dudalen ymgeisio GDLIC (AB) ar ôl iddynt gofrestru ar-lein am gyfrif Cyllid Myfyrwyr Cymru.

**Argymhelliad 4**:

Byddai'n fuddiol pe gallai ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth ddigidol fel rhan o'u cais a phe gallai Cyllid Myfyrwyr Cymru dderbyn mathau eraill o ddogfennau, fel 'cod rhannu' y Swyddfa Gartref ar gyfer ffoaduriaid.

**Argymhelliad 5**:

Byddai'n werth ystyried sut y gellid rhoi rhagor o adnoddau i Ganolfannau Dysgu sy'n cael nifer fawr o geisiadau gan ddysgwyr nad ydynt yn gallu siarad Saesneg er mwyn iddynt allu darparu'r cymorth angenrheidiol wedi'i deilwra sydd ei angen ar y garfan hon.

**Argymhelliad 6**:

Dylai'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ddarparu hyfforddiant a/neu sesiynau briffio amlach i staff Canolfannau Dysgu er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ffordd y mae'r canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn perthynas â phresenoldeb, dilyniant a meini prawf cymhwystra.

**Argymhelliad 7:**

Mae angen rhoi mwy o eglurhad ynghylch yr hyn y dylai dilyniant academaidd ei olygu fel rhan o'r canllawiau ac a yw dysgwyr sydd wedi astudio ar yr un lefel neu lefel uwch yn flaenorol yn gymwys i gael cymorth drwy'r GDLIC (AB) ai peidio.

**Argymhelliad 8**:

Dylid gwneud rhai agweddau ar y ffurflen gais ar-lein yn orfodol, yn enwedig y cwestiynau am brofiad o ofal a phlant dibynnol, er mwyn casglu data monitro gwell am gyfradd y

deilliannau llwyddiannus i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Yn eu tro, gellir defnyddio'r data hyn i lywio datblygiad y cynllun.

**Argymhelliad 9**:

Dylai'r ffurflen gais ofyn i ymgeiswyr nodi lefel a phwnc eu cwrs. Byddai modd casglu'r wybodaeth hon yn well drwy opsiynau caeedig yn hytrach na blychau testun agored er mwyn gwella'r data monitro sydd ar gael ar gyfer pynciau a lefel yr astudiaethau y mae derbynyddion GDLlC (AB) yn eu dilyn.

**Argymhelliad 10**:

Dylid cadw gwerth presennol y GDLlC (AB) a rhoi prosesau ar waith i gynyddu gwerth y grant yn unol â chynnydd mewn chwyddiant a chostau byw, a hynny'n flynyddol, os bydd adnoddau ariannol yn caniatáu.

**Argymhelliad 11**:

Yn amodol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael, dylid cynyddu'r trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer cymhwystra'r GDLlC (AB). Dylai'r trothwy incwm aelwyd uchaf ar gyfer dysgwyr llawnamser gyd-fynd â'r trothwy incwm ar gyfer yr LCA, gan roi ystyriaeth i ddull yr LCA o osod trothwyon incwm gwahanol ar gyfer dysgwyr sy'n dod o aelwydydd â phlant dibynnol ychwanegol. At hynny, dylid codi'r trothwyon incwm aelwydydd a osodwyd ar gyfer symiau grant is y GDLlC (AB) ac ar gyfer dysgwyr rhan-amser mewn modd cymesur. Dylid adolygu trothwyon incwm aelwydydd yn flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd mewn chwyddiant.

**Argymhelliad 12**:

Yn amodol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael, dylid ymestyn y GDLlC (AB) i gynnwys dysgwyr addysg bellach sy'n ymgymryd â chymwysterau Lefel 4 nad ydynt yn gymwys am gymorth addysg uwch.

**Argymhelliad 13**:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried lleihau nifer yr oriau cymwys ar gyfer dysgwyr rhan-amser cymwys.

**Argymhelliad 14:**

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r achos dros gynnwys dysgwyr sy'n dysgu o bell yng nghynllun GDLlC (AB).

**Argymhelliad 15**:

Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ymchwilio i a fyddai gweinyddu model talu mwy amserol, fel taliadau misol, yn opsiwn costeffeithiol.

# Atodiad A Cyfeiriadau

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2025) *Adroddiad Blynyddol Cenedlaethau'r Dyfodol 2025*. Caerdydd: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 - Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cymru'n Gweithio (dim dyddiad) *Gwarant i Bobl Ifanc Cymru'n Gweithio*. Caerdydd: Gyrfa Cymru. Gwarant i Bobl Ifanc | Cymru'n Gweithio

Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Llywodraeth Cymru (2015) *Gwerthuso'r Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad (addysg bellach) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2019) *Digidol 2030: Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Digidol 2030: fframwaith strategol | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2021) *Rhaglen Lywodraethu* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhaglen Lywodraethu | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022) *Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Cynllun cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2024) *Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Rhagfyr 2023 i Fai 2024: adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2024) *Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2024–25*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2024-25

Llywodraeth Cymru (2024) *Ymateb i'r Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol 2024*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol 2024

Llywodraeth Cymru (2025) *Datganiad Ysgrifenedig: Cynnydd yng Ngrant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach (2 Mehefin 2025)*. Datganiad Ysgrifenedig: Cynnydd i Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach (2 Mehefin 2025) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2025) *Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) – nodyn esboniadol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Nodyn esboniadol Llywodraeth Cymru ar y GDLIC (AB)

Llywodraeth Cymru (2025) *Gwarant i Bobl Ifanc*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2025) *Ymrwymiad o ran Addysg Oedolion a Dysgu Gydol Oes*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Ein Hymrwymiad o ran Addysg Oedolion a Dysgu Gydol Oes (15 Medi 2025) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)*. Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Canolfannau Dysgu GDLIC AB*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru / Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Canolfannau Dysgu GDLIC AB, Canllawiau ar gyfer GDLIC AB | Gwasanaethau Canolfan Ddysgu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

StatsCymru (dim dyddiad) *Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach).* Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach)

# Atodiad B Dull gwerthuso

Cynhaliwyd yr asesiad mewn pum cam.

Roedd y cam cyntaf yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient i gytuno ar y rhaglen waith a sicrhau mynediad at ddogfennaeth berthnasol. Cadarnhawyd y rhaglen waith mewn adroddiad cychwynnol. Yn ystod y cam hwn, datblygwyd cymorth cof, a chynhaliwyd cyfres o gyfweliadau cwmpasu gyda 7 cyfrannwr o Lywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Diben y cyfweliadau hyn oedd meithrin dealltwriaeth gadarn o'r cynllun grantiau, nodi unrhyw ymchwil neu ddata ychwanegol i lywio'r adolygiad, a chytuno ar y themâu a'r cwestiynau i'w trafod yn ystod y gwaith maes gydag ymgeiswyr a darparwyr Canolfannau Dysgu.

Canolbwyntiodd yr ail gam ar adolygu dogfennau polisi a dogfennau'r rhaglen, gan gynnwys data cyhoeddedig ar nifer y bobl sy'n manteisio ar GDLIC (AB). Sefydlwyd Cytundeb Mynediad at Ddata i alluogi mynediad at wybodaeth reoli ddienw a gedwir gan yr SLC. Darparwyd data yn cwmpasu ymgeiswyr y GDLIC (AB) dros gyfnod o 11 mlynedd (blynyddoedd academaidd 2014 i 2015 i 2024 i 2025) i'r tîm gwerthuso. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch ansawdd y data yn golygu na fyddai'r dadansoddiad yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer cyhoeddiadau ystadegol. O ganlyniad, bydd dadansoddiadau sy'n deillio o wybodaeth reoli yn cael eu cynnal y tu allan i'r adroddiad cyhoeddedig hwn a gellir eu cyflwyno mewn atodiad technegol ar gam diweddarach.

Roedd Cam 3 yn cynnwys datblygu offer ymchwil dwyieithog, gan gynnwys:

- arolwg ar gyfer ymgeiswyr y GDLIC (AB) (yn cwmpasu ceisiadau a wnaed dros gyfnod o dair blwyddyn academaidd rhwng 2022 a 2023 a 2024 i 2025)
- arolwg ar gyfer staff Canolfannau Dysgu sy'n ymwneud â gweinyddu'r cynllun
- canllaw trafod ar gyfer grwpiau ffocws a chyfweliadau â staff Canolfannau Dysgu.

Cyflwynwyd offer drafft a hysbysiadau preifatrwydd dwyieithog i'r cleient i'w hadolygu a'u cymeradwyo cyn i'r gwaith maes ddechrau. Rhoddwyd hysbysiadau preifatrwydd ar-lein, a chynhwyswyd hyperddolenni ym mhob gwahoddiad i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

Darparwyd dwy gronfa ddata ar gyfer dosbarthu'r arolwg: un yn cynnwys 8,858 o gyfeiriadau e-bost unigryw ymgeiswyr y GDLIC (AB), a'r llall yn cynnwys 328 o gyfeiriadau e-bost unigryw staff Canolfannau Dysgu.

Roedd cam pedwar yn cynnwys yr elfennau gwaith maes. Lansiwyd yr arolwg o ymgeiswyr, drwy SNAP, ar 5 Medi 2025. Anfonwyd dwy neges atgoffa, a chaeodd yr arolwg ar 22 Medi 2025. O blith yr 8,858 o gyfeiriadau e-bost, nid oedd modd anfon negeseuon at 864 ohonynt ac fe wnaeth 165 o unigolion optio allan. Daeth cyfanswm o 578 o ymatebion i law, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 7.2% o'r rhai a ddosbarthwyd. Cwblhawyd pob ymateb ond un i'r arolwg yn Saesneg. Ar ôl cwblhau'r arolwg, cymerodd 504 o'r ymatebwyr ran mewn cystadleuaeth ble y tynnwyd enw'r enillydd allan o het ar hap i ennill taleb siopa gwerth £50.

Dosbarthwyd yr arolwg o staff y Canolfannau Dysgu, hefyd drwy SNAP, ar 9 Medi 2025. Anfonwyd dau nodyn atgoffa, ac anfonwyd negeseuon e-bost dilynol ychwanegol yn uniongyrchol at Sefydliadau Addysg Bellach (SABau). Daeth yr arolwg i ben ar 24 Hydref. O blith y 328 o gyfeiriadau e-bost, nid oedd modd anfon negeseuon at 22 ohonynt ac fe wnaeth 32 o unigolion optio allan. Daeth cyfanswm o 32 o ymatebion i law (cyfradd ymateb o 10%). O blith y rhain, cwblhawyd 29 yn Saesneg a 3 yn Gymraeg.

Ar ddiwedd yr arolwg staff, gwahoddwyd yr ymatebwyr i gofrestru ar wahân ar gyfer grwpiau trafod dilynol. Mynegodd deg o unigolion ddiddordeb. Gwrthododd dau y gwahoddiad yn ddiweddarach (oherwydd profiad cyfyngedig neu ddim profiad o gwbl gyda derbynyddion GDLIC (AB) yn eu sefydliad) ac ni wnaeth un ymateb. Cadarnhaodd saith eu bod yn fodlon cymryd rhan Cynhaliwyd dwy sesiwn grŵp ganol mis Hydref, a fynychwyd gan 9 aelod o staff o 6 sefydliad. At hynny, trefnwyd trafodaeth ar wahân gydag un SAB a nodwyd yn ystod yr ymchwil desg fel un sy'n cofrestru nifer mawr o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid a dysgwyr mudol sy'n derbyn GDLIC (AB). Mynychwyd y sesiwn hon gan 3 aelod o staff y sefydliad. Felly, cyfrannodd cyfanswm o 12 o bobl o 7 sefydliad at y gwaith maes ansoddol.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda thri sefydliad rhanddeiliaid. Sefydliadau partner oedd y rhanddeiliaid hyn ac roeddent yn cynnwys y rhai a oedd yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr ac yn atgyfeirio pobl at gyfleoedd addysg bellach.

Roedd cam olaf y rhaglen waith yn cynnwys dadansoddi data arolygon a thrafodaethau. Cafodd ymatebion i'r arolwg o ymgeiswyr eu codio a'u dadansoddi'n thematig. Archwiliwyd cwestiynau caeedig yn ôl demograffeg allweddol, gan gynnwys oedran, rhyw, anghenion dysgu ychwanegol, profiad o fod mewn gofal, cyfrifoldebau gofalu, statws ffoadur/ceisiwr lloches, a dull astudio (llawnamser neu ran-amser). Dadansoddwyd yr ymatebion i'r arolwg o Ganolfannau Dysgu yn ôl math o sefydliad a nifer y derbynyddion GDLIC (AB) a gefnogwyd yn eu sefydliad yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

Dadansoddwyd canfyddiadau’r cyfweliadau cwmpasu a thrafodaethau staff y Canolfannau Dysgu hefyd gan ddefnyddio’r themâu a nodir yn y canllawiau trafod.

Mae'r adroddiad drafft wedi cael ei adolygu'n fewnol gan gymheiriaid cyn ei gyflwyno i’r cleient, a'i ailddrafftio ar ôl derbyn sylwadau.

# Atodiad C Offerynnau ymchwil

## Cwestiynau ar gyfer grwpiau ffocws gyda staff Canolfannau Dysgu

**Cyflwyniad**

1. Dywedwch wrthyf am eich rôl a sut rydych yn ymwneud â'r GDLIC (AB).

**Hyrwyddo, cymhwyso a manteisio ar y GDLIC (AB) (10 munud)**

2. A yw nifer a phroffil yr ymgeiswyr a derbynyddion y GDLIC (AB) yn eich sefydliad wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Os felly, sut?
    - Holwch am newidiadau ym mhroffil demograffig, pwnc a chymwysterau'r myfyrwyr, a beth oedd y myfyrwyr yn ei wneud yn flaenorol?
    - Beth sydd i'w gyfrif am y newidiadau hyn?
    - Pa effaith, os o gwbl, a gafodd y pandemig Covid ar y newidiadau hyn?

3. Sut ydych chi'n hyrwyddo'r GDLIC (AB) a beth sy'n gweithio'n dda o ran y ffordd yr ydych yn hyrwyddo'r grant?

4. Sut y gellid hyrwyddo'r GDLIC (AB) yn well, yn enwedig i grwpiau agored i niwed? [Mae grwpiau agored i niwed yn golygu'r rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc 18-25 oed, myfyrwyr anabl, ffoaduriaid a mudwyr a'r rhai sy'n gadael y carchar a throseddwyr ifanc]

5. Beth yw eich barn am broses ymgeisio'r GDLIC (AB)?
    - Beth yw eich dealltwriaeth chi o brofiadau ymgeiswyr wrth wneud cais?
    - Beth sy'n gweithio'n dda?
    - Beth y gellid ei wella?

**Trefniadau gweinyddol**

6. Beth yw eich barn am y ffordd y mae'r GDLIC (AB) yn cael ei weinyddu?
    - Holwch am y disgwyliadau a roddir ar Ganolfannau Dysgu gan SLC/Llywodraeth Cymru
    - Holwch am brosesau ar gyfer cofnodi presenoldeb a dilyniant academaidd
    - Holwch am brosesau ar gyfer talu myfyrwyr
    - Holwch a ydynt yn defnyddio gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru a gwefan Canolfannau Dysgu SLC [troednodyn 21] ac a ydynt yn darparu digon o arweiniad a chefnogaeth

7. Beth yw eich barn am y defnydd o'r Cytundeb Grant Dysgu GDLIC (AB) (h.y. Cytundeb GDLIC (AB))?

[21] Hafan | Gwasanaethau Canolfannau Dysgu

- Pa wahaniaeth maen nhw'n ei wneud?
- Beth y gellid ei wella neu ei newid?

8. Pa dystiolaeth sydd gennych o werth y GDLlC (AB) i ddysgwyr?
    - Pa wahaniaeth mae'n ei wneud i'w gallu i ymdopi â phwysau ariannol wrth astudio?

9. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r gwahaniaeth y mae'r GDLlC (AB) yn ei wneud i ddysgwyr?
    - O ran eu penderfyniadau i astudio a chofrestru ar gyrsiau
    - O ran gwella lefelau presenoldeb
    - O ran ymgysylltu â'u cwrs
    - O ran mynd ymlaen i gwblhau eu cwrs / lleihau'r nifer sy'n rhoi'r gorau i'w cwrs
    - O ran gwella lefelau cyrhaeddiad
    - O ran dilyniant i astudiaethau addysg bellach
    - O ran dilyniant i astudiaethau addysg uwch

**Cydweddiad strategol, cymhwystra a gwerth y cymorth (10-15 munud)**

10. Pa mor dda y mae'r GDLlC (AB) yn cymharu, ac yn cyd-fynd â chymorth arall sydd ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion mewn addysg bellach?
    - Sut mae'n cyd-fynd â chymorth ariannol arall sydd ar gael gan eich sefydliad?
    - A oes unrhyw ddyblygu neu fylchau?

11. Pa gyfraniad y mae'r GDLlC (AB) yn ei wneud at amcanion Llywodraeth Cymru o ran:
    - Ehangu cyfranogiad mewn addysg bellach yng Nghymru?
    - Cynyddu cyfraddau cyfranogi ôl-19 mewn addysg bellach yng Nghymru?
    - Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o’r Gymraeg o dan Cymraeg 2050?
    - Sicrhau y bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi cymhwyso i Lefel 3 neu uwch erbyn 2050 [carreg filltir genedlaethol ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru]

12. Beth yw eich barn chi am y cymhwystra ar gyfer y GDLlC (AB)? Holwch am briodoldeb:
    - Trothwyon incwm aelwydydd a phriodoldeb strwythur haenog
    - Y ffaith nad yw ar gael i fyfyrwyr sy'n dysgu o bell
    - Y ffaith ei fod wedi'i gyfyngu i ddysgwyr sy'n astudio hyd at gymwysterau AB Lefel 3
    - Y nifer cymwys o oriau cyswllt (h.y. addysgu/goruchwylio) [troednodyn 22] ar gyfer astudio'n rhan-amser (275 i 499 awr) a llawnamser (500+ awr). A yw hyn yn briodol?

[22] y cyfnod o amser a fynegir mewn oriau y mae myfyriwr cymwys yn derbyn addysgu neu oruchwyliaeth mewn perthynas ag ef yn ystod cyfnodau astudio neu ymarfer

- Defnyddio presenoldeb a dilyniant academaidd fel sail ar gyfer dyfarnu taliad

13. Beth yw eich barn am werth y grant?
    - A ddylid cadw'r cynnydd a fabwysiadwyd ar gyfer 2025 i 2026?
    - A yw'r grant yn ddigonol?
    - Pa mor aml y dylid adolygu'r grant a pha feini prawf y dylid eu defnyddio i'w adolygu?

**Ffoaduriaid a myfyrwyr mudol**

14. Mae gennym ddiddordeb ym mhrofiadau ffoaduriaid a myfyrwyr mudol a allai fod yn gymwys, gwneud cais a/neu dderbyn y grant GDLIC (AB).
    - Beth allwch chi ei ddweud wrthym am anghenion penodol y garfan hon o fewn y lleoliad addysg bellach?
    - Pa broblemau ychwanegol y mae ffoaduriaid a myfyrwyr mudol yn eu hwynebu wrth gofrestru mewn addysg bellach?
    - Pa gyrsiau maen nhw'n cofrestru arnyn nhw?
    - Pa gymorth (ychwanegol) mae eich sefydliad yn ei ddarparu i'r garfan hon?
    - A yw ffoaduriaid sydd wedi cofrestru ar raglenni adsefydlu yn cael mynediad at unrhyw gyrsiau AB am ddim?
    - Pa dystiolaeth sydd gennych eu bod yn symud ymlaen i astudiaethau addysg bellach neu addysg uwch ar ôl cwblhau eu cwrs a ariennir gan GDLIC (AB)?

15. Pa mor dda mae'r GDLIC (AB) yn diwallu anghenion ffoaduriaid a myfyrwyr mudol?
    - Faint o ffoaduriaid a mudwyr sy'n astudio yn eich sefydliad? O'r rhain, tua pha gyfran sy'n derbyn y GDLIC (AB)?
    - Pa newidiadau neu welliannau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r GDLIC (AB) i ddiwallu anghenion ffoaduriaid a myfyrwyr mudol yn well?

**Sylwadau i gloi**

16. Diolch am eich cyfraniad. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill am y cynllun GDLIC (AB)?

## Arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB)

Mae copi o'r arolwg o ymgeiswyr y GDLIC (AB) ar gael ar gais.

## Arolwg o staff Canolfannau Dysgu

Mae copi o'r arolwg o staff Canolfannau Dysgu ar gael ar gais.